

## Adar

---

Mae adar yn un o'r grwpiau tacsonomig a gofnodwyd fwyaf yn y Deyrnas Unedig, gyda degawdau o ddata ansawdd uchel yn golygu ein bod yn fwy pendant am dueddiadau mewn poblogaethau a dosbarthiad adar na grwpiau o rywogaethau eraill. Cofnodwyd dros 600 rhywogaeth o adar ym Mhrydain.<sup>1</sup> Mae tua 130 o rywogaethau yng Ngwent sy'n bridio neu debygol o fod yn bridio.<sup>2</sup> Mae'r cyfoeth data hwn, eu sensitifrwydd i newid a'u safle o fewn cadwyni bwyd yn golygu y caiff adar yn aml eu defnyddio fel dangosyddion ar gyfer iechyd cyffredinol ecosystemau. Er enghraifft, mae Adar Cefn Gwlad Ehangach ac ar y Môr yn un o Ddangosyddion Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig.<sup>3</sup>


Er hoffter maith y cyhoedd o adar, maent yn dal i fod dan bwysau yn cynnwys colli cynefin, newidiadau mewn rheolaeth tir, clefyd a newid hinsawdd. Mae adroddiad State of the UK's Birds 2020 yn amcangyfrif fod 19 miliwn yn llai o barau bridio o adar brodorol yn 2017 nag yn 1966.<sup>4</sup> Mae'r dangosydd bioamrywiaeth cyffredinol ar gyfer adar yn gostwng,<sup>3</sup> ac mae'r Rhestr Goch o Adar o Gonsyrn Cadwraeth yn tyfu, gyda 20 rhywogaeth ychwanegol ar adolygiad diweddaraf y Rhestr Goch.<sup>5</sup>

Caiff adar eu cofnodi a'u hastudio'n dda yng Ngwent Fwyaf. Ffurfiwyd Cymdeithas Ornitholegol Gwent (GOS) yn 1961 fel Clwb Adara Pont-y-pŵl ac mae wedi cyhoeddi tri adolygiad cynhwysfawr o statws adar o fewn Gwent – yn 1977, 1985 a 2007. Rydym yn ddyledus i aelodau GOS am y rhan fwyaf o'r data yn yr adran hon; dylai casglu a pharatoi cofnodion mor helaeth a chynhwysfawr gael ei gydnabod fel camp sylweddol.

Y prif gynllun ar gyfer monitro poblogaethau adar yw'r Arolwg Adar Bridio (BBS) a gynhelir gan y British Trust for Ornithology, JNCC a'r RSPB. Rhoddir sylw da i Gwent Fwyaf yn y BBS, gyda 74 sgwâr arolwg o fewn (neu'n rhannol o fewn) ardal yr astudiaeth (gweler Ffigur 1). O'r rhain, gallodd y BTO gyfrif tueddiadau poblogaeth ar gyfer 56 o'r 133 rhywogaeth a gofnodwyd gan y BBS yng Ngwent Fwyaf (gweler Ffigur 2). Dangosodd un ym mhob pump (11 rhywogaeth) o'r 56 ddirywiad mawr, hirdymor (1995-2018) yn gyfystyr â bod ar y Rhestr Goch. Dangosodd 10 rhywogaeth arall ddirywiad cymedrol hirdymor (1995-2018) yn gyfystyr â bod ar y Rhestr Oren. dim ond 14 rhywogaeth (25%) ddangosodd gynnydd sylweddol dros yr un cyfnod.<sup>6</sup> Yr achos mwyaf o gonsyrn yw fod y 56 rhywogaeth y gellid cyfrif tueddiadau amdanynt yn fwy cyffredin o fod yn rhywogaethau cyffredin ac eang.

Gwelwyd y dirywiadau mwyaf gan y Bras Melyn (*Emberiza citronella*) (98%). Y Gog (*Cuculus canorus*) (77%), y Drudwy (*Sturnus vulgaris*) (-75%) a'r Ydfran (*Corvus frugilegus*) (74%). Roedd y cynnydd mwyaf ar gyfer Gwydd Canada (*Branta canadensis*) (275%), y Gwalch Glas (*Accipiter nisus*) (252%), y Golomen (*Columba oenas*) (212%) a'r Gigfran (*C. corax*) (210%).

1. Sgwariau BBS o fewn ardal yr astudiaeth (diolch i BTO)<sup>6</sup>




Ffigur 2. Tueddiadau hirdymor (1995–2018) ar gyfer 56 rhywogaeth o fewn Gwent Fwyaf, yn seiliedig ar Arolwg BTO/JNCC/RSPB o Adar Bridio (dangosir nifer y rhywogaethau mewn cromfachau)<sup>6</sup>


Cryf	Cymedrol	Dim newid	Cynnydd	Cynnydd
Dirywiad (11)	Dirywiad (10)	sylweddol (21)	cymedrol (6)	cryf (8)

Lluniwyd dangosyddion cyfunol ar gyfer adar tir amaethyddol yn yr ucheldir a llawr gwlad ac adar coetir, ynghyd â dangosyddion ar gyfer Cymru gyfan yn defnyddio'r un rhywogaeth <sup>6</sup> Dangosir y


rhywogaethau a ddefnyddiwyd i baratoi'r dangosyddion yn y tabl yn niwedd yr adran. Mae'r dangosyddion o rywogaethau tir amaethyddol (llawr gwlad) Ffigur 3) ac ucheldir (Ffigur 4) yn dangos dirywiad o 45% a 30% yn yr un drefn, dros gyfnod y BBS, yn fras debyg i batrymau'r Deyrnas Unedig yn ogystal â Chymru ar gyfer adar tir amaethyddol a thir uchel. Er y gostyngodd yn y flwyddyn ddiwethaf, mae dangosydd coetir Gwent Fwyaf (Ffigur 5) yn fras sefydlog.



Ffigur 3. Dangosyddion adar aml-rywogaeth tir amaethyddol llawr gwlad ar gyfer Gwent a rhanbarth Gwent Fwyaf rhwng 1994 a 2018 ar gyfer yr un 11 rhywogaeth aderyn dangosydd.<sup>6</sup>



Ffigur 4. Dangosyddion adar aml-rywogaeth tir amaethyddol ucheldir ar gyfer Cymru a rhanbarth Gwent Fwyaf o 1994 i 2018 ar gyfer yr un chwech rhywogaeth aderyn dangosydd.



Ffigur 5. Dangosyddion adar aml-rywogaeth coetir ar gyfer Cymru a rhanbarth Gwent Fwyaf o 1994 i 2018 ar gyfer yr un 24 rhywogaeth adar dangosydd, wedi safoni i'r un cymedrig ar gyfer y gyfres amser (felly heb i werthoedd y flwyddyn gyntaf ddylanwadu'n ormodol arnynt).<sup>6</sup>

Caiff proffiliau'r 36 rhywogaeth adar dilynol eu rhannu yn adrannau cynefin llac er cyfleustod: tir amaethyddol, dŵr croyw a gwlypdir, ucheldir, trefol, rhydyddion a choetir.

*Rhywogaethau a ddefnyddiwyd mewn dangosyddion*

<b>Tir amaethyddol Llawr gwlad</b>	<b>Tir amaethyddol Ucheldir</b>	<b>Coetir</b>
Bras Melyn	Siglen Lwyd	Telor yr Helyg
Drudwy	Gylfinir	Ji-binc
Ydfran	Tinwen y Garn	Dryw Eurben
Llinos Werdd	Boncath	Cnocell Gwyrdd
Jac y Do	Corhedydd y Waun	Titw Glas
Llinos Ar	Cigfran	Dryw
Llwydfron		Titw Penddu
Ysguthan		Coch y Berllan
Ehedydd		Robin
Llinos Aur		Telor yr Ardd
Colomen Wyllt		Tingoch
		Sgrech y Coed
		Titw Cynffon Hir
		Bronfraith
		Siff-siaffod
		Titw Mawr
		Deryn Du
		Telor y Cnau
		Dringwr Bach
		Llwyd y Gwrych
		Telor Penddu
		Cnocell Fraith Fwyaf
		Corhedydd y Coed
		Gwalch Glas

## Cyfeiriadau

1. British Ornithologists Union (BOU). 2018. The British List: A Checklist of Birds of Britain (9th edition). *Ibis* 160: 190–240.
2. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR, & Williams RA. 2008. The Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent.
3. UKBI - C5. Birds of the Wider Countryside and at Sea. JNCC - Adviser to Government on Nature Conservation. <https://jncc.gov.uk/our-work/ukbi-c5-birds-of-the-wider-countryside-and-at-sea/> (accessed 06/06/21).
4. Burns F, Eaton MA, Balmer DE, Banks A, Caldow R, Donelan JL, Douse A, Duigan C, Foster S, Frost T, Grice PV, Hall C, Hanmer HJ, Harris SJ, Johnstone I, Lindley P, McCulloch N, Noble DG, Risely K, Robinson RA, Wotton S. 2020. The State of the UK's Birds 2020. The RSPB, BTO, WWT, DAERA, JNCC, NatureScot, NE a Cyfoeth Naturiol Cymru, Sandy, Bedfordshire.
5. Eaton M, Aebischer N, Brown A, Hearn R, Lock L, Musgrove A, Noble D, Stroud D and Gregory R. 2015. Birds Of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the UK, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
6. Barnes A a Noble D. 2020. A Summary of the State of Terrestrial Wild Bird Populations in Greater Gwent Based on Data from the BTO/JNCC/RSPB Breeding Bird Survey, 1994 to 2018. British Trust for Ornithology, Thetford, Norfolk.

## Adar tir amaethyddol

### Tylluan Wen *Tyto alba* (Scopoli, 1769)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1

**Statws Cadwraeth:** Gwyrdd (Deyrnas Unedig a Chymru)

**Data ar gael:** Cymedrol (598 cofnod)

**Cyd-destun:** Yn wahanol i dylluan gyfarwydd arall Prydain, y Dylluan Frech, sy'n well ganddi goetir, mae'n well gan y Dylluan Wen gynefinoedd agored, yn arbennig tir amaethyddol llawr gwlad sydd â thir pori garw lle mae llygod cae, ei brif ysglyfaeth, yn ffynnu. Mae safleoedd nythu addas yn cynnwys adeiladau a

thyllau yn wyneb creigiau a choed, ac mae'r Dylluan Wen yn barod iawn i ddefnyddio blychau pwrpasol. Fel arfer mae Tylluanod Gwyn yn aros yn eu cynefin gyda thylluanod gwyn ifanc fel arfer yn crwydro llai na 10km o safle'r nyth<sup>1</sup> ac oedolion yn cadw'n ffyddlon at ardal fridio. Mae Tylluanod Gwyn yn fregus i nifer o ffactorau: mae diffyg cynefin addas yn cyfyngu dosbarthiad poblogaeth; mae ansawdd cynefin yn cyfyngu ar gynhyrchiant bridio; gall gwenwyn llygod arwain at wenwyna; gall addasu ysguboriau yn dai ostwng nifer y safleoedd nythu sydd ar gael; ac mae lladd ar y ffordd hefyd yn ffactor sylweddol. Yn ychwanegol, gall gwahanol lefelau o ysglyfaeth oherwydd cylch tair blynedd llygod a gaeafau oer/gwlyb achosi mwy o amrywiadau tymor byr yn y boblogaeth. Tylluanod Gwyn sydd â leiaf o gonsyrn cadwraeth yn y Deyrnas Unedig (wedi israddio o Oren yn 2015). Fodd bynnag, cânt eu gwarchod yn llawn gan Atodlen 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.

**Rhagolygon:** Roedd y Dylluan Wen yn sicr yn rhywogaeth llawer mwy cyffredin ar ddechrau'r 20fed ganrif nag yw heddiw, fodd bynnag mae niferoedd wedi adfer o'u hisafbwynt yn y 1970au a'r 80au.<sup>2</sup> Mae mwy o duedd deheuol a thir isel i'w dosbarthiad yn y Deyrnas Unedig fel canlyniad uniongyrchol i'w bregusrwydd i dywydd garw y gaeaf. Roedd poblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 4000–14,000 pâr yn 2016.<sup>3</sup> Dengys Arolwg Adar Bridio y BTO<sup>4</sup> yr adferodd y Dylluan Wen gyda chynnydd o 251% rhwng 1995-2018. Fodd bynnag, y darlun tymor byrrach yw gostyngiad o 33% yn 2010-2018 a 41% yn 2018-2019. Mae'r dyfodol ar hyn o bryd yn edrych yn gymharol sicr ar gyfer y Dylluan Wen, yn sicr o gymharu gyda'r lefelau isel a welwyd yn y 1970au, ond maent yn dal yn fregus i'r llu o fygythiadau sy'n dal i fodoli ac nid oes unrhyw le i orffwys ar ein rhwyfau.

Caiff nifer o brosiectau bach blychau nythu eu cynnal yn y sir gan wirfoddolwyr yn y gogledd-orllewin, Dyffryn Wysg ac ar Wastadeddau Cil-y-coed. Cofnododd y diwethaf, a gaiff ei redeg gan Grŵp Modrwyo Goldcliff, chwe pâr bridio yn 2020, gyda blychau eraill yn cael eu defnyddio fel safleoedd clwydo.<sup>5</sup>

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Disgrifir y Dylluan Wen yn The Birds of Gwent fel 'an uncommon resident (some possibly the result of earlier re-introductions)'.<sup>6</sup> Roedd hyn yn dal yn wir yn y Gwent Bird Report 2018.<sup>7</sup> Mae'r Dylluan Wen ar gael yn eang ar draws Gwent, er y byddai'n ymddangos fod y llain arfordirol a Dyffryn Wysg yn gadarnleoedd, a chaiff yr ardaloedd o'r tir uchaf un eu hosgoi fel arfer. Mae hynt y Dylluan Wen wedi newid dros gyfnod yng Ngwent, er fod amrywiadau tymor byr




Pete Hadfield

yn y boblogaeth mewn ymateb i aeafau caled a chylchoedd o ddigonedd o ysglyfaethiaid wedi ei gwneud yn anodd monitro lefelau poblogaeth. Awgrymodd yr arolwg cenedlaethol o'r Dylluan Wen yn 1932 fod poblogaeth o 120 pâr yng Ngwent,<sup>8</sup> a disgrifiodd Birds of Monmouthshire (1963) y Dylluan Wen fel bod yn 'fairly common'. Gan adlewyrchu'r dirywiad mewn poblogaeth ar draws gweddill y Deyrnas Unedig, peidiodd y 'fairly common' fod yn wir yn fuan: dim ond 7 cofnod a dderbyniwyd yn 1981<sup>10</sup> I'r gwrthwyneb ychydig flynyddoedd y naill ochr a'r llall i hyn, yn 1976, 'the number of reports remains encouragingly high'<sup>11</sup> a nodwyd cynnydd calonogol arall<sup>12</sup> yn 1985. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r amrywiadau naturiol y cyfeiriwyd atynt eisoes. Fodd bynnag, roedd y boblogaeth yn sicr yn llawer is nag oedd yn 1932 ac yn wir yn 1967; amcangyfrifodd arolwg a gynhaliwyd yn 1982-85 gan yr Ymddiriedolaeth Hebogiaid a Thylluanod fod 25 pâr yng Ngwent,<sup>13</sup> gostyngiad sylweddol ar y 120 pâr yn 1932. Amcangyfrifodd ail Atlas Gwent fod 25-50 pâr,<sup>4</sup> sy'n awgrymu gwelliant ar y sefyllfa ychydig ddegawdau ynghynt.


Ar y map dilynol, mae 'Prif Ganolfan' yn brif ganolfan gofnodi – unigolyn neu bâr yn cael eu monitro'n agos iawn (bron yn ddyddiol).



*Dosbarthiad cofnodion  
y Dylluan Wen ar draws  
Gwent Fwyaf  
(uchafswm 78  
cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Dylluan  
Wen yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae'r Dylluan Wen yn adar glaswelltir garw sy'n well ganddynt ardaloedd gwledig llawr gwlad sy'n absennol gan fwyaf o'r tir agored uchaf, gan felly osgoi tywydd mwyaf garw y gaeaf. Mae llawer o gofnodion yn agos at briffyrdd gyda 50 (11%) o fewn 100m o draffyrdd, ffyrdd deuil, ffyrdd A a phriffyrdd. Cafodd 11 wedi eu lladd (er bod dwy ar y rheilffordd ger yr A40). Gall fod nifer o ffactorau ar waith yma; efallai eu bod yn defnyddio glaswelltir bras ymylon ffyrdd ar gyfer helpa, ond mae sylweddion hefyd yn fwyaf tebyg o weld y rhywogaeth hwyrol drwy olau car.

**Tueddiadau poblogaeth:** Mae poblogaethau yn amrywio, yn gyffredinol byddai'n deg dweud nad yw poblogaethau'r Dylluan Wen mor uchel ag oeddent ganrif yn ôl ond eu bod yn well na blynyddoedd isel y 1970au/80au. Mae Ymddiriedolaeth y Dylluan Wen yn cyhoeddi ei 'State of the UK Barn Owl Population' bob blwyddyn (nid yw hyn yn cynnwys cofnodion Gwent, ond mae'n cynnwys llawer o rannau eraill y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Cymru). Mae penawdau diweddar yn cynnwys 'the worst year since records began' (2013), a ddilynwyd yn syth gan 'an exceptionally good year' (2014), 'a poor year almost everywhere' (2015), 'a poor year in most areas' (2016), 'generally a good year' (2017), 'generally a poor year' (2018) ac yn fwyaf diweddar 'a relatively good year (2019).<sup>14</sup>

**Gwarchodaeth:** Dim safle neilltuol, yn ôl y disgwyl – cofnodion gwasgaredig o SAC Safleoedd Ystlumod Brynbuga, Coetiroedd Dyffryn Gwy, Glaswelltir Aberbargoed, ac yna'n bennaf Wlypdir Casnewydd a Gwastadeddau Gwent. Caiff safleoedd SINC eu gwasgaru ar draws yr ardal ond maent yn cynnwys y safleoedd a gaiff eu monitro'n dda yn Nhreowen a Bargoed.

Caiff Tylluanod Gwyn eu gwarchod mewn peth polisi cynllunio a Chanllawiau Cynllunio Atodol; mae gan Gyngor Sir Fynwy Ganllawiau Cynllunio Atodol neilltuol ar gyfer addasu ysguboriau yn dai lle mae angen cynnal arolygon o ystlumod a thylluanod gwyn ac o bosibl gymryd mesurau i wneud iawn.<sup>15</sup>

*Cofnodion y Dylluan Wen o safleoedd a warchodir*



## Sogiar *Turdus pilaris* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1.

**Statws cadwraeth:** Oren (Cymru<sup>16</sup>) Coch (DU<sup>17</sup>)

**Data ar gael:** 2,169 (Da)

**Cyd-destun:** Mae Sogier ar gael mewn rhannau helaeth o'r Deyrnas Unedig fel rhywogaeth gaeafu.

Fodd bynnag, mae eu natur wyllt, gwamal yn eu gwneud yn llawer llai cyfarwydd na llawer o'n bronfreithod eraill, gyda dim ond tywydd eithafol oer yn eu gyrru i'n gerddi. Maent yn llawer mwy

cyffredin fel adar gaeafu, gyda nifer dda hefyd yn mynd heibio wrth fudo, a dim ond yn anaml iawn maent yn bridio. Mae hyn yn golygu fod Sogier yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd yr haf, gaeaf a cherrig camu mudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>18</sup> Maent yn un o nifer o rywogaethau bronfraith y caiff eu niferoedd yn y Deyrnas Unedig eu cynyddu yn y gaeaf, Fodd bynnag, fel eu cefnder Coch yr Adain, ychydig iawn os unrhyw rai sy'n aros i fridio. Mae'r boblogaeth gaeaf mawr yn cyrraedd o'n bellach i'r gogledd yn Scandinafia.<sup>19</sup> Mae Sogier yn bwyta infertebratau ac, yn arbennig yn y gaeaf, ffrwythau.<sup>20</sup> Dywedir fod 720,000 (1981-84) yn treulio'r gaeaf yn y Deyrnas Unedig.<sup>21</sup> Bu poblogaethau bridio bob amser yn isel iawn heb ddim wedi eu cadarnhau mewn rhai blynyddoedd, er y gwnaeth parau posibl gyrraedd ffigurau dwbl mewn gwahanol flynyddoedd yn y 1970au, 1980au ac mor ddiweddar â dechrau'r 90au, gyda mwyafrif y cofnodion o'r Alban (ond rhai cofnodion o Loegr).<sup>22</sup> Dywedir fod y boblogaeth bridio yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn 0-1 pâr yn y cyfnod 2013-2017.<sup>20</sup>

**Rhagolygon:** Bu'r Sogiar bob amser yn aderyn bridio prin iawn yn y Deyrnas Unedig. Dim ond yn 1967 y cadarnhawyd y cofnod cyntaf, a dim ond mewn niferoedd isel iawn y cofnodwyd bridio, yn weddol afreolaidd byth ers hynny.<sup>23</sup> Yn wahanol i'r boblogaeth fridio fach iawn, afreolaidd a lleol, mae'r boblogaeth gaeafu yn sylweddol fwy (720,000 (1981-84)).<sup>21</sup> Mae'n anodd canfod unrhyw ddata tueddiad poblogaeth gaeafu ar gyfer y Deyrnas Unedig, fodd bynnag nodwyd fod cyfanswm y boblogaeth yn y byd yn sefydlog.<sup>24</sup> Mae y Sogiar ar y rhestr goch yn UK Birds of Conservation Concern, mae hyn oherwydd gostyngiad yn y niferoedd bridio; ni sonnir am niferoedd gaeafu, sy'n dangos nad oes unrhyw bryderon cyfredol am boblogaeth gaeaf y Deyrnas Unedig.<sup>17</sup> Dylid nodi fod y Sogiar ar restr oren Adar Cymreig o Gonsyrn Cadwraeth<sup>16</sup> oherwydd eu bod ar y Rhestr Goch o Adar Ewropeaidd (ERLoB), er fel rhywogaeth o 'Leiaf o Bryder'. Nid ydynt ar y Rhestr Goch yng Nghymru gan nad oes unrhyw boblogaeth bridio i fod o bryder.

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod y Sogiar yn 'common winter visitor'.<sup>7</sup> Byddai'n deg dweud y bu hyn yn wir ers cryn amser gyda Birds of Gwent 2008 yn ei galw yn 'regular winter visitor, sometimes in very large numbers'.<sup>25</sup> Mae Birds of Gwent 2008 hefyd yn cyfeirio at lyfrau llawer cynharach (Birds of Monmouthshire 1937 a 1963), sy'n nodi ei fod yn ymwelydd rheolaidd yn ystod y cyfnodau hynny hefyd.<sup>6</sup> Mae'r Sogiar i'w cael mewn llawer o leoedd o fewn Gwent, gyda chaeau llawr gwlad a gwrychoedd gydag aeron yn hoff leoedd.<sup>6</sup> Cofnodwyd heidiau o filoedd o adar, yn arbennig yn gysylltiedig gyda thywydd garw yn ystod y gaeaf. Nodwyd fod Gwastadeddau Gwent yn cefnogi niferoedd mawr ar adegau. Gallant hefyd ddefnyddio




Andy Karran


perllannau, y mae cryn nifer ohonynt yng Ngwent, mewn tywydd garw a byddant hefyd yn mynd i mewn i erddi mewn tywydd garw.

Nodwyd bod canolfannau cofnodi yn Llanbedr, Gwlypdir Casnewydd a Llandegfedd (sy'n debygol o fod yn dangos ymdrechion cofnodwyr yn hytrach na niferoedd neilltuol o uchel yn y lleoedd hynny). Fel arall, mae cofnodion wedi eu dosbarthu'n dda.

*Dosbarthiad cofnodion y Sogiar  
ar draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm 86 cofnod/ km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Sogiar yn ôl degawd*






**Patrymau cynefin:** Cofnodwyd y Sogiar ar draws llawer o Went. Fodd bynnag, maent yn ffafrio caeau llawr gwlad, gwrychoedd gydag aeron/bryniau a pherllannau.

**Tueddiadau poblogaeth:** Ymddengys nad oes dim consyrn am lefelau poblogaeth gaeafu'r Sogiar yn y Deyrnas Unedig (er y bu gostyngiad yn y niferoedd bridio oedd eisoes yn isel). Yn yr un modd nid oes unrhyw gonsyrn amlwg yng Ngwent, er y gall newid hinsawdd olygu y bydd newidiadau yn niferoedd y Sogiar yn y dyfodol. Ychydig y gall ymdrechion cadwraeth yng Ngwent ei wneud i ddylanwadu'n uniongyrchol ar hyn, ond gellir cadw'r cynefin mewn cyflwr da iddynt, gyda chadw gwrychoedd a pherthi sydd ag aeron wedi eu cynnwys yn y cynlluniau plannu newydd, a chadw a gwella perllannau.

**Gwarchodaeth:** Daw 69% o gofnodion o safleoedd wedi eu gwarchod, gyda nifer uchel o gofnodion o'r cofnodion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) dilynol o gofnodion gwallus yn SAC Aber yr Hafren, Ystumod Brynbuga ac ychydig o Lastiroedd Aberbargoed ac ar hyd yr Afon Wysg. Mae cofnodion Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) o Wlypdir Casnewydd. Mae cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Wastadeddau Gwent, Cronfa Ddŵr Llandegfedd, Nant Nedern a'r Blorems. Mae cofnodion Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) o Llynoedd Garn, Parc Bryn Bach, Pyllau Beaufort ac eraill. Cafodd cofnodion Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) eu gwasgaru'n eang ar draws safleoedd niferus, yn cynnwys Parc Cwm Darren, Treowen, Comin Rhydri a Choed Lasgarn.

*Cofnodion y Sogiar o safleoedd a warchodir*



## Cornchwiglen *Vanellus vanellus* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>17</sup> a Cymru<sup>16</sup>) Cymru. Adran 7 Rhywogaethau Blaenoriaeth

**Data ar gael:** Da (2083 cofnod – Tymor bridio yn unig)

**Cyd-destun:** Yn aderyn hoff oherwydd ei ymddangosiad, ei hediad egniol a'i gri neilltuol, roedd y Gornchwiglen unwaith yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf, gyda lluo o enwau lleol. Fodd bynnag, mae'n olygfa llawer mwy prin yn awr, yn arbennig fel rhywogaeth bridio. Mae'r Gornchwiglen yn fridwyr preswyl ac ymfudwyr, gyda chynnydd enfawr yn eu niferoedd o adar o'r cyfandir yn y gaeaf (poblogaeth gaeafu DU o 635,000).<sup>21</sup> Pan maent yn bridio, maent yn adar gwlad agored, gan hoffi tir amaethyddol a glaswelltir gwlyb lle gallant gael golwg dda ar unrhyw ysglyfaethwyr sy'n agosáu. Yn y gaeaf, gall yr heidiau ymestyn yn ehangach ac maent yn aml ar gael yn ymyl yr arfordir. Credir mai colli cynefin yw'r prif sbardun dros ostyngiadau poblogaeth, gyda'r newid o gnydau a gaiff eu plannu yn y gwanwyn i rai a blannir yn yr hydref a draeniad glaswelltir gwlyb fel rhan o 'welliant' amaethyddol y prif broblemau.<sup>26</sup>



**Rhagolygon:** Roedd poblogaeth y Deyrnas Unedig yn arfer bod yn eang ac yn doreithiog, yn cynnwys yng Nghymru. Er fod y Gornchwiglen yn dal ar gael yn eang, mae cwmp enfawr yn eu niferoedd: amcangyfrifwyd mai 97,500 pâr oedd poblogaeth fridio y DU yn 2016.<sup>21</sup> Roedd y dirywiad cynnar i raddau helaeth oherwydd casglu wyau ar gyfer bwyd, fodd bynnag gwaharddwyd hyn gan Ddeddf Cornchwiglod 1926 a bu cynnydd wedyn yn y poblogaethau.<sup>27</sup> Ers y 1940au arferion ffermio fu'r sbardun dros dirywiad mewn poblogaeth. Sefydlogodd y poblogaethau ar lefel is yn y 1960au, er y bu cynnydd pellach mawr a chyson yn y 1980au, yn cynnwys crebachu cwmpas yn ne orllewin Lloegr a rhannau o Gymru.<sup>27</sup> Fel o'r blaen, cafodd hyn ei yrru gan newidiadau mewn arferion a dwysau ffermio. Roedd y colledion mwyaf yn ne Lloegr a Chymru.<sup>27</sup> Bu gostyngiadau tymor hirach o 63% (tir amaethyddol) a 56% (glaswelltir gwlyb) rhwng 1971 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel 'a weak decline'). Fodd bynnag, yn 2012-2017 bu cynnydd o 5% (tir amaethyddol), a nodwyd fel 'little change' a 'weak decline' o 8% (glaswelltir gwlyb).<sup>3</sup> Mae Arolwg Adar Bridio mwy diweddar y BTO yn cadarnhau'r dirywiad hwn (1995-2018), gyda gostyngiad o 43% (1995-2018), gostyngiad o 33% (2008-18) a gostyngiad o 4% (2018-19).<sup>4</sup> Mae poblogaethau y Gornchwiglen yn dal i ddirywio mewn rhannau helaeth o'r Deyrnas Unedig, a byddai'n ymddangos mai cynlluniau amaeth-amgylcheddol yw eu cyfle gorau efallai o gael newid yn eu hynt.


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Caiff y Gornchwiglen eu disgrifio fel 'breeds in moderate but decreasing numbers, over a sizeable but rapidly contracting range. A passage migrant and winter visitor in substantial numbers' yn The Birds of Gwent.<sup>6</sup> Rhoddodd The Gwent Bird Atlas 1987 amcangyfrif o 1,000 pâr.<sup>28</sup> Fodd bynnag, dangosodd gwaith arolwg 1993 fod rhwng 167-185 pâr, gyda'r cytreff mwyaf yn Waun-y-pound, Glynebwy gyda 50-55 pâr (collwyd yr holl gytrawd i ddatblygiad yn 1996).<sup>6</sup> Ar ddechrau'r 21ain ganrif cynhaliodd RSPB 'Brosiect Cornchwiglen Blaenau'r Cymoedd', gyda'r ardaloedd rwbel glo a adferwyd yn gynefin nythu da, a chredid bod 10% o boblogaeth Cymru (60

pâr) yn defnyddio'r ardal.<sup>29</sup> Yn 2003, ystyriwyd bod amcangyfrifon poblogaeth bridio ar ben isaf 220-500 pâr, y credir ei fod yn dangos gwrthdroi y dirywiadau, a briodolwyd i raddau helaeth i lwyddiant Gwlypdir Casnewydd.<sup>6</sup> Fodd bynnag, os oedd pethau wedi newid er gwell, oes fer gafodd hynny: mae'r niferoedd cyfredol yn sylweddol is, ac mae poblogaeth Blaenau'r Cymoedd fwy neu lai wedi diflannu, tra cafodd safle da yng nghaeau Ben Ward ei golli i raddau helaeth i waith ffyrdd. Mae'r Gwent Bird Report 2018 yn dangos fod y boblogaeth yn dal i ddirywio, gyda'r unig fridio a gadarnhawyd yng Ngwlypdir Casnewydd (er bod nifer fach o safleoedd eraill heb eu cadarnhau).<sup>7</sup> Mae dadansoddiad o gofnodion y Gornchwiglen yng Ngwlypdir Casnewydd,<sup>30</sup> sydd o bell ffordd y safle mwyaf sylweddol sydd ar ôl yng Ngwent dros y 20 mlynedd diwethaf, yn ddiddorol. Dechreuodd y niferoedd ar 8 pâr yn 2000 gan gynyddu'n gyflym i frig o 57 pâr yn 2004. Ers hynny, bu dirywiad i isafbwynt o 15 pâr yn 2018 (i fyny i 23 pâr yn 2019). Mae'r cynhyrchiant (nifer o gywion) yn werth ei nodi, gyda'r nifer cyffredinol yn isel iawn, yr uchaf oedd 24 cyw yn 2014 (pan, yn ddiddorol, mai dim ond 22 oedd nifer y parau). Mae hyn yn gwrthgyferbynnu gyda 2005, pan mai dim ond 5 cyw gafwyd o 55 pâr. Mae nifer y cywion wedi amrywio ond bu'n bryderus o isel ers yr uchafbwynt o 2014, gyda dim ond 0,8,0,1 & 1 o gywion yn y pum mlynedd rhwng 2015 a 2019. Byddai'n ymddangos mai ysglyfaethu yw prif achos cynhyrchiant isel yng Ngwlypdir Casnewydd, er y mesurau atal/allgau ysglyfaethwyr sydd yno.


Mae mapiau'n dangos cofnodion o fewn y system bridio – (Mawrth-Medi) i wahaniaethu rhwng y boblogaeth bridio breswyl â'r boblogaeth aeafu fwy. Y prif ganolfannau cofnodi yw Gwlypdir Casnewydd, Llanbedr Gwynllŵg, Fochriw a Phwll Dŵr Rhoslas. Dylid nodi'r patrwm o golled a ddangosir gan gofnodion hanesyddol: ardaloedd llai ym Mlaenau'r Cymoedd, Fochriw a'r Blorens, ac ar y Gwastadeddau gorllewinol. Collwyd cofnodion gwasgaredig yn Nhorfaen.



*Dwyster cofnodion y  
Gornchwiglen bridio,  
uchafswm  $\geq 100$  cofnod/km<sup>2</sup>  
(gwir uchafswm 582/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Gornchwiglen  
bridio yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae cydberthynas pendant rhwng glaswelltir gwastad, agored Gwastadeddau Gwent ac ardaloedd o rwbel glo wedi eu hadfer yng ngogledd orllewin Gwent Fwyaf. Mae hefyd grynhoed o gofnodion ar neu'n agos at yr arfordir, gan mai dyma lle mae'r Cornchwiglod sy'n gaeafu yn tueddu i ymgasglu, yn neilltuol yn ystod cyfnodau o dywydd garw.



**Tueddiadau poblogaeth:** Mae niferoedd Cornchwiglod yn parhau i ddirywio yn y Deyrnas Unedig, gyda'r ardaloedd mwy gorllewinol yn cael eu taro waethaf. Mae hyn yn cynnwys Cymru ac mae'n amlwg yn y boblogaeth yng Ngwent, sy'n parhau i ostwng. Mae poblogaeth Blaenau'r Cymoedd fwy neu lai wedi mynd a Gwlypdir Casnewydd yw'r unig safle dibynadwy; hyd yn oed yno mae'r niferoedd yn is nag oeddent 10-15 mlynedd yn ôl. Ers 2007 bu'r cynhyrchiant (cywion fesul pâr) yn is na'r lefel gynaliadwy (0.6 cyw/pâr) ym mhob blwyddyn heblaw dwy (2009 a 2014), gyda'r cynhyrchiant cyfartalog yn <0.3.<sup>30</sup> Nid yw hyn yn argoeli'n dda ar gyfer goroesiad hirdymor y Gornchwiglen os na ellir unioni cynhyrchiant yng Ngwlypdir Casnewydd a chynlluniau amaeth-amgylcheddol a luniwyd i helpu'r Gornchwiglen yn nhir amaethyddol ehangach Gwent.

**Gwarchodaeth:** Daw 86% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Wastadeddau Gwent ac yn neilltuol Wlypdir Casnewydd. Mae'r poblogaethau gogleddol yn aml ar safleoedd SINC, er enghraifft Garnlydan, Cefn Gelligaer a Llynnoedd Garn.

*Cofnodion y Gornchwiglen bridio o safleoedd a gaiff eu gwarchod*



**Arolygon penodol:** Mae'r dilynod yn dangos poblogaethau'r Gornchwiglen yng Ngwlypdir Casnewydd, a ddaw o ddata a gafwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.<sup>30</sup>



## Golfan y Mynydd *Passer montanus* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>17</sup> a Cymru<sup>16</sup>)  
Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

**Data ar gael:** Gwael (219 cofnod)

**Cyd-destun:** Aderyn preswyl a gofnodir hefyd fel aderyn ymfudol, mae Golfan y Mynydd yn 'aderyn tir amaethyddol' ac, yn wahanol i'w gefnder Aderyn y To, nid yw'n gysylltiedig gyda pHreswylad dynol. Roedd



Andy Karran

unwaith yn gyffredin ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, ond mae'r poblogaethau erbyn hyn yn llawer mwy darniog; er bod rhai poblogaethau lleol yn gwneud yn dda, mae Golfan y Mynydd bellach yn absennol o ardaloedd mawr.<sup>31</sup> Mae Golfan y Mynydd yn dibynnu ar ysglyfaeth infertebratau i'w bwydo i'w gywion yn ystod y tymor bridio, ond yn y gaeaf mae'n bwydo ar hadau, ac yn well ganddo hadau 'chwyn' llai na grawn mwy.<sup>32</sup> Maent yn tueddu i fod yn gytrefol, gan ffurfio grwpiau bach yn y tymor bridio a heidiau mwy yn y gaeaf.<sup>32</sup> Mae Golfan y Mynydd yn rhywogaeth sy'n nythu mewn twll, felly maent angen coed sy'n rhoi'r cyfleoedd hyn. Mae eu gofynion penodol yn ystod y tymor bridio ac yn ystod y gaeaf yn eu gwneud yn fregus i newidiadau niweidiol yng nghefn gwlad, ac maent wedi dioddef gostyngiad enfawr, gyda gostyngiad brawychus iawn o 95% rhwng 1970 a 1998.<sup>31</sup> Credir fod y dirywiad oherwydd dwysau amaethyddol, yn cynnwys cynnydd yn y defnydd o chwynladdwyr a symud tuag at hau cynydu yn yr hydref.<sup>31</sup> Mae hyn wedi arwain at ostwng yr infertebratau ar gyfer cywion yn y nyth a'r hadau sydd ar gael dros y gaeaf.

**Rhagolygon:** Arferai'r boblogaeth yn y Deyrnas Unedig fod yn eang, yn cynnwys yng Nghymru. Fel y nodwyd, bu dirywiad enfawr yn eu niferoedd, a hefyd yn eu dosbarthiad. Mae'r poblogaethau mwyaf yn awr i'w cael yng Nghanolbarth Lloegr, De Lloegr a Dwyrain Lloegr,<sup>33</sup> nid oes bron ddim ar gael yng Nghymru, De Orllewin Lloegr na Gogledd Orllewin Lloegr.<sup>33</sup> Amcangyfrifwyd fod y boblogaeth bridio yn y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 245,000 pâr.<sup>21</sup> Mae gostyngiadau tymor hirach o 90% rhwng 1975-2017 (a ddisgrifir fel 'dirywiad cryf'). Fodd bynnag, yn fwy diweddar ni fu 'fawr o newid', gyda dirywiad bach o 4% rhwng 2012-2017.<sup>3</sup> Mae'r dirywiad a nodwyd yn flaenorol o 95% rhwng 1970 a 1998 yn cadarnhau'r dirywiad hwn. Fodd bynnag, mae Arolwg Adar Bridio mwy diweddar y BTO<sup>4</sup> yn dangos arwyddion o adferiad a pheth optimistiaeth, gyda chynnydd o 117% rhwng 1995-2018, er ei bod yn rhaid cofio bod y cynnydd mwyaf diweddar yma o lefel isel iawn ac nad yw'r niferoedd unrhyw le'n agos at y poblogaethau cyn 1970. Felly, er fod Golfan y Mynydd yn dal ar bwynt isel, mae arwyddion o wella oherwydd dealltwriaeth gynyddol o ofynion ei gynefin a chynlluniau cadwraeth penodol.


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Fel rhywogaeth bridio, mae Golfan y Fynydd fwy neu lai wedi diflannu yng Ngwent Fwyaf, gyda dau bâr yn 2013,<sup>34</sup> un pâr aflwyddiannus yn 2015,<sup>35</sup> a phâr sengl na wnaeth fridio yn 2017<sup>7</sup> o Porton ar Wastadeddau Gwent. Gyda deg pâr yn nytho yno yn 2006,<sup>6</sup> darparwyd blychau nyth i gynorthwyo'r boblogaeth hon, ond mae'r niferoedd wedi gostwng ers hynny.

Byddai'n ymddangos fod nifer Golfanod y Mynydd wedi amrywio'n hanesyddol gyda Birds of Monmouthshire 1937 yn ei ddisgrifio fel ymwelydd lleol iawn ond gyda Birds of Gwent 1977 yn ei


ddisgrifio fel 'fairly common in all areas apart from the industrial valleys' gyda heidiau o 30 yn aml a hyd at 80 o adar.<sup>6</sup> Drwy hyn i gyd, nodwyd fod Gwastadeddau Gwent a gorlifdir yr Afon Wysg yn gadarnleoedd, gyda helyg wedi eu tocio a hen berllannau yn safleoedd nythu pwysig. Fodd bynnag, bu gostyngiad mawr mewn tocio helyg a chollwyd llawer o berllannau, gan wneud blychau nyth yn adnodd pwysicach. Sefydlwyd nifer o gynlluniau blychau nyth mewn lleoedd tebyg i Gronfa Ddŵr Llandegfedd, Rhaglan, Porton a New Inn. Cafwyd 189 cyw ym mhoblogaeth New Inn yn 1981,<sup>6</sup> ond dim ond poblogaeth Porton a ddangosodd unrhyw weithgaredd (er cyfyngedig iawn) mewn blynyddoedd diweddar.

Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion yn Llandegfedd, Cas-gwent a Gwastadeddau Gwent, er fod cofnodion Llandegfedd yn bennaf yn y 1980au, gydag un yn 2006. Daw'r cofnodion diweddaraf o Wastadeddau Gwent.

*Dosbarthiad cofnodion  
Golfan y Coed ar draws  
Gwent Fwyaf (uchafswm 21  
cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Golfan y  
Coed yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Yn gysylltiedig gyda Gwastadeddau Gwent ac ar hyd dau brif gwrs dŵr yr Afon Wysg a'r Afon Gwy, yn ffafrio bod yn rhesymol agos at gynefinoedd gwlypdir, yn debygol oherwydd fod pryfed sy'n gysylltiedig gyda gwlypdiroedd yn rhan bwysig o'u diet yn ystod y tymor bridio.

**Tueddiadau poblogaeth:** Mae'r dirywiad yn y boblogaeth i bron ddiflannu yng Ngwent wedi ei adrodd yn flaenorol; bu hefyd ddirywiad mawr ym mhoblogaethau'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, er bod poblogaethau yn isel, bu arwyddion o adferiad yn fwy diweddar. Erys i'w weld os gellir achub poblogaeth Gwent; byddai angen dysgu gwersi o gynlluniau llwyddiannus yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, cyllid addas, unigolion ymroddedig a chefnogaeth tirlfeddianwyr i sicrhau fod gofynion cynefin yn addas drwy'r flwyddyn gyfan i wneud hynny.

**Gwarchodaeth:** Daw 36% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o'r Gwastadeddau (yn arllwys i'r aber) a chofnodion hanesyddol o Adral o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Llandegfedd.

*Cofnodion Golfan y Mynydd o safleoedd a warchodir*





## Turtur *Streptopelia turtur* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** BREGUS (Byd-eang)<sup>36</sup>  
Coch (DU<sup>17</sup> a Cymru<sup>16</sup>) Rhywogaeth Blaenoriaeth  
Adran 7 Cymru

**Data ar gael:** Gwael (163 cofnod)

**Cyd-destun:** Aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn yr haf, mae'r Turtur yn treulio ei aeaf yn Affrica is-Sahara.<sup>6</sup> Mae hyn yn golygu fod y Turtur yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd yr haf, gaeaf



Andy Karran


a charreg-gamu ymfudol, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>18</sup> Mae ffactorau eraill sy'n gyfrifol am ddirywiad y Turtur yn cynnwys newidiadau mewn arferion ffermio a gafodd effaith negyddol ar lawer o'n hadar tir amaethyddol, colli cynefin yn eu meysydd daearu yn Affrica, lefelau uchel o hela ar hyd y llwybr ymfudol (yn fwyaf nodedig Malta) a chlefyd trichomoniasis.<sup>37</sup> Mae'r cyfuniad o'r ffactorau hyn yn golygu mai'r Turtur yw'r rhywogaeth adar sy'n dirywio gyflymaf yn y Deyrnas Unedig,<sup>37</sup> gyda gostyngiad arswydus o 94% yn y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig ers 1995 a diflaniad (sydd eisoes wedi digwydd yng Nghymru) yn bosiblwydd go iawn. Ystyrir mai colli cynefin a'r prinder bwyd cysylltiedig ar eu meysydd bridio yn y Deyrnas Unedig yw'r ffactor mwyaf niweidiol.<sup>37</sup> Caiff problemau'r Turtur eu gwaethygu oherwydd mai dim ond hadau y maent yn ei fwyta; mae colli hadau 'chwyn' yn ein cefn gwlad yn golygu llawer llai o lwyddiant bridio.

**Rhagolygon:** Arferai poblogaeth y Deyrnas Unedig fod wedi ei lledaenu'n eang ar draws llawer o Loegr, ac er eu bod yn brin yn y rhan fwyaf o Gymru, roedd unwaith yn fwy niferus yn siroedd llawr gwlad y gororau.<sup>6</sup> Maent bellach wedi eu cyfyngu i ychydig o siroedd yn Ne Ddwyrain Lloegr, gyda Chaint a Sussex yn gadarnleoedd. Credir mai dim ond 1,000 pâr sydd ar ôl.<sup>38</sup> Mae gostyngiadau tymor hirach o 98% rhwng 1975-2017 (a ddisgrifir fel 'dirywiad cryf') gyda dirywiad llai difrifol ond dal yn 'ddirywiad cryf' o 51% rhwng 2012-2017.<sup>3</sup> Mae Arolwg Adar Bridio y BTO<sup>4</sup> yn cadarnhau hyn, gan gofnodi dirywiad o 95% rhwng 1995-2018. Mae gwahanol fudiadau cadwraeth (tebyg i Operation Turtle Dove<sup>39</sup>) yn gweithio i arafu a gwrthdroi'r dirywiad hwn, ac mae rhai straeon o lwyddiant; er enghraifft roedd 16 gwryw canu ar Stad Knepp yn 2017 o gymharu â 3 yn 2009.<sup>40</sup>


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Fel rhywogaeth bridio, mae'r Turtur wedi diflannu o fewn Gwent (a hefyd ar draws weddill Cymru). Yn 1963 dywedodd Birds of Monmouthshire fod y Turtur yn 'regular summer visitor', er fod ardaloedd bridio wedi cyfyngu i ardaloedd canol-ddwyreiniol, gan fod Gwent ar ymyl eu cwmpas.<sup>6</sup> Roedd awgrymiadau hyd yn oed bryd hynny fod y niferoedd yn dirywio, er mai ychydig o dystiolaeth o hyn oedd drwy weddill y 1960au.<sup>6</sup> Fodd bynnag, mae'n bendant fod poblogaeth Gwent wedi dirywio yn ystod y 1970au, gyda bridio wedi'i gadarnhau yn dod yn gyfnodol a phoblogaethau'n crebachu nes bod y boblogaeth wedi ei chyfyngu i ardal yn canoli ar Dryleg a Chors Cleddon erbyn canol y 1990au.<sup>6</sup> Roedd yn dal yn bosibl dod o hyd i adar yn yr ardal hon hyd at 2005, ond cafodd y bridio diwethaf ei gadarnhau yn 1997. Adlewyrchir hyn yn y brif ganolfan yn Nhryleg, gydag un llai yng Nghaerwent. Dim ond naw cofnod sydd o'r degawd diwethaf – y diweddaraf yn 2016. Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion diweddar ar gyfer adar sengl, yn bennaf ar y Gwastadeddau dwyreiniol/Afon Rhymni.



*Dosbarthiad cofnodion y  
Turtur ar draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm 41 cofnod /km<sup>2</sup>)*




*Cofnodion y Turtur yn  
ôl degawd*



**Tueddiadau poblogaeth:** Dogfennwyd y dirywiad mewn poblogaeth i ddiflaniad yng Ngwent a Chymru. Gyda'r boblogaeth yn parhau i ostwng yn y Deyrnas Unedig, go brin y caiff Gwent ei hailboblogi, yn neilltuol gyda chyn lleied o adar ymfudol yn cael eu cofnodi. Ein gobaith gorau yw ceisio rheoli ein tir amaethyddol ar gyfer yr ystod o adar tir amaethyddol sy'n dal i fod gennym a gobeithio y bydd y Turtur yn dychwelyd un diwrnod. Pe byddai'n dychwelyd, yna dylid gwneud ymdrechion i wella ymhellach yr ardaloedd a ffafrir ganddynt, gan ddysgu o wersi a ddysgwyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

**Gwarchodaeth:** Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion o ardaloedd na chânt eu gwarchod. Mae'r rhai sydd o ardaloedd a warchodir o Ardal o Ddiddordeg Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent (yn cynnwys ychydig a gafodd eu camgofnodi ac sy'n mynd i Ardal Cadwraeth Arbennig yr aber). Dylid nodi fod yr ardal lle roedd poblogaeth ar gael ddiwethaf, Cors Cleddon, yn SSSI, a bod gan ardal gyfagos Tryleg rwydwaith gref o Ardaloedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC), yn cynnwys Broad Meend a Bryn Begwn.

*Cofnodion Turtur o safleoedd a warchodir*



## Cyfeiriadau

1. <https://www.barnowltrust.org.uk/barn-owl-facts/juvenile-dispersal-barn-owls/>
2. <https://www.bto.org/our-science/projects/project-owl/learn-about-owls/barn-owl>
3. DEFRA. 2019. Wild Bird Populations in the UK 1970–2018, 40.
4. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>
5. Clarke RM. 2021. Cyfathrebiad personol.
6. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 223–225.
7. Gwent Bird Report 2018.
8. Blaker GB. 1934. The Barn Owl in England and Wales. RSPB, Llundain
9. Humphreys PN. 1963. The Birds of Monmouthshire. Amgueddfa Casnewydd.
10. Gwent Bird Report 1981.
11. Gwent Bird Report 1976.
12. Gwent Bird Report 1985.
13. Sawyer C. 1987. The Barn Owl in the British Isles: Its Past, Present and Future. Hawk Trust, Llundain.
14. <https://www.barnowltrust.org.uk/barn-owl-facts/current-uk-barn-owl-population/>
15. <https://www.monmouthshire.gov.uk/app/uploads/2015/07/H4-LDP-Barn-Conversion-SPG-April-2015.pdf>
16. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13:1, 3–31.
17. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
18. Pearce-Higgins JW a Crick HQP. 2019. One-Third of English Breeding Bird Species Show Evidence of Population Responses to Climatic Variables Over 50 Years. *Bird Study* 66:2, 159–172, DOI: 10.1080/00063657.2019.1630360
19. <https://www.bto.org/our-science/projects/gbw/gardens-wildlife/garden-birds/a-z-garden-birds/fieldfare>
20. Robinson R.A. 2005. *BirdFacts: Profiles of birds occurring in Britain & Ireland*. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (agorwyd ar 2/3 /2021).
21. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/a pep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
22. <https://rbbp.org.uk/explore-reports/>
23. Holloway, S. 1996. The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900. Poyser, Llundain.
24. BirdLife International. 2021. Species factsheet: *Turdus pilaris*. <http://www.birdlife.org> (agorwyd ar 2/3/2021).
25. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. *Cymdeithas Ornitholegol Gwent*, 117.
26. <https://www.bto.org/understanding-birds/species-focus/lapwing>
27. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/lapwing/population-trends/>
28. Tyler S, Lewis J, Venables A a Walton J. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds.
29. <https://www.rspb.org.uk/our-work/conservation/projects/heads-of-the-valleys-lapwing-project/>
30. Gwybodaeth arolwg gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Gorffennaf 2020).

31. <https://www.birdguides.com/articles/back-from-the-brink--no-12>
32. <https://www.bto.org/our-science/projects/gbw/gardens-wildlife/garden-birds/a-z-garden-birds/tree-sparrow>
33. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/tree-sparrow/>
34. Gwent Bird Report 2014.
35. Gwent Bird Report 2016.
36. BirdLife International. 2019. *Streptopelia turtur*. The IUCN Red List of Threatened Species 2019: e.T22690419A154373407. <https://dx.doi.org/10.2305/IUCN.UK.2019-3.RLTS.T22690419A154373407.en> (cyrchwyd 17/7/ 2020).
37. <https://www.operationturtledove.org/turtle-doves/what-is-a-turtle-dove/>
38. <https://www.theguardian.com/environment/2019/nov/07/turtle-dove-flies-towards-extinction-numbers-halve-uk>
39. <https://www.operationturtledove.org/turtle-doves/ecology-habitat-and-food/>
40. <https://knepp.co.uk/turtle-doves>

## Adar dŵr croyw a gwlypdir

### Aderyn y Bwn *Botaurus stellaris* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (Atodlen 1)

**Statws cadwraeth:** Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru, Oren (DU<sup>1</sup> a Cymru<sup>2</sup>) israddiwyd yn ddiweddar o Goch i Oren (rhestr y DU)

**Data ar gael:** Cymedrol (73 cofnod)

**Cyd-destun:** Aderyn sydd, oherwydd ei ffordd o fyw neilltuol iawn, wedi ei gyfyngu i wlypdiroedd ac yn fwy penodol wely cyrs, lle mae ganddynt fynediad



i'w diet o bysgod a lle y cânt eu cuddio'n dda. Yn eithaf anaml y caiff ei weld oherwydd ei fod mor ddirgel ac yn cuddio'n dda yn ei gartref yn y gwely cyrs. Fodd bynnag, mae galwad swnllyd y gwryw yn ystod y tymor bridio yn rhwydd ei adnabod ac i'w glywed o bell, felly gall ddatgelu eu presenoldeb. Mae Aderyn y Bwn yn breswyl yn y Deyrnas Unedig, a chaiff y boblogaeth ei hybu bob gaeaf drwy fewnlif o unigolion o'r cyfandir. Roedd ar fin diflannu o'r Deyrnas Unedig mor ddiweddar â'r 1990au ond mae wedi gwneud adferiad da. Y prif fygythiad i Aderyn y Bwn yw colli eu cynefin penodol iawn mewn gwelyau cyrs. Yn hanesyddol, roedd hyn oherwydd draeniad tir ar gyfer amaethyddiaeth a thynnu dŵr yn y dalgylchoedd ehangach sy'n bwydo'r gwelyau cyrs.<sup>3</sup> Er bod tyniad dŵr yn dal yn fygythiad posibl, y prif fygythiadau ar hyn o bryd yw esgeulustod a diffyg rheoli yn galluogi gwelyau cyrs i sychu a dod yn anaddas;<sup>3</sup> mae gwelyau cyrs yn gynefin olyniaethol gynnar a fydd heb ymyriad maes o law yn lleidio ac yn sychu i ffurfio coetir. Fel gyda'r holl fywyd gwyllt sy'n dibynnu ar amgylchedd dyfrol, gallai digwyddiadau llygredd gael effeithiau lleol hefyd.


**Rhagolygon:** Mae tuedd cryf ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig tuag at ardaloedd lle mae gwelyau cyrs mawr; mae'r mwyafrif helaeth yn Lloegr, gyda thueddiad mwy deheuol a dwyreiniol, gyda gwelyau cyrs East Anglia a chorsydd Avalon yng Ngwlad yr Haf y gwir gadarnleoedd. Mae'r niferoedd wedi cymryd lefel o'r fath fel bod gwir fygythiad y byddent yn diflannu am byth yn y 1990au. Ers hynny gwelodd gwaith cadwraeth wedi ei dargedu i greu a chynnal a chadw gwelyau cyrs mewn cyflwr addas gynnydd amlwg yn y niferoedd bridio, fel bod Aderyn y Bwn wedi symud o'r rhestr Goch i'r rhestr Oren.<sup>1</sup> Arweiniodd yr adferiad hwn at boblogaeth fridio amcanol o 191 pâr yn 2017 a phoblogaeth aeafu o 795.<sup>4</sup> Nid oes Aderyn y Bwn wedi nythu yng Nghymru ers 1984, ar ôl bwlch o 32 mlynedd, roeddent yn bridio yng Nghorsydd Malltraeth yn Sir Fôn.<sup>5</sup> Byddai'n ymddangos y cafodd poblogaeth Aderyn y Bwn ei harbed drwy fwy o ddealltwriaeth o'i gofynion cynefin, ymdrechion cadwraeth cadarn a llawer o'r safleoedd pwysicaf yn bod o fewn gwarchodfeydd natur a warchodir. Mae Aderyn y Bwn yn edrych yn ddiogel, ac ymddengys yn debygol y bydd ei boblogaeth yn ehangu'n well.

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae The Birds of Gwent yn disgrifio Aderyn y Bwn fel 'a very rare winter visitor: regular at one site since 2002'.<sup>6</sup> Mae'r statws wedi gwella ers hynny, gyda chofnodion yn amlach, yn debyg oherwydd y cynnydd cyffredinol ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig a mewnlifau achlysurol yn y gaeaf. Yr un safle rheolaidd y sonnir amdano uchod yw Gwlypdir Casnewydd, lle mae Aderyn y Bwn wedi ei weld yn gyson ers hynny. Gwryw swnllyd yn 2015 oedd y gofnod gyntaf o


Aderyn y Bwn tiriogaethol yng Ngwent yn y cyfnod modern;<sup>7</sup> cafodd pâr eu nodi a'u hystyried yn bâr bridio yn 2017,<sup>8</sup> ac wedyn gwelwyd fod dau bâr yn bridio yn 2020 – y tro cyntaf y profwyd fod Adar y Bwn wedi bridio yn Ne Cymru am dros 200 mlynedd.<sup>9</sup> Y brif ganolfan ar y map islaw yw Llyn Hendre, ychydig tu allan i Gwent Fwyaf. Mae mwyafrif y cofnodion eraill i gyd o Wastadeddau Gwent. Mae'r cofnodion eraill yn rhai hen (1970 a 1985) o Gors Nelson a Magwyr (1985) a rhai mwy diweddar o'r Afon Rhymni yn Ystrad Mynach (2012) a Llanfair Cilgedin (2016). Ar wahân i un gofnod yn 1985, mae cofnodion Gwastadeddau Gwent yn dechrau o 2009, felly'n dangos cytrefwr cymharol ddiweddar.



*Dosbarthiad cofnodion  
Aderyn y Bwn ar draws  
Gwent Fwyaf (uchafswm 27  
cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Aderyn y Bwn yn ôl  
degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae cysylltiad cryf iawn rhwng Aderyn y Bwn â gwelyau cyrs ac nid yw'n fawr o syndod fod y gwelyau cyrs helaeth a gafodd eu creu'n gymharol ddiweddar yng Ngwlypdiroedd Casnewydd bellach yn safle rheolaidd iddynt, gan arwain at fridio yn 2020.

**Tueddiadau poblogaeth:** Mae pethau'n edrych yn gadarnhaol ar hyn o bryd ar gyfer Adar y Bwn yng Ngwent, gyda chofnodion yn cynyddu a'r cofnodion bridio cyntaf am 200 mlynedd yn 2020. Nid oes unrhyw reswm dros dybio na fydd hyn yn parhau, cyn belled ag y caiff rheolaeth briodol ei ariannu yng Ngwlypdir Casnewydd. Fodd bynnag bydd niferoedd yn gyfyngedig, gan ei bod yn debygol mai Gwlypdir Casnewydd yw'r unig wely cyrs digon mawr yng Ngwent.

**Gwarchodaeth:** Daw'r rhan fwyaf o gofnodion o safleoedd a warchodir gan mai Gwastadeddau Gwent ac yn arbennig y Warchodfa Natur Genedlaethol (NNR) yw'r canolbwynt ar gyfer Aderyn y Bwn yng Ngwent.

*Cofnodion Aderyn y Bwn o safleoedd a warchodir*





## Telor Cetti *Cettia cetti* (Temminck, 1820)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) (Atodlen 1)

**Statws cadwraeth:** Gwyrdd (DU<sup>1</sup> a Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (2228 cofnod)

**Cyd-destun:** Ynghyd â Thelor Dartford, Telor Cetti yw'r unig delor yn y Deyrnas Unedig nad yw'n ymfudol, gan aros gyda ni drwy'r flwyddyn. Maent yn rhywogaeth dirgelaidd, ac yn anaml y cânt eu gweld, gan eu bod yn hoffi gorchudd prysg Drain a Helyg



Andy Karran


trwchus, yn ogystal â gwelyau cyrs, Er eu natur ddirgelaidd, cânt eu cofnodi'n eithaf aml gan eu bod yn datgelu eu presenoldeb gyda chân neilltuol a rhyfeddol o uchel. Mae Teloriaid Cetti yn stori o lwyddiant, gyda phoblogaeth sydd wedi cynyddu ac ehangu'n gyflym dros y 60 mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, gallent ddal fod yn fregus oherwydd clirio prysgwydd lleol a gaeafau caled. Mae Teloriaid Cetti o'r pryder cadwraeth lleiaf yn y Deyrnas Unedig ond cânt eu gwarchod yn llawn ar Atodlen 1 y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad gan fod y niferoedd yn dal yn yn isel pan ddaeth y ddeddfwriaeth i rym. Yn ddiddorol, mae Telor Cetti yn unigryw ymysg adar Prydain drwy fod â dim ond deg pluen ar eu cynffonnau, ac yn dodwy wyau coch llachar.<sup>10</sup>

**Rhagolygon:** Ni chafodd Teloriaid Cetti eu cofnodi yn y Deyrnas Unedig tan 1961. Bu cynnydd mawr yn y boblogaeth ers hynny, gyda bridio wedi ei brofi gyntaf yn 1972. Mae ganddynt dueddiad cyffredinol i'r de yn eu poblogaeth o fewn y Deyrnas Unedig. Dywedwyd fod 3,450 o wrywod canu yn y boblogaeth fridio yn y Deyrnas Unedig yn 2016.<sup>10</sup> Bu cynnydd hirdymor o 693% rhwng 1975 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel 'strong increase'), gyda chynnydd llai ond yn dal i fod yn 'strong increase' o 47% rhwng 2012 a 2017.<sup>11</sup> Mae Arolwg Adar Bridio y BTO<sup>12</sup> yn cadarnhau hyn, gan ddangos cynnydd o 417% rhwng 1995 a 2018. Mae potensial i Deloriaid Cetti ledaenu hyd ymhellach i'r gogledd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i aeafau mwynach, er y gall cynefin addas gyfyngu ar gynnydd, ac y gall gaeafau caled ostwng y boblogaeth.


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae The Birds of Gwent yn disgrifio Telor Cetti fel 'an uncommon resident'.<sup>13</sup> Mae'r statws hwn wedi newid yn y blynyddoedd ers ei gyhoeddi, ac er nad yn gyffredin ac yn eang, gellid yn sicr ddweud bod Telor Cetti yn gyffredin mewn cynefinoedd addas yn lleol, sydd yn bennaf yng Ngwastadeddau Gwent. Caiff ei ddisgrifio yn y Gwent Bird Report 2018 fel 'an uncommon breeding resident though with recent range expansion'.<sup>8</sup>

Yn 1988 y cafodd ei gofnodi gyntaf yng Ngwent, ar y Gwastadeddau, a bu cynnydd amlwg yn y nifer a gofnodwyd o 1994.<sup>13</sup> Cafodd bridio ei brofi'n bendant gyntaf yn 2001,<sup>13</sup> ac mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny, gyda Gwarchodfa Gwlypdir Casnewydd yn parhau'r prif safle ar hyd yr amser, er eu bod yn awr ar gael ar draws llawer o'r Gwastadeddau. Gostyngodd y niferoedd yng ngaeaf caled 2018 (gostyngodd nifer y paru o 64 yn 2017 i 43 yn 2018);<sup>8</sup> bydd y niferoedd yn adfer eto os nad yw tywydd o'r fath yn digwydd yn aml. Yng Ngwastadeddau Gwent mae niferoedd mawr ar gael yn Allfan Llanbedr, yn ogystal â Gwlypdir Casnewydd. Mae hyn yn rhannol oherwydd ymdrech cofnodwyr gan fod y ddau hyn yn safleoedd 'adara' adnabyddus, er mai'n ddi-os mai Gwlypdir Casnewydd yw'r prif safle oherwydd ei faint a'i gynefin delfrydol.

*Dosbarthiad cofnodion Telor Cetti ar draws Gwent Fwyaf (uchafswm 632 cofnod /km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Telor Cetti yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Wedi cysylltu'n agos iawn gyda digonedd o'u hoff gynefin gwlypdir prysg/gwely cyrs, sy'n doreithiog ar Wastadeddau Gwent ac yn arbennig ar Wlypdir Casnewydd.

**Tueddiadau poblogaeth:** Cafodd y cytrefu yng Ngwent a'r ehangiad a'r cynnydd dilynol mewn niferoedd ei ddogfennu'n flaenorol. Gyda phoblogaeth y Deyrnas Unedig yn parhau i gynyddu, ymddengys yn debygol y bydd y boblogaeth yn parhau i ffynnu yng Ngwent, gydag efallai ehangu yn eu cwmpas ac efallai fwy o gofnodion a pharau bridio i ffwrdd o'r cadarnle yng Ngwastadeddau Gwent. Mae'n debyg mai'r unig rwystr tebygol i boblogaethau yw tywydd eithafol o oer yn y gaeaf.

**Gwarchodaeth:** Fel y disgwylid gydag aderyn y mae ei boblogaeth wedi ei gysylltu'n helaeth gydag ardaloedd gwarchoddedig iawn Gwastadeddau Gwent, daw mwyafrif y cofnodion o safleoedd a warchodir gyda'r NNR yng Ngwlypdir Casnewydd a'r SSSI yn bennaf y rhai ar y Gwastadeddau. Mae cofnodion SAC/SPA yn debygol o gofnodi 'llithriad' pan fo cofnodion wedi eu canoli neu eu cam-gofnodi ac yn cael eu rhoi yn yr aber.

*Cofnodion Telor Cetti o safleoedd a warchodir*




## Trochydd *Cinclus cinclus* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981)

**Statws cadwraeth:** Oren (DU<sup>1</sup> a Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (1,705 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Trochydd yn aderyn sydd, oherwydd ei ffordd o fyw neilltuol iawn, wedi ei gyfyngu i'n cyrsiau dŵr. Mae'n breswlydd ac yn aros gyda ni drwy'r flwyddyn, gan ddim ond symud pellter cymharol fyr (llai na 2.5km) ac yn gyffredinol yn aros o fewn yr un cefn deuddwr, er yn dilyn bridio



Andy Karran

gall cywion ifanc (yn arbennig benywod) fod rhwng pellter mwy a rhwng dau gefnddwr.<sup>14</sup> Mae hefyd rai symudiadau lleol yn y gaeaf i afonydd llawr gwlad, yn arbennig mewn tywydd difrifol o oer, er yr ymddengys fod ymddangosiadau cyson ar yr arfordir yn perthyn i'r gorffennol.<sup>15</sup> Mae trochwyr yn fregus i ddirywiad mewn ansawdd dŵr a digwyddiadau llygredd, sy'n cael effaith niweidiol ar y ffawna a'r infertebratau y maent yn dibynnu arnynt am fwyd a chynnydd mewn symudiad dŵr, gan ei wneud yn anos iddynt ganfod eu hysglyfaeth. Ychwanegwyd trochwyr i Restr Oren Adeilad o Gonsyrn Cadwraeth y Deyrnas Unedig yn 2015 oherwydd gostyngiad o 27% ar draws y Deyrnas Unedig mewn niferoedd bridio dros y 25 mlynedd blaenorol.<sup>1</sup> Cawsant eu hychwanegu wedyn at y Rhestr Oren yn 2016 oherwydd gostyngiad o 35%.<sup>2</sup> Mae minc gwyllt, digwyddiadau llygredd, tywydd mwy anwadal (yn cynnwys llifogydd) a cholli safleoedd nythu gyda thrwsio pontydd i gyd yn rhesymau posibl am golli poblogaeth.


Mae gan y Trochydd arwyddocâd neilltuol ymysg ffawna adarol Gwent, gan mai ef yw emblem Cymdeithas Ornitholegol Gwent, a 'The Dipper' yw enw eu cylchlythyr.

**Rhagolygon:** Mae gan boblogaeth y Deyrnas Unedig duedd gogleddol a gorllewinol, gydag amcangyfrif poblogaeth fridio o 6,900 i 20,500 pâr,<sup>16</sup> gyda'u hanner yn yr Alban. Mae'r niferoedd wedi amrywio, gan barhau'n sefydlog mewn llawer o rannau ond gyda gostyngiadau amlwg mewn rhannau eraill, yn cynnwys gorllewin Cymru. Bu gostyngiad tymor hirach o 21% rhwng 1975 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel 'little change'); mae data tymor byrrach, mwy diweddar, yn dangos cynnydd o 13% rhwng 2012-2017 (a ddisgrifir fel 'weak increase'). Mae Arolwg Adar Bridio Dyfrffydd y BTO (a gynhwysir yn yr Arolwg Adar Bridio<sup>16</sup>) yn gyffredinol yn dangos gostyngiad bychan mewn niferoedd rhwng 1995 a 2018, er yn ostyngiad llai amlwg mewn blynyddoedd mwy diweddar.


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Disgrifir y Trochwr fel preswlydd gweddol gyffredin ar gyrsiau dŵr addas ledled y sir yn The Birds of Gwent.<sup>15</sup> Yn yr un modd â'r Deyrnas Unedig yn gyffredinol, mae Trochwyr yn fwy niferus yng ngogledd a gogledd orllewin Gwent. Mae hyn yn ffurfio cydberthynas gref gyda'r ardaloedd uwch, lle mae cyrsiau dwr llai, creigiog, clir a gyda digonedd o ocsigen maent yn eu hoffi. Mae hefyd niferoedd da yn y dwyrain ar is-nentydd yr Afon Gwy. Y canolfannau mwyaf yw Parc Taf Bargoed a Pharc Bargoed (canolfannau cofnodi) a'r Afon Mynwy (yn debyg yn ganlyniad canoli cofnodion). Yn gyffredinol maent ar yr Afon Rhymni, Afon Sirhywi, Afon Ebwy, Afon Lwyd, Afon Honddu, rhannau uchaf y Wysg, Afon Mynwy, Afon Trothi, Afon Angiddy a rhannau o'r Afon Gwy, ynghyd ag is-nentydd eraill.



*Dosbarthiad  
cofnodion y Trochydd  
ar draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm 122/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Trochydd yn ôl  
degawd*




**Patrymau cynefin:** Wedi cyfyngu yn bendant iawn i gyrsiau dŵr, mae Trochwyr yn awr yn bresennol ar bob cwrs dŵr sylweddol yng Ngwent. Mae cofnodion achlysurol iawn o gyrff dŵr llonydd.

**Tueddiadau'r boblogaeth:** Mae pethau'n edrych yn rhesymol dda ar gyfer Trochwyr ar hyn o bryd: mae lefelau llygredd dŵr yn llawer gwell nag oeddent yn hanesyddol a chaiff Trochwyr eu dosbarthu'n dda ar gyrsiau dŵr addas o fewn Gwent. Pe byddai cyfnodau o lifogydd a sychder, yn achosi lefelau dŵr sy'n amrywio'n helaeth, yn dod yn fwy cyffredin, yna gallai hyn gael effaith niweidiol ar boblogaethau'r Trochydd.

**Gwarchodaeth:** Er yr ymddengys fod y siart isod yn dangos fod llawer o boblogaeth y Trochydd o fewn cynefin heb unrhyw lefel o warchodaeth, mae hyn ymhell o fod yn wir. Mae gan yr Afon Gwy a hefyd yr Afon Wysg y lefel uchaf o warchodaeth fel SAC, ac mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau dŵr yng Ngwent yn dod o fewn ardaloedd SINC (gyda'r Afon Angiddy a'r Afon Honddu, sy'n safleoedd da ar gyfer Trochwyr, yn eithriadau) ond efallai nad yw cofnodion Trochwyr yn ymddangos ynddynt oherwydd eu bod yn cynefinoedd llinelllog cul.

*Cofnodion Trochydd o safleoedd a warchodir*



## Crëyr Bach *Egretta garzetta* (Linnaeus, 1766)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Gwyrdd (DU<sup>1</sup>), Gwyrdd (Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (4,494 cofnod)

**Cyd-destun:** Heb fod ymhell yn ôl roedd y Crëyr Bach yn ymwelydd prin a chyffrous i'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag mae statws y crëyr bach gwyn hwn wedi newid yn sylweddol mewn cyfnodau diweddar. Er ei fod bellach yn olygfa gyfarwydd, maent yn dal i roi elfen egsotig i'n ffawna adarol. Mae'n

debygol fod y Crëyr Bach yn bresennol yn y Deyrnas Unedig ac roedd yn aderyn mwy cyffredin ledled Ewrop cyn i hela, yn arbennig ar gyfer eu plu, ostwng llawer ar ôl y boblogaeth. Pan gyflwynwyd gwarchodaeth, lledodd y Crëyr Bach i'r gogledd o dde Ewrop, gyda nifer cynyddol yn cael eu cofnodi yn y Deyrnas Unedig; cyrhaeddodd nifer sylweddol yn 1989, a ddilynwyd gan fridio yn Dorset yn 1996.<sup>17</sup> Cafodd effeithiau newid hinsawdd hefyd eu hawgrymu fel rhesymau posibl dros ehangiad cwmpas a chytrefu yn y Deyrnas Unedig.<sup>18</sup> Mae'r Crëyr Bach yn fwyaf niferus ar hyd arfordiroedd deheuol a dwyreiniol Lloegr ac yng Nghymru, ond maent yn lledu i'r mewndir ac i'r gogledd. <sup>17</sup> Mae'r Crëyr Bach yn bennaf yn bwydo ar bysgod bach, ond bydd hefyd yn cymryd amffibiaid a phryfed mawr.<sup>19</sup> Mae poblogaeth y Deyrnas Unedig wedi cynyddu ers eu cytrefu cyntaf ac mae'n parhau i dyfu, gyda chynnydd cyffredinol o 59% rhwng 2013 a 2018.<sup>11</sup> Caiff y boblogaeth bridio ei hybu gan fewnlif o adar o'r cyfandir yn yr hydref/gaeaf.

**Rhagolygon:** Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y Crëyr Bach tan gyfnod diweddar (1980au) yn ymwelydd prin â'r Deyrnas Unedig. Arweiniodd mewnlif sylweddol yn 1989 ar fridio yn 1996; ers hynny mae'r poblogaethau bridio a gaeafu wedi parhau i dyfu a lledaenu ymhellach i'r gogledd. Mae Arolwg Adar Bridio y BTO<sup>12</sup> yn cadarnhau hyn, gan nodi cynnydd enfawr o 2,399% rhwng 1995 a 2018, 64% rhwng 2008 a 2018, a 10% mewn un flwyddyn 2018–2019. Roedd yr amcangyfrif o boblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 2012–2017 yn 1,100 pâr.<sup>4</sup> Yn wahanol i'r boblogaeth fridio gymharol fach ond gynyddol hon, mae'r boblogaeth gaeafu gryn dipyn yn fwy (11,500 yn 2012/13–2016/17) a bu 'cynnydd cryf' o 59% rhwng 2013–2018.<sup>12</sup> Mae Arolygon Adar Gwlypdir (WeBS)<sup>20</sup> yn cadarnhau'r cynnydd hwn ymhellach, gan nodi cynnydd o 39% yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol a 59% yng Nghymru rhwng 2007/08 i 2017/18.

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Crëyr Bach yn anghyffredin i ffwrdd o'r arfordir, ac yn breswlydd bridio prin.<sup>18</sup> Nid oes unrhyw sôn am y Crëyr Bach yn The Birds of Gwent yn 1977<sup>21</sup> na'r The Gwent Atlas of Breeding Birds cyntaf, sy'n cwmpasu'r cyfnod 1981–1985.<sup>22</sup> Mae'r sôn cyntaf am y Crëyr Bach yn The Birds of Gwent 2008, lle caiff ei ddisgrifio fel 'uncommon throughout the year. Breeds at one location.'<sup>23</sup> Roedd y cofnod cyntaf yng Ngwent mewn gwirionedd yn 1989,<sup>23</sup> fel rhan o'r mewnlif sylweddol cyntaf i'r Deyrnas Unedig. Dilynodd y bridio cyntaf 12 mlynedd yn ddiweddarach, yn 2001,<sup>23</sup> 5 mlynedd yn unig ar ôl y cofnod bridio cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Dengys cyfeiriad at y Gwent Bird Report 2016 fod dau gytref bridio yng Ngwent, y ddau ar Wastadeddau Gwent, gyda chytref Cors Magwyr newydd sefydlu.<sup>7</sup> Erbyn adeg Gwent Bird Report 2018, mae'n ddiddorol nodi fod cytref Cors Magwyr wedi ehangu ar




Andy Karran

draul y gytref arall yng Ngwastadeddau Gwent yng Nghwrt Whitson, a gafodd ei gadael.<sup>8</sup> Mae hefyd safleoedd clwydo sylweddol, gyda 42 y cyfrif uchaf yng Nghors Magwyr. yn 2018.<sup>7</sup> Medrir gweld y Crëyr Bach yng Ngwent drwy'r flwyddyn, ond – fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig – mae nifer fwy o adar yma dros y gaeaf. Gwastadeddau Gwent a'r blaentraeth yw'r lleoliad sy'n fwyaf tebygol o fod â Chreyrod Bach, ond mae niferoedd bach i'w gweld yn y mewndir yn gysylltiedig gyda gwahanol gyrff dŵr.


Y prif ganolfannau cofnodi yw Llanbedr Gwynllŵg a Goldcliff. Mae canolfannau eraill amlwg yn Nant Nedern, Pil Collister, Pil Cil-y-coed, y Moorings a Chei Mawr Rhymni. Mae'n debyg fod y ganolfan yn Swydd Gaerloyw yn un ffals, oherwydd canoli nifer fach o gofnodion. I ffwrdd o'r Gwastadeddau, mae clystyrau o gofnodion yn Llandegfedd a'r Afon Wysg ger y Bryn.



*Dosbarthiad cofnodion Crëyr  
Bach ar draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm  $\geq 100$  cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion o'r Crëyr Bach  
yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae cysylltiad cryf rhwng Creyrod Bach a chynefinoedd gwlypdir, gyda Gwastadeddau Gwent a'r blaentraeth y brif gynefin a ddefnyddir.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, dim ond yn ddiweddar mae'r Crëyr Bach wedi cytrefu ac wedyn wedi sefydlu poblogaethau bridio o fewn y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda'r bridio cyntaf wedi ei gofnodi yn 2001. Mae'r cynnydd hwn oherwydd gostyngiad mewn erledigaeth yn caniatáu cynnydd mewn cwmpas ac effaith newid hinsawdd. Mae cyfrifon WeBS isod yn dangos yn glir y cynnydd yn Aber yr Hafren o niferoedd bach iawn ddechrau'r 1990au i gannoedd erbyn hyn. Ymddengys fod poblogaeth Aber yr Hafren yn cynyddu, tra bod y boblogaeth yn siroedd Cymru wedi gwastadtau yn y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r boblogaeth yn awr yn amlwg wedi sefydlu'n dda iawn ac ychydig o gonsyrn cadwraeth sydd amdani. Fodd bynnag, dylid nodi fod y boblogaeth fridio yng Ngwent yn dal i fod ar lefel isel (9 pâr) ac wedi crynhoi mewn dim ond dau safle,<sup>8</sup> sy'n eu gwneud yn gynhenid fregus. Dylai'r safleoedd hyn ac unrhyw safleoedd newydd gael eu gwarchod rhag aflonyddu arnynt.


Mae cyfrif WeBS yn dangos y boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren) yn hytrach na Gwent Fwyaf i gyd. Dylid nodi y caiff rhai cyfrifon blynyddol eu rhoi fel isafrif yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif.

#### *Uchafbwynt Cyfrif WeBS Gaeaf y Crëyr Bach ar Aber yr Hafren<sup>24</sup>*



**Gwarchodaeth:** Daw 93% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o SAC Aber Hafren, ynghyd â nifer uchaf o gofnodion o Warchodfa Natur Genedlaethol Gwlypdir Gwent ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd.

*Cofnodion Crëyr Bach o safleoedd a warchodir*



## Hwyaden Lostfain (Lennais, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 2

**Statws cadwraeth:** Coch (Cymru) ac Oren (DU)

**Data ar gael:** Da (1,474 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Hwyaden Lostfain yn rhywogaeth cymharol gyffredin o hwyaden o fewn y Deyrnas Unedig fel rhywogaeth gaeafu, ond efallai un y mae pobl yn llai gyfarwydd oherwydd eu bod yn hoffi cynefinoedd mwy gwyllt a'u natur swil. Maent yn fwyaf cyffredin o ddigon fel aderyn gaeafu, ond maent



Andy Karran

hefyd yn ymfudo heibio, er mai dim ond nifer bach iawn sy'n aros i fridio. Mae hyn yn golygu fod yr Hwyaden Lostfain yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd yn yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudol a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>25</sup> Maent yn un o ystod cyfan o rywogaethau hwyaid sy'n gaeafu mewn niferoedd sylweddol yn y Deyrnas Unedig yn y gaeaf. Mae'r Hwyaden Lostfain sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig wedi eu cyfyngu gan eu gofynion bridio penodol iawn, gan fod angen pyllau dŵr croyw mewn glaswelltir.<sup>26</sup> Mae'r cynefin hwn yn fregus iawn i hinsawdd sy'n cynhesu, gan y gall y pyllau bas hyn sychu.<sup>27</sup> Mae'r rhan fwyaf o'r nifer fach o adar bridio yng ngogledd yr Alban.<sup>28</sup> Mae llawer mwy yn gaeafu yn y Deyrnas Unedig gydag adar yn dod o leoedd mwy gogleddol tebyg i ogledd-orllewin Siberia, mae eraill yn ymfudo ymhellach i'r de i Affrica is-drofannol<sup>29</sup> Mae gan yr Hwyaden Lostfain ddiets hollysol, gan gael hyn o laid wedi'i gladdu.<sup>26</sup> Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, bu gostyngiad o 24% yng nghyswllt adar gaeafu 1992/93 a 2017/19.<sup>20</sup> Gall y gostyngiad mewn niferoedd gaeafu fod yn ymateb i aeafau mwynach gan olygu fod mwy o Hwyaidd Lostfain ymhellach i'r dwyrain, ond mae'n dal i fod yn fater o bryder.<sup>30</sup> Mae'n anodd canfod tueddiadau yn y boblogaeth bridio, ond rhan o'r rheswm pam fod yr Hwyaden Lostfain ar y rhestr Oren yw gostyngiadau diweddar mewn niferoedd bridio a chwmpas. Byddai hyn yn ymddangos yn wir, gydag amcangyfrif o ddim ond 27 pâr yn 2012–2017,<sup>4</sup> a'r Panel Adar Bridio Prin yn cofnodi fod 'gostyngiad gwan' (35% dros 25 mlynedd).<sup>31</sup>


**Rhagolygon:** Un safle yn yr Alban oedd yr unig leoliad yr oedd Hwyaidd Lostfain yn bridio yn y Deyrnas Unedig yn y 19eg ganrif.<sup>32</sup> Cynyddodd cofnodion yn ystod yr 20fed ganrif ond roeddent bob amser wedi eu gwasgaru ac ar niferoedd isel, gydag ardaloedd rheolaidd weithiau'n cael eu gadael oherwydd sensitifrwydd i lefelau dŵr.<sup>32</sup> Nid oedd yr amcangyfrif o'r boblogaeth fridio yn y Deyrnas Unedig erioed yn fawr a dim ond 27 pâr oedd yma yn 2012–2017;<sup>31</sup> ymddengys fod hyn yn ostyngiad ar lefelau blaenorol, ac nid oedd yr Hwyaden Lostfain erioed yn fwy na phrin iawn fodd bynnag. Yn wahanol i'r boblogaeth fridio fach a lleol, mae'r boblogaeth gaeafu yn sylweddol fwy (20,000 yn 2012/13–2016/17)<sup>31</sup> ond bu newidiadau ynddi (gostyngiadau gan bennaf: gostyngiad o 8% yn 1975–2018 (a ddisgrifiwyd fel 'newid bach'), gyda hyn yn newid mewn cyfnodau mwy diweddar (a ddisgrifiwyd fel 'little change') rhwng 2013 a 2018.<sup>11</sup> Mae arolygon WeBS<sup>20</sup> yn dangos llawer mwy o ostyngiad: gostyngiadau o 24% yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw (o gymharu â chynnydd o 28% yng Nghymru) rhwng 1992/93 i 2017/18 a gostyngiad mwy difrifol o 29% yn y Deyrnas Unedig rhwng 2007/08 a 2017/18 (gostyngiad o 52% yng Nghymru). Cafodd y boblogaeth gaeafu hon ei dosbarthu'n eithaf eang ledled y Deyrnas Unedig, yn bennaf yn defnyddio arfordiroedd ac aberoedd

cysgodol, fodd bynnag mae'r rhan fwyaf yn eithaf lleol.<sup>33</sup>


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi bod yr Hwyaeden Lostfain yn 'fairly common winter visitor at main coastal sites; casual elsewhere'.<sup>7</sup> Bu hyn yn wir ers cryn amser, gyda The Birds of Gwent yn nodi ei fod yn ymwelydd gweddol gyffredin yn y gaeaf ac ymfudo yn bennaf i safleoedd arfordirol. Roedd nifer y gaeaf yn fwy na'r trothwy ar gyfer pwysigrwydd rhyngwladol yn 2008<sup>34</sup> ac yn 'regular and fairly common winter visitor, mainly to the coast, but also to one or two inland waters. Numbers are actually small, but are subject to considerable fluctuation from one year to another' yn 1977.<sup>35</sup> Nodwyd fod Aber yr Hafren yn bwysig iawn i'r Hwyaeden Lostfain, gan gynnal poblogaeth o Bwysigrwydd Cenedlaethol.<sup>36</sup> Mae'r rhai a ganfyddir o fewn Gwent yn ffurfio rhan sylweddol o'r poblogaethau hyn, gydag uchafswm cyfrif blynyddol o 682 (sydd mewn gwirionedd yn fwy na'r trothwy pwysigrwydd rhyngwladol) ym mlynnyddoedd cynnar y 21ain ganrif.<sup>34</sup> Caiff Llanbedr Gwynllŵg, Saint y Brid, Goldcliff a Gwlypdir Casnewydd eu cydnabod fel y safleoedd pwysicaf yn The Birds of Gwent 2008.<sup>20</sup> Cofnodir niferoedd llawer llai mewn nifer o safleoedd mewndirol, yn cynnwys Cronfa Ddŵr Llandegfedd. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Hwyaed Lostfaen yn rhan bwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren yn ystod y gaeaf. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn y nifer a gofnodwyd mewn blynyddoedd diweddar gyda'r Gwent Bird Report 2014<sup>37</sup> gan nodi bod 'numbers remain considerably lower than in the previous decade'. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiadau yng Nghymru a hefyd yn y Deyrnas Unedig i gyd, efallai oherwydd bod mwy o adar yn gaeafu ymhellach i'r dwyrain fel ymateb i aeafau cyffredinol mwynach. Caiff pwysigrwydd parhaus Llanbedr Gwynllŵg ei gadarnhau yn y Gwent Bird Report 2018 lle mae'n dweud fod Llanbedr Gwynllŵg yn parhau i fod y safle pwysicaf o ddigon.<sup>7</sup>

Mae canolfannau cofnodi yn Llanbedr Gwynllŵg, Gwlypdir Casnewydd a Llandegfedd gyda gorchudd gwirioneddol da mewn cofnodion diweddar.

*Dosbarthiad cofnodion yr  
Hwyaden Lostfain ar draws  
Gwent Fwyaf (uchafswm  
576/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion yr Hwyaen Lostfain  
yn ôl degawd*






**Patrymau cynefin:** Mae'r Hwyaeden Lostfain yn bendant iawn yn aderyn arfordir aber yr Hafren. Fe'u cofnodwyd hefyd mewn nifer fach o safleoedd mewndir. yn arbennig Cronfa Ddŵr Llandegfedd.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiadau cyffredinol ym mhoblogaethau gaeafu yr Hwyaeden Lostfain o fewn y Deyrnas Unedig. O leiaf am gyfnod, yn arbennig yn ystod y 1990au, aeth Cymru yn groes i'r tueddiad hwn a bu cynnydd mewn niferoedd. Fodd bynnag, yn y cyfnod o tua 10 mlynedd, bu gostyngiadau yng Nghymru hefyd. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gan ddangos patrwm tebyg i gyfanswm y boblogaeth yng Nghymru. Byddai'n ymddangos fod y boblogaeth o'r Hwyaeden Lostfain sy'n gaeafu yng Ngwent yn is ar hyn o bryd ond mae'n dal yn bwysig iawn fel rhan o boblogaeth Cenedlaethol Bwysig Aber yr Hafren. Mae astudiaethau parhaus o dueddiadau yn bwysig iawn i fonitro'r poblogaethau, yn arbennig wrth i ymchwiliadau barhau i argloddiau, morlynnoedd a grym llanw yr Hafren. Dylid craffu'n fanwl iawn ar effeithiau posibl hyn ar y poblogaethau o'r Hwyaeden Lostfain sy'n gaeafu yma, ynghyd â rhydyddion ac adar dŵr eraill.<sup>38</sup> Byddai hefyd yn bwysig datrys unrhyw ostyngiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd a all fod oherwydd bod newid hinsawdd yn newid cwmpasau gaeafu o ffactorau eraill.


Dangosir manylion y niferoedd sy'n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrifiadau WeBS<sup>34</sup> isod. Mae'r graff yn dangos y dirywiad yn y boblogaeth yn y 21ain ganrif ar ôl cynnydd blaenorol. Mae'n aneglur pam fod y niferoedd yn y 1970au mor isel yn siroedd Cymru. Roedd y niferoedd yng Ngwent yn isel bryd hynny gan fod y boblogaeth yn canoli ar aber yr afon Rhymni (i'r gorllewin, y tu allan i Gwent). Fodd bynnag, roedd yr Hwyaeden Lostfain yn dal i fod yn aber yr Hafren (efallai heb eu nodi gan WeBS). Daeth y boblogaeth yma'n fwy symudol a daeth i Lanbedr Gwynllŵg yn gyson yn y 1980au.<sup>34</sup>

*Cyfrifiadau WeBS yur Hwyaeden Lostfaen ar Aber yr Hafren<sup>24</sup>*



**Gwarchodaeth:** Daw 95% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) Aber yr Hafren, Gwarchodfa Natur Leol (NNR) Gwlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd. Yr Ardal o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur yw Llyn Rhaslas.

*Cofnodion Hwyaidd Lostfain o safleoedd a warchodir*



## Telor y Cyrs *Acrocephalus scirpaceus* (Hermann, 1804)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Gwyrdd (DU<sup>1</sup>) Gwyrdd (Cymru)<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (1,493 cofnod)

**Cyd-destun:** Aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn yr haf, mae Telor y Cyrs yn treulio ei aeafau yn Affrica.<sup>39</sup> Mae hyn yn golygu fod Telor y Cyrs yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudol a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – pethau y mae



Andy Karran

newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>25</sup> Mae hyn yn golygu eu bod yn un o ystod cyfan o deloriaid sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud teithiau ymfudo pell i safleoedd gaeafu. Mae Telor y Cyrs yn bryfysol gan bennaf ond byddant yn bwyta aeron yn yr hydref.<sup>39</sup> Maent ar gael yn eang ar draws rhannau helaeth o dir isel yng nghanol a de Cymru a Lloegr yn eu cynefin o wely cyrs; maent yn llawer prinnach yn yr Alban ac Iwerddon.<sup>39</sup> Fel mae eu henw yn awgrymu, maent yn bendant iawn yn aderyn gwely cyrs a phrysgwydd cysylltiedig. Fel canlyniad, maent yn eithaf anodd eu gweld, ond maent yn datgelu eu hunain drwy eu trydar. Yn wahanol i lawer o'n ymfudwyr o bell yn ystod yr haf, bu cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth, gyda chyfanswm cynnydd o 79% rhwng 1975 a 2018.<sup>11</sup> Cafodd y cynnydd yma ei yrru gan ehangiad hynod mewn cwmpas ymhellach i'r gogledd a gorllewin y Deyrnas Unedig ers y 1960au.<sup>40</sup> Awgrymwyd bod gwell perfformiad bridio, hinsawdd mwy cynnes a gwella rheoli cynefinoedd yn rhesymau dros ehangu'r cwmpas.<sup>40</sup>


**Rhagolygon:** Byddai'n ymddangos fod poblogaeth a dosbarthiad Telor y Cyrs wedi amrywio dros y ganrif neu ddwy ddiwethaf.<sup>32</sup> Ar ddiwedd y 19fed ganrif, roedd Telor y Cyrs yn bridio yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru a Lloegr i'r de o (ac yn cynnwys) Swydd Efrog a Swydd Caerhirfryn.<sup>32</sup> Fodd bynnag, erbyn y 1930au, roedd wedi ei gollu o lawer o gyrion gogleddol a gorllewinol (yn cynnwys rhannau sylweddol o Gymru) ei gwmpas, a fel hyn y bu tan y 1970au.<sup>32</sup> O'r 1970au ymlaen, fodd bynnag, mae cwmpas y boblogaeth wedi ehangu ac mae Telor y Cyrs wedi ailgytrefu ardaloedd a gollwyd yn flaenorol. Nawr, mae'r cwmpas yn debyg i'r hyn oedd ar ddiwedd y 19eg ganrif, gyda bridio hefyd yn yr Alban ac Iwerddon.<sup>32</sup> Amcangyfrifwyd fod 130,000 pâr yn bridio yn y Deyrnas Unedig yn 2016.<sup>4</sup> Mae hyn yn dangos cynnydd mewn blynyddoedd diweddar: cynnydd o 79% rhwng 1975 a 2018 (a ddisgrifiwyd fel cynnydd gwan), gyda hyn yn sefydlogi'n fwy diweddar heb unrhyw newid rhwng 2012 a 2017.<sup>11</sup> Mae Arolwg Adar Bridio y BTE<sup>12</sup> yn dangos y patrymau hyn ymhellach gyda chynnydd o 21% rhwng 1995 a 2018 yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw.

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Caiff dosbarthiad Telor y Cyrs yng Ngwent ei gyfyngu gan eu gofynion o ran cynefin. Mae'r rhan fwyaf o welyau cyrs a ffosydd gydag ymylon cyrs y rhanbarth ar Wastadeddau Gwent yn ne Gwent, ac felly dyma lle mae'r niferoedd mwyaf o Deloriaid y Cyrs.<sup>41</sup> Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod Telor y Cyrs yn 'fairly common breeding summer visitor/passage migrant'.<sup>8</sup> Bu hyn yn wir ers cryn amser, ond gyda chynnydd cyffredinol mewn niferoedd. Cofnododd The Birds of Gwent yn 1997 ef fel 'breeding summer visitor. It is an uncommon but fairly regular visitor, mainly to areas on the coastal levels'.<sup>41</sup> Mae'r Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981-1985 yn amcangyfrif bod 200-300 pâr yng Ngwent,<sup>43</sup> gyda'r ail


atlas (1998–2003) yn amcangyfrif cynnydd yn y boblogaeth i 310-570 pâr.<sup>41</sup> Mae hyn unwaith eto yn dangos cynnydd amlwg. Nodwyd y bu sefydlu gwelyau cyrs yng Ngwarchodfa Gwlypdir Casnewydd yn amlwg fanteisiol ar gyfer Telor y Cyrs.<sup>41</sup>

Y prif ganolfannau ar gyfer cofnodion yw ar draws Gwastadeddau Gwent, gyda'r nifer fwyaf yn Llanbedr Gwynllŵg a Gwlypdir Casnewydd, ynghyd â Llaneirwg yn yr ardal clustog. Ymaith o'r Gwastadeddau, mae clystyrau o gofnodion yn Llandegfedd.

*Dosbarthiad cofnodion Telor  
y Cyrs ar draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm >100)*



*Cofnodion Telor y Cyrs yn ôl  
degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae Telor y Cyrs yn bendant iawn yn adar gwelyau cyrs a ffosydd gydag ymyl corsen.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu cynnydd pellach ym mhoblogaethau Telor y Cyrs o fewn y Deyrnas Unedig, ac mae eu cwmpas wedi ehangu ymhellach i'r gogledd i'r Alban ac i'r gorllewin i Iwerddon. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol gyda'r boblogaeth fridio yn gyffredinol yn cynyddu. Fodd bynnag, mae wedi parhau i fod wedi ei gyfyngu i raddau helaeth i Wastadeddau Gwent, gan mai dyma lle mae cynefin cyrs addas ar gael, ar ffurf gwelyau cyrs (yn fwyaf amlwg yng Ngwlypdir Casnewydd) a hefyd y ffosydd gydag ymyl corsen sydd ar gael yn ehangach. Nid yw Telor y Cyrs o bryder cadwraeth mawr ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw llawer o'n hymfudwyr haf pellter maith yn gwneud cystal, a gallai problemau ar safleoedd gaeafu yn Affrica sy'n effeithio arnynt ddod i effeithio ar Delor y Cyrs, felly ni ddylid llaesu dwylo. Mae'n anodd trin y problemau newid hinsawdd hyn drwy gynlluniau cadwraeth mwy lleol. Fodd bynnag, gellir dal i gadw a gwella cynefinoedd yng Ngwent mewn cyflwr fel eu bod yn cynyddu i'r eithaf yr adnoddau posibl sydd ar gael ar gyfer bridio Telor y Cyrs i sicrhau fod cyfraddau cynhyrchiant yn uchel. Gallai rheoli cilometrau lawer o ffosydd draenio (64km o brif ffosydd draenio a 137km o ffosydd draenio llai) ar Wastadeddau Gwent fod yn ffactor bwysig yn llwyddiant Telor y Cyrs yn y dyfodol. Er y bydd amrywiaeth o ddatrysiadau rheoli yn eu lle ar gyfer y ffosydd draenio yn seiliedig ar wahanol anghenion ecolegol ac amaethyddol, economeg a rheoli dŵr, dylid cadw darnau gydag ymyl cyrs i roi cynefinoedd addas ar gyfer Telor y Cyrs.

**Gwarchodaeth:** Daw 88% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o'r dilynol: cofnodion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) Aber yr Hafren, cofnodion Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) o Wlypdiroedd Casnewydd, cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Wastadeddau Gwent a Llandegfedd; cofnodion Gwarchodfa Natur Leol (LNR) o Barc St Julian; cofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o The Moorings, Parc Gwledig Rogiet a gwahanol safleoedd eraill.

*Cofnodion Telor y Cyrs o safleoedd a warchodir*





## Hwyaden Lydanbig *Anas clypeata* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwlad a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 2

**Statws cadwraeth:** Oren (DU<sup>1</sup>), Oren (Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (2,407 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Hwyaden Lydanbig yn rhywogaeth cymharol gyfarwydd o hwyaid yn y Deyrnas Unedig, gan gael eu henw o'u pig fawr a siâp arbennig.

Maent yn fwyaf cyffredin o ddigon fel aderyn gaeafu ond maent hefyd yn galw heibio pan maent yn ymfudo, ac mae niferoedd llai yn aros i fridio. Mae

hyn yn golygu fod yr Hwyaden Lydanbig yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>25</sup> Maent yn un o ystod mawr o rywogaethau hwyaid sy'n gaeafu mewn cryn niferoedd yn y Deyrnas Unedig gyda nifer cymharol fach yn unig yn aros i fridio. Mae'r rhan fwyaf o'r Hwyaid Llydanbig sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig i'w cael yn ne a dwyrain Lloegr, gyda nifer llawer llai yn yr Alban a rhannau gorllewinol Lloegr.<sup>44</sup> Mae'r adar bridio yn symud ymhellach i'r de yn y gaeaf, gydag adar o ymhellach i'r gogledd sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig yn cymryd eu lle.<sup>44</sup> Mae'r Hwyaden Lydanbig yn hollysol ac yn hidlo infertebratau bach a hadau o'r dŵr gyda'u pigau arbenigol.<sup>45</sup> Drwyddi draw yn y Deyrnas Unedig, bu cynnydd o 132% yng nghyswllt adar gaeafu rhwng 1975 a 2018.<sup>11</sup> Credir fod y cynnydd mewn niferoedd gaeafu oherwydd gaeafau mwynach gan olygu fod mwy o Hwyaid Llydanbig yn treulio'r gaeaf ymhellach i'r gogledd yn hytrach nag yn Sbaen neu Ffrainc. Mae'n anodd canfod tueddiadau poblogaeth bridio, ond rhan o'r rheswm pam fod y Hwyaden Lydanbig ar y rhestr Oren yw cwmpas diweddar mewn niferoedd a chwmpas bridio.<sup>45</sup> Fodd bynnag, dengys gwefan y BTO<sup>45</sup> y bu'r boblogaeth fwy neu lai yn sefydlog yn dilyn gostyngiad bach rhwng 1969 a 1995.

**Rhagolygon:** Ymddangosai'r Hwyaden Lydanbig yn fridiwr eithaf prin yn y Deyrnas Unedig yn y 19eg ganrif, gyda hela adar gwyllt yn rhan o'r rheswm dros y niferoedd isel.<sup>32</sup> Cyflwynwyd gwarchodaeth tuag at ddiwedd y 19eg ganrif ac erbyn y 1930au roedd yr Hwyaden Lydanbig yn bridio yn y rhan fwyaf o siroedd Lloegr a llawer o siroedd yr Alban ac roedd ar gael yn fwy eang yn Iwerddon ond yn fwy cyfyngedig yng Nghymru (arfordir y de a Sir Fôn).<sup>32</sup> Erbyn y 1950au roedd y cynnydd mewn rhai ardaloedd yn cael ei gydbwyso gan golledion mewn eraill oherwydd colli cynefin; yn gynyddol, er yn gwneud yn dda a warchodfeydd a gaiff eu rheoli, roedd poblogaethau o'r Hwyaden Lydanbig yn cael eu colli mewn ardaloedd mwy ymylol.<sup>7</sup> Yr amcangyfrif o boblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 2012-2017 oedd 1,100 pâr.<sup>4</sup> O gymharu gyda'r boblogaeth bridio cymharol fach, mae'r boblogaeth gaeafu yn llawer mwy (19,500 yn 2012/13–2016/17) a bu'n destun cynnydd sylweddol: cynnydd o 132% rhwng 1975 a 2018 (a ddisgrifiwyd fel cynnydd gwan), gyda hyn yn parhau mewn blynyddoedd mwy diweddar gyda chynnydd o 25% (a ddisgrifiwyd fel cynnydd cryf) rhwng 2013-2018.<sup>32</sup> Mae arolygon WeBS<sup>20</sup> yn cadarnhau'r cynnydd hwn i raddau helaeth, gyda chynnydd o 68% yn y Deyrnas Unedig i gyd (75% yng Nghymru) rhwng 1992/93 a 2017/18 a chynnydd o 13% yn y Deyrnas Unedig rhwng 2007/08 i 2017/18, er y bu gostyngiad o 23% yng Nghymru dros gyfnod tebyg. Cafodd y boblogaeth gaeafu yma ei dosbarthu'n eang ledled y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio'r arfordir a hefyd ddŵr croyw. Fodd bynnag, mae canran sylweddol o Hwyaid Llydanbig wedi crynhoi o fewn nifer cymharol




Andy Karran

fach o hoff safleoedd.<sup>46</sup>


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod yr Hwya den Lydanbig yn 'fairly common in winter; scarce in summer; very rare breeder'.<sup>8</sup> Felly y bu am gyfnod hir, ond bu'r niferoedd sy'n gaeafu yn cynyddu i ryw raddau dros gyfnod: cofnododd The Birds of Gwent fod yr Hwya den Lydanbig yn 'common winter visitor at two sites, where numbers exceed the threshold for National Importance. Also a scarce passage migrant and rare breeder ymwelydd gaeaf cyffredin mewn dau safle, lle mae'r niferoedd yn uwch na'r trothwy ar gyfer Pwysigrwydd Cenedlaethol. Dywedir eu bod hefyd yn ymfudwyr teithiol a bridwr prin yn 2008<sup>47</sup> ac yn 'frequent winter visitor in quite large numbers; rarely breeds' yn 1977.<sup>48</sup> Nodwyd fod Aber yr Hafren a Gwent yn neilltuol yn bwysig iawn ar gyfer yr Hwya den Lydanbig, gyda blaentraeth Llanbedr Gwynllŵg a Gwlypdir Casnewydd yn cynnal poblogaethau o Bwysigrwydd Cenedlaethol.<sup>47</sup> Yn y mewndir yng Ngwent, mae'r Hwya den Lydanbig yn ymwelydd blynyddol, ond dim ond mewn niferoedd fach y'u cofnodir fel arfer, gyda Chronfa Ddŵr Llandegfedd efallai y safle gorau. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Hwya den Lydanbig yn rhan cymharol gyffredin a phwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren dros y gaeaf. Cynyddodd niferoedd mewn cyfnodau diweddar, ac mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol ac mae'n debyg ei fod oherwydd rhesymau tebyg – y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw bod llai o adar yn ymfudo i Ffrainc/Sbaen ac yn treulio'r gaeaf ymhellach i'r gogledd yn y Deyrnas Unedig fel ymateb i aeafau cyffredinol fwynach. Ni fu'r Hwya den Lydanbig yn gyffredin mewn unrhyw fodd, ac mae'n debyg na fuont erioed yn ymwelwyr rheolaidd, fel rhywogaeth bridio yng Ngwent. Y canolbwynt ar gyfer gweithgaredd bridio blaenorol fu gwahanol leoliadau ar y Gwastadeddau.<sup>47</sup> Mae'n debygol y bydd yr Hwya den Lydanbig yn parhau i fridio'n gyfnodol ar y Gwastadeddau, er nad oes dim i awgrymu y caiff poblogaethau bridio mwy eu sefydlu.

Mae cofnodion yn canolbwyntio gan fwyaf ar hyd arfordir Aber yr Hafren; mae cofnodion achlysurol yn y mewndir, gyda Chronfa Ddŵr Llandegfedd yn ffocws a rhai mewn cyrff dŵr mewndirol eraill amrywiol, gydag efallai beth ffocws ar ardal yr Afon Wysg.

*Dosbarthiad cofnodion yr  
Hwyaden Lydanbig ar draws  
Gwent Fwyaf (uchafswm  $\geq 100$   
cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion yr Hwyaden Lydanbig yn ôl  
degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae'r Hwyaeden Lydanbig yn bendant iawn yn aderyn arfordir Aber yr Hafren, gyda niferoedd bach yn y mewndir mewn gwahanol gyrff dŵr.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu cynnydd amlwg ym mhoblogaethau gaeafu yr Hwyaeden Lydanbig o fewn y Deyrnas Unedig; ni fu Gwent yn ddim gwahanol. Byddai'n ymddangos fod y boblogaeth sy'n gaeafu yng Ngwent yn gadarn ar hyn o bryd ac yn dal i fod o arwyddocâd mawr, gyda dau Safle Cenedlaethol Bwysig yng nghyffiniau Aber yr Hafren. Er hyn, mae astudiaethau parhaus o dueddiadau yn dal yn bwysig iawn i fonitro'r poblogaethau, yn neilltuol wrth i ymchwiliadau barhau i argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren. Byddai angen craffu mwy ar effeithiau posibl y rhain ar boblogaethau gaeafu yr Hwyaeden Lydanbig, ynghyd â rhydyddion ac adar dŵr eraill.<sup>38</sup>

Rhoddir manylion islaw o'r niferoedd sy'n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrifiadau WeBS. Dengys y graff fod y boblogaeth yn cynyddu'n gyffredinol, gyda chynnydd amlwg ar ddechrau'r 21fed ganrif, efallai oherwydd sefydlu'r ail boblogaeth gaeafu Cenedlaethol Bwysig yng Ngwlypdir Casnewydd. Ar ôl hyn, bu gostyngiad yn y niferoedd yn weddol gyflym ond ymddengys iddynt sefydlogi ar lefel uwch nag yn flaenorol. Mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren), yn hytrach na Gwent Gyfan i gyd.

Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau blynyddol eu rhoi fel isafrif yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif.


*Cyfrifiadau brig y gaeaf WeBS ar gyfer yr Hwyaeden Lydanbig ar Aber yr Hafren<sup>24</sup>*



Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n annhebyg y bydd y Hwyaen Lydanbig yn ddim byd mwy nag aderyn bridio prin a chyfyngedig iawn yng Ngwent. Fodd bynnag, gyda sefydlu Gwlypdir Casnewydd, efallai fod posibilrwydd y daw'r Hwyaen Lydanbig yn fridwyr blynyddol mewn niferoedd isel iawn.

**Gwarchodaeth:** Daw 95% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) Aber yr Hafren, ynghyd â nifer uchel o gofnodion o Warchodfa Natur Genedlaethol (NNR) Gwlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd, a hefyd rai o Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) yn ardal Blaenau'r Cymoedd ac yn ymyl yr Afon Wysg.

*Cofnodion Hwyaen Lydanbig o safleoedd a warchodir*



## Gïach Cyffredin *Gallinago gallinago* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd) Atodlen 2

**Statws cadwraeth:** Oren (DU<sup>1</sup> a Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (2095 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Gïach Cyffredin ar gael yn eang o fewn y Deyrnas Unedig, fel aderyn bridio a hefyd aeafu. Mae'n llai clwm i'r arfordir na llawer o'n rhydyddion eraill, gan fod yn aderyn y rhostir llaith, glaswelltir corsiog a gwlypdiroedd gyda thyfiant da, er fod mwy o adar yn yr arfordir yn ystod y gaeaf.



Andy Karran

Maent yn amlwg fwy cyffredin fel aderyn gaeafu, fodd bynnag maent hefyd yn galw heibio pan fyddant yn ymfudo ac mae niferoedd sylweddol yn aros i fridio. Mae hyn yn golygu fod y Gïach Cyffredin yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>25</sup> Mae'r Gïach Cyffredin yn bridio mewn lleoedd llaith, yn cynnwys dolydd/glaswelltir corsiog ar dir isel, fodd bynnag yr ucheldir/rhostir yw eu cadarnle.<sup>49,50</sup> Mae diet y Gïach Cyffredin yn cynnwys infertebratau bach, yn cynnwys pryfed genwair a larfa pryfed<sup>50</sup> a defnyddiant eu pig hir i'w dal.<sup>51</sup> Maent yn neilltuol o adnabyddus am eu hediad arddangos yn ystod y tymor bridio, lle maent yn gwneud sŵn drymio neilltuol yn defnyddio plu eu cynffonau<sup>51</sup> Dylid nodi y cânt eu hystyried fel 'aderyn hela' ac y cânt eu saethu yn y Deyrnas Unedig (y tymor agored yw 12 Awst i 31 Ionawr).<sup>52</sup> Bu gostyngiad mewn niferoedd bridio yn y Deyrnas Unedig o 79% rhwng 1970 a 2017.<sup>11</sup> Ychydig o wybodaeth sydd ar dueddiadau Gïach Cyffredin sy'n gaeafu, er ei bod yn bosibl y dylai'r niferoedd gaeafu fod wedi gostwng i ryw raddau, er y daw llawer o'n hadar gaeafu o boblogaethau bridio o lawer ymhellach i'r gogledd a'r dwyrain<sup>50</sup>.

**Rhagolygon:** Roedd y Gïach Cyffredin eisoes yn dioddef o ostyngiadau yn y 19fed ganrif oherwydd draeniad, adfer tir, llocio tir amaethyddol llawr gwlad<sup>32</sup> a'r niferoedd enfawr oedd yn cael eu saethu.<sup>32</sup> Fodd bynnag, newidiodd pethau a chynyddodd poblogaethau bridio ar ddechrau'r 20fed ganrif, gan sefydlogi yn y 1930au/40au. Credid fod hyn oherwydd dirwasgiad mewn amaethyddiaeth a gostyngiad mewn saethu. Fodd bynnag daeth dirywiad yn amlwg eto yn 1950au a daliodd hynny i fynd oherwydd y golled barhaus o gynefin.<sup>32</sup> Amcangyfrifwyd fod y boblogaeth bridio yn y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 66,500 pâr.<sup>4</sup> Mae hyn yn llai nag oedd yn hanesyddol gyda'r dirywiadau wedi ei achosi gan ddraeniad cynefinoedd gwlypdir. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, bu gostyngiad o 79% rhwng 1970 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel 'strong decline'). Fodd bynnag, bu cynnydd diweddar o 36% (a ddisgrifiwyd fel dirywiad cryf) rhwng 2012–2017,<sup>52</sup> er bod hyn yn adferiad o lefelau llawer is. Mae Arolwg Adar Bridio y BTO<sup>8</sup> yn cadarnhau ymhellach y cynnydd mwyaf diweddar, gyda chynnydd o 26% rhwng 1995-2018 yn y Deyrnas Unedig. Yn fwyaf diweddar, fodd bynnag, mae arwyddion nad yw popeth yn dda, gyda gostyngiad o 9% yn 2008-2018 a gostyngiad o 20% yn 2018-2019.<sup>4</sup>


Mae'r boblogaeth aeafu yn fwy (110,000 yn 2004–2005)<sup>4</sup> ac wedi ei ddsbarthu'n eithaf da ledled y Deyrnas Unedig, gyda llawer o'r Gïach Cyffredin bridio y Deyrnas Unedig yn breswyl. Fodd bynnag, mae mewnlif sylweddol o ogledd Ewrop. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael i farnu tueddiadau yn y boblogaeth aeafu.




**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Giach Cyffredin yn 'fairly common winter visitor; uncommon breeder'.<sup>8</sup> Fel hyn y bu ers amser maith, ond gyda'r niferoedd bridio yn gostwng i ryw raddau dros gyfnod: cofnododd The Birds of Gwent bod y Giach Cyffredin yn 'winter visitor in moderate numbers; a small and probably decreasing, breeding population' yn 2008<sup>53</sup> ac yn 'resident breeder and winter visitor' yn 1977.<sup>54</sup> Mae The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer cyfnod 1981–1985 yn amcangyfrif nad yw'r boblogaeth yng Ngwent efallai yn fwy na 50 pâr;<sup>55</sup> amcangyfrifodd yr ail atlas (1998-2003) gyfanswm o tua 20 pâr.<sup>8</sup> Mae hyn yn awgrymu gostyngiad mewn poblogaeth. Mae bridio yng Ngwent bellach wedi ei gyfyngu bron yn llwyr i safleoedd ucheldir a ffafrir yng ngogledd y sir, gyda'r colledion mwyaf mewn safleoedd llawr gwlad ac ystyrir bod dwysau amaethyddol a draeniad tir yn gyfrifol (fel ag yng ngweddill y Deyrnas Unedig). Mae The Birds of Gwent diweddaraf (2008) yn dweud fod Trefil a Chors Waunafon yn safleoedd pwysig.<sup>53</sup> Ar adegau eraill o'r flwyddyn, mae'r Giach Cyffredin ar gael yn helaeth o fewn Gwent, gyda niferoedd amlwg yn agos at yr arfordir; Aber yr Hafren yw'r pedwerydd safle pwysicaf ar gyfer gaeafu'r Giach Cyffredin yn y Deyrnas Unedig.<sup>53</sup>

Y brif ganolfan cofnodi yw Goldcliff (441 cofnod). Mae hefyd niferoedd wedi yn Llanbedr Gwynllŵg, Gwlypdir Casnewydd, Llyn Rhaslas, Cronfa Ddŵr Llandegfedd, Llynnoedd Garn, Nant Nedern a Llaneirwg a Chei Mawr Rhymini. Mae'n debyg fod y ganolfan yn Swydd Gaerloyw yn un ffug oherwydd canoli cofnodion niferoedd isel. Yn gyffredinol, mae'r Giach Cyffredin yn llawer mwy eang ar draws yr ardal na'n rhydyddion eraill mwy arfordirol.

*Dosbarthiad cofnodion y  
Giach Cyffredin ar draws  
Gwent Fwyaf  
(uchafswm  $\geq 100$  cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Giach Cyffredin yn ôl  
degawdau*




**Patrymau cynefin:** Mae'r Giach Cyffredin yn bendant iawn yn aderyn glaswelltir gwlyp, ar rostir llaith yn yr ucheldir fel aderyn bridio ac yn fwy eang yn ystod y gaeaf gyda thueddiad arfordirol.

**Tueddiadau poblogaeth:** Mae'n anodd canfod tueddiadau ar gyfer poblogaeth gaeafu y Deyrnas Unedig ond byddai'n ymddangos yn fwy sefydlog na'r boblogaeth fridio. Ymddengys hyn hefyd yn wir yng Ngwent. Er hyn, mae astudiaethau parhaus o dueddiadau yn dal yn bwysig iawn i fonitro poblogaethau. Er yn llai arwyddocaol nag ar gyfer llawer o'n rhydyddion eraill, byddai angen craffu'n agos ar effaith bosibl argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren ar boblogaethau'r Giach Cyffredin sy'n gaeafu.<sup>38</sup>

Dylid nodi y rhoddir rhai cyfrifiadau blynyddol fel isafrif yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif. Felly, mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth ar y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren) yn hytrach nag yng Ngwent Fwyaf i gyd.

*Cyfrifiadau brig gaeaf WeBS ar gyfer y Giach Cyffredin ar Aber yr Hafren<sup>24</sup>*




Mae 14 safle WeBS arall yng Ngwent wedi cofnodi Giach Cyffredin, yn bennaf mewn niferoedd bach; mae'r cyfartaledd 5-mlynedd uchaf tu allan yr aber yn Machine Pond, gyda naw cofnod.

Mae niferoedd bridio y Giach Cyffredin wedi gostwng yng Ngwent, gyda chofnodion bridio yn awr bron yn gyfangwbl o'r ucheldir. Byddai cynyddu niferoedd yng Ngwent yn golygu y byddai angen newidiadau rheoli safleoedd a fedrai fod yn addas. Gellid adolygu rheoli ucheldiroedd helaeth i geisio eu gwneud yn fwy addas i'r Giach Cyffredin sy'n bridio. Gallai newidiadau mewn pwysau pori a blocio sianeli draeniad i wneud ardaloedd o'r ucheldir yn fwy llaith (fyddai hefyd â manteision atal llifogydd) helpu i hybu poblogaeth fridio y Giach Cyffredin.<sup>56</sup>

**Gwarchodaeth:** Daw 95% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o safleoedd amlwg tebyg i Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwlypdir Gwent, Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd gydag ychydig o SSSI Keepers Pond ( y Blorens) a Chors Nelson. Daw cofnodion Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) o Llynnoedd Garn, Pwll Peiriant, Parc Nant y Waun a The Moorings. Mae hefyd gofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) gwasgaredig, gyda niferoedd o amgylch Garn yr Erw a Chomin Gelligaer.

*Cofnodion y Giach Cyffredin o safleoedd a warchodir*



## Rhegen Ddŵr *Rallus aquaticus* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Gwyrdd (DU<sup>1</sup>), Gwyrdd (Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Isel (554 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Rhegen Ddŵr yn swil ac yn cuddio yn ei gynefin mewn gwlypdir. Mae hyn yn ei wneud yn anodd ei weld ac yn rhwydd ei diystyru. Maent yn cael eu clywed yn hytrach na'u gweld fel arfer, gan wneud pob mathau o synau od o'n ddwfn o fewn gwelyau cyrs, gyda'r synau hyn yn amrywio o 'foc bach yn gwichian' i 'wiwerod bodlon yn canu grwndi'.



Andy Karran

Mae'r rhan fwyaf o Regod Dŵr bridio y Deyrnas Unedig yn breswyl, fodd bynnag mae mewnlif amlwg o adar yn y gaeaf.<sup>58</sup> Mae'r Rhegen Ddŵr sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig wedi eu dosbarthu'n eang ond yn denau ac maent yn absennol o'r ucheldir. Maent yn fwyaf niferus yn nwyrain Lloegr ac ar hyd arfordir de Lloegr, lle mae cynefin addas ar gael.<sup>58</sup> Maent yn fwy niferus yn ystod y gaeaf oherwydd mewnlif adar o dir mawr Ewrop.<sup>58</sup> Mae'r Rhegen Ddŵr yn hollysol ond yn bennaf yn bwyta deunydd anifeiliaid, a gaiff ei ddal yn defnyddio eu pigau hir mewn dŵr bas.<sup>57</sup> Mae ystadegau poblogaeth ar gyfer y rhywogaeth anodd ei weld, anodd ei arolygu yma yn gymharol brin. fodd bynnag, dengys gwefan BTO<sup>57</sup> yn dilyn gostyngiad bach rhwng 1969 a 1995, fod y boblogaeth wedi hynny wedi bod yn sefydlog gan bennaf.

**Rhagolygon:** Roedd y Rhegen Ddŵr ar gael yn eang ar ddiwedd y 19eg ganrif ac ystyrid eu bod yn adar bridio cyffredin mewn llawer o rannau'r Deyrnas Unedig.<sup>32</sup> Er hyn, ystyriwyd ei fod dan rywfaifn o bygythiad, gyda draeniad tir yn effeithio ar gynefinoedd bridio a gaeafu.<sup>32</sup> Arweiniodd hyn ynghyd â saethu a chasglu wyau at ostyngiad mewn niferoedd, er mai dim ond yn y 1960au yr arweiniodd hyn at fylchau amlwg a sylweddol i'w gweld yn nosbarthiad bridio y Rhegen Ddŵr yn y Deyrnas Unedig.<sup>32</sup> Wedyn bu peth ail-gytrefu ar ardaloedd a adawyd, gan ddefnyddio hen gamlesi a phyllau gro, a chreu gwlypdiroedd ar warchodfeydd natur.<sup>32</sup> Nodwyd fod dosbarthiad tebyg rhwng atlasau adar 1968–72 a 1988–91, er bod y niferoedd wedi gostwng ar draws y cwmpas,<sup>32</sup> fel y soniwyd yn y cynnydd bach a nododd y BTO rhwng 1969 a 1995.<sup>57</sup> Ers hynny bu niferoedd yn sefydlog gan fwyaf, gydag efallai ryw ostyngiad bach, fel y nodwyd gan arolwg WeBS: <sup>20</sup> gostyngiad bach o 3% yn y Deyrnas Unedig i gyd (6% yng Nghymru) rhwng 2007/08 a 2017/18. Y boblogaeth fridio gyfredol (2016) yw 3,900 pâr.<sup>4</sup> Dylid nodi yr arferai'r Rhegen Ddŵr fod ar y rhestr Oren oherwydd crebachu mewn cwmpas, mae'n awr ar y rhestr Wyrdd, gan adlewyrchu sefydlogi y boblogaeth.


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod Rhegod Dŵr yn 'uncommon winter visitor and very scarce breeder'.<sup>8</sup> Bu hyn yn wir ers cryn amser, ond mae'r debyg fod y nifer wedi cynyddu ers sefydlu Gwlypdir Casnewydd. Cofnododd The Birds of Gwent fod y Rhegen Ddŵr yn 'an uncommon winter visitor a resident', gan amcangyfrif fod 30 pâr yn 2008;<sup>59</sup> ac yn 1977 ei fod yn 'breeds in small numbers with an influx of visitors during the winter'.<sup>60</sup> Mae The Gwent Atlas of Breeding Birds sy'n cwmpasu'r cyfnod 1981-1985 yn amcangyfrif fod poblogaeth Gwent yn 2 pâr tebygol a 11 pâr posibl.<sup>59</sup> Nododd yr ail atlas hefyd fod bridio bron yn llwyr ar Wastadeddau Gwent, gyda chadarnle yng Ngwlypdir Casnewydd; cynyddodd nifer y parau yn fawr gyda sefydlu'r gwelyau cyrs, o 2-3 pâr yn 1996 i 20-24 yn 2005.<sup>59</sup> Mae hyn yn awgrymu cynnydd yn y

boblogaeth, er yn un sydd wedi ei ganolbwyntio'n bennaf ar un ardal Mae cofnodion gaeaf yng Ngwent yn fwy eang ac yn cynnwys llynnoedd bach a Chamlas Sir Fynwy-Aberhonddu <sup>60</sup>


Y prif ganolfannau cofnodi yw Gwlypdir Casnewydd, ynghyd â Goldcliff, Cors Magwyr a Llaneirwg.



*Dosbarthiad cofnodion y  
Rhegen Ddŵr ar draws  
Gwent Fwyaf (uchafswm  
≥100 cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Rhegen  
Ddŵr yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae'r Rhegen Ddŵr yn cael ei gysylltu'n agos iawn gyda thyfiant trwchus, corslyd gyda gwelyau cyrs yn cael eu ffafrio'n neilltuol.

**Tueddiadau poblogaeth:** Mae poblogaeth y Rhegen Ddŵr yn awr yn ymddangos yn gymharol sefydlog. Y gwelyau cyrs yng Ngwlypdir Casnewydd yw cadarnle y rhywogaeth ac mae wedi arwain at i niferoedd bridio a gaeafu fod yn uwch na chyn ei sefydlu. Cyn belled â bod yr ardal hon yn parhau i gael ei rheoli'n addas, byddai poblogaeth y Rhegen Ddŵr yng Ngwent yn ymddangos yn ddiogel. Gallai creu cyrff dŵr ychwanegol a rheoli addas ar y rhwydwaith enfawr o ffosydd draenio gynorthwyo cynnydd pellach yn y boblogaeth.

**Gwarchodaeth:** Daw 76% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) Aber yr Hafren, ynghyd â nifer fawr o gofnodion o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR) Gwlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwynt (yn arbennig Cors Magwyr) a Llandegfedd. Roedd cofnodion Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) o Barc St Julian a chofnodion SINC o The Moorings ac ychydig o leoedd eraill.

*Cofnodion y Rhegen Ddŵr o safleoedd a warchodir*



## Alarch y Gogledd *Cygnus cygnus* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1

**Statws cadwraeth:** Oren (DU<sup>1</sup>), Gwyrdd (Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** 33 (Gwael)

**Cyd-destun:** Mae Alarch y Gogledd yn eithaf cyffredin o fewn y Deyrnas Unedig fel gofod gaeafu. Fodd bynnag, nid yw pobl lawn mor gyfarwydd â'r rhywogaeth cyfarwydd, yr Alarch Dof. Maent yn fwyaf cyffredin o lawer fel adar gaeafu, gyda dim ond nifer fach iawn yn aros i fridio. Mae hyn yn golygu bod



Alarch y Gogledd yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>25</sup> Maent yn un o lu mawr o rywogaethau 'adar dŵr' sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig mewn cryn niferoedd gyda dim ond nifer cymharol fach yn aros i fridio. Mae'r nifer fach o Elyrch y Gogledd sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig yn y gogledd <sup>62</sup> Mae'r boblogaeth aeafu fwy yn cyrraedd o'u safleoedd bridio ymhellach i'r gogledd yng Ngwlad yr Iâ <sup>63</sup> Mae gan Alarch y Gogledd ddiets lysieuol, mae'r poblogaeth gaeafu yn bwyta glaswellt wedi'i wella, tatws sydd ar ôl, betys siwgr, gwenith gaeaf a grawn.<sup>63</sup> Drwyddi draw yn y Deyrnas Unedig, bu gostyngiad o 210% yng nghyswllt adar gaeafu rhwng 1992 a 2018.<sup>20</sup> Mae tueddiadau poblogaeth bridio yn dangos cynnydd cryf gyda chynnydd o 371% dros y 25 mlynedd hyd at 2018, er bod niferoedd bob amser wedi bod, ac yn dal i fod, yn isel iawn.<sup>31</sup> Dywedwyd fod poblogaeth fridio bresennol y Deyrnas Unedig yn 28 pâr yn y cyfnod 2013–2017.<sup>64</sup>


Rhagolygon: Roedd Alarch y Gogledd bob amser yn aderyn bridio prin yn y Deyrnas Unedig. Ymddengys iddynt ddiflannu fel adar bridio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwedd y 18fed ganrif.<sup>32</sup> Dechreuodd fridio eto ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ond roedd yn ysbeidiol iawn tan 1978, ac ar ôl hynny maent wedi bridio'n flynyddol mewn niferoedd bach.<sup>32</sup> Nodir fod y boblogaeth fridio bresennol yn y Deyrnas Unedig yn 28 pâr yn y cyfnod 2013–2017.<sup>31</sup> Yn wahanol i'r boblogaeth fridio fach a lleol, mae'r boblogaeth gaeafu yn sylweddol fwy (19,500 yn 2015)<sup>4</sup> a bu cynnydd sylweddol ynddo: cynnydd o 813% rhwng 1975-2018 (a ddisgrifiwyd fel cynnydd cryf), gyda hyn yn parhau mewn cyfnodau mwy diweddar gyda chynnydd o 9% (a ddisgrifiwyd fel cynnydd cryf) rhwng 2013-2018.<sup>65</sup> Mae arolygon WeBS<sup>20</sup> yn cadarnhau'r cynnydd hyn i raddau helaeth, gyda chynnydd o 210% yn y Deyrnas Unedig i gyd (67% yng Nghymru) rhwng 1992/93 a 2017/18 a chynnydd o 43% yn y Deyrnas Unedig rhwng 2007/08 a 2017/18. Fodd bynnag, mewn gwirionedd bu gostyngiad o 17% yng Nghymru dros y cyfnod hwn. Mae'r boblogaeth gaeafu i'w chael ledled y Deyrnas Unedig ar aberoedd a gwlypdiroedd, fodd bynnag mae'n lleol.<sup>66</sup> Mae natur lleol y boblogaeth yn un o'r rhesymau eu bod ar restr Oren y Deyrnas Unedig er y cynnydd yn y boblogaeth.<sup>66</sup>

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod Alarch y Gogledd yn 'rare winter visitor'.<sup>8</sup> Er na fu erioed yn aderyn cyffredin, mae hyn yn dangos gostyngiad yn y niferoedd gaeafu dros gyfnod (er fod y rhan fwyaf o gofnodion SEWBReC yn y 20 mlynedd ddiwethaf (gweler isod), gyda The Birds of Gwent 2008 yn dweud bod Alarch y Gogledd yn 'a very scarce winter visitor'<sup>67</sup> yn 2008 ac yn 'fairly regular winter visitor in recent years, though usually only in small numbers' in 1977.<sup>68</sup> Dylid nodi fod cofnod gyntaf Gwent mor ddiweddar â 1960<sup>67</sup> Yn gyffredinol, nid


yw Cymru wedi ei bendithio gyda llawer o Elyrch y Gogledd yn gaeafu (mae'r prif safleoedd gaeafu yn yr Alban ac ar yr Ouse Washes), ac mae'r sefyllfa yn debyg yng Ngwent.

Prif ganolfannau cofnodion yw Nant Nedern, Gwlypdir Casnewydd a Llanbedr Gwynllŵg. Nifer fach iawn o gofnodion sydd mewn gwirionedd. Yn ddiddorol, mae clystyrau hanesyddol o gofnodion yn Llysfaen a Phontysticill (ychydig tu allan i ardal yr astudiaeth) ond dim byd yn y naill safle na'r llall ers 1990. Mae'r rhan fwyaf o gofnodion (73%) o fewn y degawd diwethaf, mae'n debyg wrth i Wlypdir Casnewydd ddatblygu.

*Dosbarthiad cofnodion Alarch  
y Gogledd ar draws Gwent  
Fwyaf (uchafswm 10 cofnod  
/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Alarch y Gogledd  
yn ôl degawd*



**Patrymau cynefin:** Fel y disgwylid gydag alarch, mae'r cofnodion yn gyffredinol o ardaloedd gwlypdir neu gaeau cyfagos.


**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu cynnydd amlwg ym mhoblogaethau gaeafu Alarch y Gogledd o fewn y Deyrnas Unedig. Bu niferoedd yng Ngwent bob amser yn isel ac felly ni sylwyd ar unrhyw gynnydd. Byddai Alarch y Gogledd yn ymddangos yn fwy prin nawr nag oeddent yn y 1970au. Byddai'n ymddangos fod tueddiad tuag at gofnodion mwy diweddar yng Ngwlypdir Casnewydd, er fod y niferoedd yn fach iawn. Nid yw Gwent, ac yn wir Cymru gyfan, yn ardal bwysig ar gyfer Alarch y Gogledd o fewn y Deyrnas Unedig.

Cyfeiriwyd at Gyfrifiadau WeBS ar Aber yr Hafren <sup>24</sup> ac ychydig o safleoedd eraill yng Ngwent. Mae'r niferoedd mor isel fel na ellir gweld unrhyw batrymau clir, er y gellir nodi mai Aber yr Hafren yw'r sefyllfa a ddefnyddir amlaf, gyda chofnodion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd a chofnodion afreolaidd iawn mewn safleoedd eraill tebyg i Gronfa Ddŵr Llandegfedd, Ynys-y-fro, yr Afon Wysg a Gwndy. Mae cofnod o 25 aderyn yng Nghronfa Ddŵr Llandegfedd yn 1971-72 yn anghyffredin.

Byddai'n ymddangos yn annhebygol y bydd statws poblogaeth gaeafu Alarch y Gogledd yng Ngwent yn newid yn sylweddol yn y dyfodol agos. Nid oes gwir angen unrhyw fesurau penodol i newid hyn, gan yr ymddengys fod poblogaethau y Deyrnas Unedig o Alarch y Gogledd yn bennaf yn gwneud yn dda yn eu hardaloedd craidd ymhellach i'r gogledd a'r dwyrain. Fodd bynnag, bydd sicrhau y caiff ein gwlypdiroedd presennol eu cadw mewn cyflwr da, a lle'n bosibl, gynyddu o ran maint yn sicrhau fod cynefin addas ar gael ar gyfer unrhyw Alarch y Gogledd sy'n crwydro i Went yn y dyfodol.

**Gwarchodaeth:** Daw 88% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion heb fod yn uchel unrhyw le. Mae cofnodion Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) o Wlypdir Casnewydd; cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Nant Nedern, Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd. Mae hefyd un cofnod Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) Llyn Rhaslas.

*Cofnodion Alarch y Gogledd o safleoedd a warchodir*





## Chwiwell *Mareca penelope* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 2

**Statws cadwraeth:** Oren (DU<sup>1</sup>), Oren (Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (3,141 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Chwiwell yn rhywogaeth cyffredin o hwyaden yn y Deyrnas Unedig fel rhywogaeth gaeafu, ond efallai'n un y mae pobl yn llai cyfarwydd â hi oherwydd eu hoffter o gynefinoedd gwylltach a'u natur swil. Maent yn fwyaf cyffredin o lawer fel aderyn gaeafu, ond maent hefyd yn mynd heibio pan



Andy Karran


fyddant yn ymfudo, er mai dim ond nifer fawr iawn sy'n aros.<sup>3</sup> Maent yn un o ystod mawr o rywogaethau hwyaid sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig gyda dim ond nifer cymharol fach yn aros i fridio. Mae'r Chwiwell sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig wedi eu cyfyngu i ganol a gogledd yr Alban a hefyd ogledd Lloegr.<sup>62</sup> Mae niferoedd llawer mwy yn gaeafu yn y Deyrnas Unedig, gydag adar yn dod o leoedd mwy gogleddol tebyg i Wlad yr Iâ, gwledydd Llychlyn a Rwsia.<sup>62</sup> Diet lysieuol sydd gan y Chwiwell, a chânt lawer o'u bwyd drwy bori.<sup>63</sup> Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, bu cynnydd o 146% mewn adar gaeafu rhwng 1975 a 2018.<sup>11</sup> Gall y cynnydd yn y nifer sy'n gaeafu fod yn ymateb i aeafau mwynach, yn golygu bod mwy o Chwiwellod yn gaeafu ymhellach i'r gogledd. Mae'n anodd canfod tueddiadau poblogaeth bridio, ond rhan o'r rheswm pam fod y Chwiwell ar y rhestr Orren yw cwmp diweddar mewn niferoedd bridio a chwmpas. Byddai'n ymddangos fod hyn yn wir, gydag amcangyfrif o ddim ond 200 pâr yn 2012–2017,<sup>4</sup> o gymharu gyda 350 pâr ar ddiwedd y 1960au a 300-500 pâr ar ddechrau'r 1970au.<sup>64</sup>

**Rhagolygon:** Ni chofnodwyd y Chwiwell yn bridio yn y Deyrnas Unedig tan 1834, pan ganfuwyd nyth yn yr Alban.<sup>32</sup> O hynny ymlaen byddai'n ymddangos fod y Chwiwell wedi lledaenu i'r de drwy ganol yr Alban nes iddynt gytreffu gogledd y Pennines erbyn y 1930au. Daeth yr ehangu i'r de i ben yno, a gall fod cofnodion bridio ymhellach i'r de fod wedi cysylltu gydag adar wedi dianc/cael eu rhyddhau.<sup>32</sup> Nid oedd yr amcangyfrif o boblogaeth fridio y Deyrnas Unedig erioed yn fawr, a roedd tua 200 pâr yn 2012–2017.<sup>4</sup> Ymddengys fod hyn yn ostyngiad ar y 300-500 pâr a amcangyfrifwyd ar ddechrau'r 1970au.<sup>64</sup> O gymharu gyda'r boblogaeth fridio fach a lleol iawn, mae'r boblogaeth gaeafu yn sylweddol fwy (450,000 yn 2012/13–2016/17)<sup>4</sup> a bu cynnydd sylweddol yn y niferoedd: cynnydd o 146% rhwng 1975 a 2018 (a ddisgrifiwyd fel cynnydd gwan), gyda hyn yn parhau mewn cyfnodau mwy diweddar gyda chynnydd o 6% (a ddisgrifiwyd fel 'weak increase') rhwng 2013–2018.<sup>11</sup> Mae arolygon WeBS<sup>20</sup> i raddau helaeth yn cadarnhau'r cynnydd hwn, gyda chynnydd o 12% yn y Deyrnas Unedig i gyd (57% yng Nghymru) rhwng 1992/93 a 2017/18 a gostyngiad bach o 3% yn y Deyrnas Unedig rhwng 2007/08 a 2017/18 (cynnydd o 7% yng Nghymru). Cafodd y boblogaeth gaeafu ei dosbarthu'n eang ledled y Deyrnas Unedig, gan ddefnyddio'r arfordir a hefyd gyrrff dŵr croyw i raddau llai. Fodd bynnag, mae canran sylweddol o'r Chwiwell wedi crynhoi o fewn nifer cymharol fach o safleoedd a gaiff eu ffafrio; mae 50-60% o boblogaeth gaeafu'r Deyrnas Unedig i'w cael mewn deg neu lai o safleoedd.<sup>63</sup>


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi bod y Chwiwell yn 'fairly common winter visitor'.<sup>8</sup> Bu hyn yn wir ers cryn amser, gyda'r boblogaeth yn cynyddu: cofnododd The Birds of Gwent fod y Chwiwell yn 'a common and increasing winter visitor and passage migrant; rare in summer'<sup>65</sup> yn 2008 ac fel ymwelydd gaeaf mewn cryn niferoedd yn 1977.<sup>66</sup> Dylid nodi fod The Birds of Gwent 1977 yn sôn am fridio yng Ngwent rhwng 1965–1968,<sup>66</sup> fodd bynnag cafodd y cofnodion hyn eu gwrthod yn rhifyn 2008,<sup>65</sup> gan nad oedd tystiolaeth gadarn drostynt. Nodwyd fod Aber yr Hafren yn bwysig iawn i'r Chwiwell, gyda phoblogaethau o Bwysigrwydd Cenedlaethol.<sup>36</sup> Mae'r Chwiwell a geir o fewn Gwent yn ffurfio rhan sylweddol o'r poblogaethau hyn, yn arbennig y rhai ar y forfa heli yn Goldcliff, lle'r oedd 2,260 Chwiwell ym mis Rhagfyr 2005.<sup>65</sup> Mae nifer lai, ond yn dal yn bwysig, i'w cael mewn safleoedd eraill ar hyd yr arfordir. Bu arfordir Gwent bob amser yn safle pwysig i'r Chwiwell, fodd bynnag arferai Cronfa Ddŵr Llandegfedd fod y safle pwysicaf yng Ngwent ac mae ganddo statws SSSI ohewydd ei boblogaeth gaeafu o adar dŵr. Cafodd y gronfa ddŵr ei chodi yn 1963 ac erbyn 1967/68 roedd wedi dod y prif safle yng Ngwent.<sup>65</sup> Parhaodd felly drwy gydol y 1970au a llawer o'r 1980au, gyda'r niferoedd yn cyrraedd brig o 2,000 aderyn (y cyfrif uchaf yn cyd-daro gyda tywydd difrifol).<sup>65</sup> Bu gostyngiad mawr yng Nghronfa Ddŵr Llandegfedd ar ôl 1986/87<sup>65</sup> fodd bynnag gyda chyfrif WeBS yn awr fel arfer tua 200 aderyn.<sup>24</sup> Defnyddir cyrff dŵr mewndirol eraill, gyda The Birds of Gwent 2008 yn sôn am gaeau dan lifogydd ger yr Afon Wysg a nifer o gronfeydd dŵr eraill<sup>65</sup> a Gwent Bird Report 2018 yn sôn am gyfres o gyrff dŵr.<sup>8</sup> Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Chwiwell yn rhan gyffredin a phwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren yn ystod y gaeaf. Mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol mewn cyfnodau diweddar ac mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw ac mae efallai oherwydd fod mwy o adar yn gaeafu ymhellach i'r gogledd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i aeafau cyffredinol fwynach.

Y prif ganolfannau ar gyfer cofnodion yw Llanbedr Gwynllŵg a Goldcliffe. Safleoedd eraill gyda chofnodion da yw Gwlypdir Casnewydd, Pil Collister, Gwlypdir Nant Nedern, Llandegfedd a Llyn Rhaslas.

*Dosbarthiad cofnodion y  
Chwiwell ar draws Gwent  
Fwyaf (uchafswm  $\geq 100$   
cofnod)*



*Cofnodion y Chwiwell yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae'r Chwiwell yn bendant iawn yn aderyn Aber yr Hafren, fodd bynnag mae nifer dda ohonynt hefyd yn bresennol mewn nifer o safleoedd mewndirol, yn fwyaf arbennig Gronfa Ddŵr Llandegfedd.


**Tueddiadau poblogaeth:** Bu cynnydd amlwg ym mhoblogaethau'r Chwiwell sy'n gaeafu o fewn y Deyrnas Unedig; nid yw Gwent yn ddim gwahanol. Er y bu gostyngiad yn y nifer yn y brif safle gaeafu (Cronfa Ddŵr Llandegfedd) yn niwedd y 1980au, mae cynnydd yn nifer ym morfa heli Goldcliff (rhan o safle Gwlypdir Casnewydd) wedi mwy na gwneud iawn am hyn. Ymddengys fod poblogaeth y Chwiwell sy'n gaeafu yng Ngwent ar hyn o bryd yn ddiogel a'i fod yn dal yn bwysig iawn fel rhan sylweddol o'r boblogaeth Cenedlaethol Bwysig yn Aber yr Hafren. Er hyn, mae astudiaethau parhaus o dueddiadau yn dal yn bwysig iawn i fonitro'r poblogaethau, yn arbennig wrth i ymchwiliadau barhau i argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren. Byddai'n rhaid craffu'n agos ar effeithiau posibl y rhain ar boblogaethau gaeafu y Chwiwell.<sup>38</sup>

Dangosir manylion y niferoedd sy'n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrif WeBS isod.<sup>24</sup> Mae'r rhain yn dangos poblogaethau cyffredinol sefydlog/gynyddol, er y bu rhai gostyngiadau. Mae'r cynnydd mewn niferoedd yn dilyn creu Gwlypdir Casnewydd ar ddechrau'r 21ain ganrif yn amlwg. Dyma'r boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren) yn hytrach nag yng Gwent Fwyaf. Caiff Cronfa Ddŵr Llandegfedd hefyd ei chynnwys ar gyfer cymharu ac ar wahân yn ei ffigur ei hun ac mae'n dangos yn amlwg iawn y dirywiad mawr yn dilyn gaeaf 1986/87.

Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau blynyddol eu rhoi fel isafswm yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif.




Cyfrif brig WeBS y Gaef ar gyfer y Chwiwell yng Nghronfa Ddwr Llandegfedd<sup>24</sup>



Fel y nodwyd yn flaenorol, er nad oes adroddiadau o fridio yn y 1960au, ystyrir bellach ei bod yn annhebyg fod y Chwiwell wedi bridio, ac nid oes unrhyw reswm dros gredu eu bod yn debygol o fridio yng Ngwent, gan fod poblogaeth fridio fach y Deyrnas Unedig yn llawer pellach i'r gogledd.

**Gwarchodaeth:** Daw 86% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion o Ardal Cadwraeth Arbennig (SAR) Aber yr Hafren, ynghyd â nifer fawr o gofnodion o Warchodfa Natur Leol (NNR) Gwlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd. Daw cofnodion Gwarchodfa Natur Lleol (LNR) o Barc St Julians, Llynnoedd Garn, Llynnoedd Beaufort a Pharc Bryn Bach ac mae hefyd rai cofnodion SINC o leoedd tebyg i Lyn Rhaslas, Cronfa Ddŵr Ynys-y-Fro, Cronfa Ddŵr Parc, Parc Cwm Darren a Phwll Semtex, yn ogystal â rhai ar ymylon yr Afon Wysg.

*Cofnodion y Chwiwell o safleoedd a warchodir*





## Cyfeiriadau

1. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
2. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13(1): 3–31.
3. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/bittern/threats/>
4. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/apep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
5. <https://community.rspb.org.uk/getinvolved/wales/b/wales-blog/posts/aderyn-y-bwn-wales-malltraeth-first-time-1984>
6. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 119–120.
7. Gwent Bird Report 2016.
8. Gwent Bird Report 2018.
9. <https://www.birdguides.com/news/bitterns-breed-in-south-wales-for-first-time-in-200-years/>
10. <https://app.bto.org/birdfacts/results/bob12200.htm>
11. DEFRA. 2019. Wild Bird Populations in the UK 1970–2018.
12. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>
13. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 261–262.
14. Tyler S ac Ormerod S a Lewis J. 2009. The Post-Natal and Breeding Dispersal of Welsh Dippers *Cinclus cinclus*. *Bird Study* 37: 18–22. 10.1080/00063659009477032.
15. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 261–262.
16. BTO, JNCC & RSPB. 2019. The Breeding Bird Survey 2019 incorporating the Waterways Breeding Bird Survey 9.
17. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/little-egret/>
18. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/herons-egrets-and-spoonbill/little-egret>
19. Robinson RA. 2005. BirdFacts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (agorwyd ar 16 December 2020).
20. Frost TM, Calbrade NA, Birtles GA, Mellan HJ, Hall C, Robinson AE, Wotton SR, Balmer DE ac Austin GE. 2020. Waterbirds in the UK 2018/19: The Wetland Bird Survey. BTO, RSPB a JNCC, mewn cysylltiad â WWT. British Trust for Ornithology, Thetford.
21. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent.
22. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent.
23. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 121–122.
24. Data Arolwg Adar Gwlypdiroedd (WeBS) o Waterbirds in the UK 2018/19 © hawlfraint a hawl cronfa ddata 2020. Mae WeBS yn bartneriaeth a gaiff ei hariannu ar y cyd gan y BTO, RSPB and JNCC, mewn cysylltiad â WWT, gyda gwirfoddolwyr yn cynnal gwaith maes.
25. Pearce-Higgins JW a Crick HQP. 2019. One-third of English Breeding Bird Species Show Evidence of Population Responses to Climatic Variables over 50 years. *Bird Study* 66(2): 159–172. DOI: 10.1080/00063657.2019.1630360.

26. <http://www.birdfieldguide.co.uk/Pintail.html>
27. Robinson RA. 2005 *BirdFacts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland*. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (accessed on 01 March 2021).
28. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/waterfowl/pintail>
29. <https://www.bto.org/ai/pdfs/71move.pdf>
30. <https://monitoring.wwt.org.uk/2014/07/uk-waterbirds/webs/webs-highlights-decline-of-pintail/>
31. <https://rbbp.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/2018-Report-summary-table.pdf>
32. Holloway S. 1996. *The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900*. Poyser, London
33. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/pintail/>
34. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 78.
35. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 72.
36. <http://publications.naturalengland.org.uk/publication/5601088380076032>
37. Gwent Bird Report 2014.
38. Musgrove AJ, Rehfisch MM, Clark NA (BTO). 2010. Birds of the Severn Estuary and Bristol Channel: Their Current Status and Key Environmental Issues. *Marine Pollution Bulletin* 61: 115–123.
39. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/reed-warbler/>
40. Woodward ID, Massimino D, Hammond MJ, Harris SJ, Leech DI, Noble DG, Walker RH, Barimore C, Dadam D, Eglington SM, Marchant JH, Sullivan MJP, Baillie SR a Robinson RA. 2018. *BirdTrends 2018: Trends in Numbers, Breeding Success and Survival for UK Breeding Birds*. Research Report 708. BTO, Thetford: [www.bto.org/birdtrends](http://www.bto.org/birdtrends)
41. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 290–292.
42. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 121.
43. Tyler S et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 103.
44. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/shoveler/>
45. Robinson RA. 2005. *BirdFacts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland*. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (agorwyd ar 15 Rhagfyr 2020).
46. Kirby JS a Mitchell C. 1993. Distribution and Status of Wintering Shovelers *Anas clypeata* in Great Britain. *Bird Study* 40(3): 170–180. DOI: 10.1080/00063659309477180.
47. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 166.
48. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 96–97.
49. Massimino D, Woodward ID, Hammond MJ, Harris SJ, Leech DI, Noble DG, Walker RH, Barimore C, Dadam D, Eglington SM, Marchant JH, Sullivan MJP, Baillie SR and Robinson RA. 2017. *Bird Trends 2017: Trends in Numbers, Breeding Success and Survival for UK Breeding* Research Report 704. BTO, Thetford: [www.bto.org/birdtrends](http://www.bto.org/birdtrends)
50. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/snipe/>
51. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/wading-birds/snipe>
52. <https://www.gwct.org.uk/game/advice/shooting-season-dates/>
53. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 170–172.
54. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 90.

55. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 55.
56. <https://www.rspb.org.uk/our-work/conservation/conservation-and-sustainability/farming/advice/helping-species/snipe/>
57. Robinson RA. 2005. Bird Facts: Profiles of Birds Occurring in Britain and Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (accessed on 17 December 2020).
58. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/water-rail/>
59. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 142–143.
60. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 85.
61. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 45.
62. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/wigeon/>
63. <https://www.waterfowl.org.uk/wildfowl/true-ducks/eurasian-wigeon/>
64. Myrfyn O a Mitchell C. 1988. Movements and Migrations of Wigeon Anaspenelope Winteringin Britain and Ireland. Bird Study 35(1): 47–59: DOI: 10.1080/00063658809476979.
65. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 72–73.
66. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 71.

## Adar ucheldir a rhostir


### Boda Tinwyn *Circus cyaneus* (Linnaeus, 1766)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>1</sup> a Cymru<sup>2</sup>)  
Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

**Data ar gael:** Gwael (245 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Boda Tinwyn yn breswyl yn y Deyrnas Unedig, gyda'r niferoedd yn cael eu cynyddu o dir mawr y cyfandir yn ystod y gaeaf. Mae'n aderyn o rostir grug ucheldir yn ystod y tymor bridio, ond fe'i gwelir yn fwy aml yn yr ardaloedd llawr gwlad ger yr



arfordir yn y gaeaf.<sup>3</sup> Maent yn adar ysgyflaethus a dywed yr RSPB mai mamaliaid bach yw 95% o'u diet. Maent yn bwyta cyfran lai o adar,<sup>4</sup> ond mae'n dal i fod yn bosibl fod adar bach yn ffurfio rhan fwy o'u diet na 5%. Mae'r ffaith eu bod yn cymryd adar ac yn bresennol ar ddyddiau saethu, yn cadw'r Grugiar Goch rhag hedfan, yn dod nhw i wrthdaro gyda chiperiaid ar rostir grugieir, gan eu gwneud yn o'r rhywogaethau adar a gaiff eu herlid fwyaf.<sup>5</sup> Mae hyn, ynghyd â'u bregusrwydd i ysglyfaethwyr gan eu bod yn nythu ar y ddaear,<sup>5</sup> wedi arwain at i'w lefelau poblogaeth barhau'n isel. Yn ychwanegol, mae amrywiadau naturiol yn y poblogaethau llygod hefyd yn cael dylanwad ar boblogaethau Boda Tinwyn o flwyddyn i flwyddyn.


**Rhagolygon:** Roedd y boblogaeth yn y Deyrnas Unedig hyd at 1830 yn eithaf eang. Fodd bynnag, roedd colli cynefin yn gyfrifol am golledion erbyn 1850 ac o hynny tan ddiwedd y 19eg ganrif, gydag erledigaeth gan giperiaid wedi cyflymu hyn, gan arwain at i'r boblogaeth gael ei chyfyngu fwy neu lai i ynnysoedd pellennig erbyn 1900.<sup>6</sup> Bu rhywfaint o adferiad mewn poblogaethau ers 1940.<sup>6</sup> Bu'r darlun yn gymysg yn y 25 mlynedd ddiwethaf, gyda chynnydd a chrebachu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, a chynnydd bach yn gyffredinol.<sup>7</sup> Fodd bynnag, yn y sefyllfa hon, diflannodd y Boda Tinwyn bron yn llwyr yn Lloegr.<sup>8</sup> Dim ond yn Ynnysoedd Heledd a'r Orkneys yn yr Alban y mae'r Boda Tinwyn wedi parhau i fod â phoblogaeth gyson.<sup>6</sup> Mae'r boblogaeth fridio gyfredol (2016) yn 545 pâr<sup>9</sup> gyda chyfran fawr ohonynt yn yr Alban.

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi bod y Boda Tinwyn yn 'scarce passage migrant and winter visitor',<sup>10</sup> a byddai'n deg dweud y bu hyn yn wir ers cryn amser. Yn 2008 cofnododd The Birds of Gwent fod y Boda Tinwyn yn 'scarce passage migrant and winter visitor'<sup>11</sup> ac yn 1977 yn 'uncommon winter visitor and passage migrant'.<sup>11</sup> Nid oedd hyn bob amser yn wir fodd bynnag gyda Birds of Monmouthshire 1963 ond yn rhestru pedair cofnod flaenorol.<sup>11</sup> Bu cofnodion bron yn flynyddol ers canol y 1960au<sup>11</sup> ac yn wir maent bron yn awr yn flynyddol, gydag er enghraifft 17 cofnod yn 2018, 7 yn 2017, 28 yn 2016 a 32 yn 2015.<sup>10</sup> Mae'r ffaith i The Gwent Bird Report o 2007 ddweud iddi fod yn flwyddyn rhagorol ar gyfer y rhywogaeth hon gyda chwe chofnod yn dangos sut mae niferoedd wedi cynyddu'n gyffredinol mewn blynyddoedd diweddar.<sup>12</sup> Nid oes bron ddim cofnod o'r Boda Tinwyn fel adar bridio yng Ngwent, fodd bynnag gall bridio yn 1975 fod wedi bod dros y ffin ym Mhowys; cofnodwyd bridio posibl ar Fynydd Garn-clochdy mewn dwy


flwyddyn yn olynol yn y 1990au.<sup>10</sup> Mae dosbarthiad cofnodion yng Ngwent yn adlewyrchu dewisiadau cynefin y Boda Tinwyn o fewn y Deyrnas Unedig, gyda chofnodion yn gyffredinol o naill ai rostir ucheldir neu'r arfordir. Mae tuedd gorllewinol pendant i gofnodion yng Ngwent a phrin gofnod o ardal weinyddol Sir Fynwy (mae cofnodion Sir Fynwy o fewn ardaloedd ucheldir o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, daw cofnodion o arfordir Casnewydd a'r ardaloedd tir uwch yng ngorllewin Gwent.

Mae canolfan drwchus ar dir uchel Mynydd Eglwysilan a nifer o gofnodion yn Llyn Rhaslas, Morlynnoedd Goldcliff a Chors Waunafon, sy'n adlewyrchu addasrwydd cynefin a hefyd y ffaith fod llawer o edrych arnynt.

*Dosbarthiad cofnodion y  
Boda Tinwyn ar draws Gwent  
Fwyaf (uchafswm 42  
cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Boda Tinwyn  
yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae patrymau clir i ddsbarthiad y Boda Tinwyn, gyda thir isel arfordirol Gwastadeddau Gwent a rhostir uchel y safleoedd a ddefnyddiant.

**Tueddiadau poblogaeth:** Er bod nifer Boda Tinwyn yng Ngwent yn eithaf isel, mae tueddiad cyffredinol pendant at fwy o gofnodion mewn blynyddoedd diweddar. Gellir priodoli hyn yn rhannol i fwy o ymdrech cofnodi, ond mae'n debygol o fod oherwydd cynnydd ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig, gyda gwelliant cyffredinol yng Nghymru, gyda phoblogaethau wedi parhau'n sefydlog yn yr 80au/90au a chynyddu yn y 2000au.<sup>13</sup> Fodd bynnag mewn blynyddoedd mwy diweddar bu dirywiad yn y boblogaeth, gyda gostyngiad o draean rhwng arolygon cenedlaethol 2010 a 2016.<sup>14</sup> Mae yn sicr safleoedd bridio posibl ar gyfer Boda Tinwyn yng Ngwent, ac er bod poblogaeth yng Nghymru a Boda Tinwyn yn cael eu cofnodi'n flynyddol yng Ngwent, mae potensial iddo fridio o fewn y sir. I hyn ddiwydd, byddai angen ardaloedd rhostir uchel gyda gorchudd da o waun, mewn cyflwr da. Mae hyn yn aml i'w gael ar dir uchel lle mae saethu grugieir, ond maent hefyd yn safleoedd o wrthdaro posibl. Mae angen cadw cysylltiadau da rhwng cyrff cadwraeth a'r gymuned saethu i fridio fod yn llwyddiannus. Dylid croes-gyfeirio'r bennod hon gyda'r bennod ar y Rugiar Goch.

**Gwarchodaeth:** Cofnodion yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) yw'r rhai a ddaw o fewn Aber yr Hafren neu SAC Ystlumod Brynbuga. Y NNR yw Gwlypdir Casnewydd, gyda'r SSSI y rhai ar Wastadeddau Gwent a'r Mynydd Du, gydag ychydig ar y Blorens a Mynydd Llangynidr. Mae ardaloedd SINC yn wasgaredig iawn ar draws yr ucheldir yn Nhorfaen a Chaerffili, yn cynnwys safleoedd megis Coety, Mynydd James a Farteg, a Chefn Gelligaer.

*Cofnodion Boda Tinwyn o safleoedd a warchodir*





## Troellwr Mawr *Caprimulgus europaeus* (Linnaeus, 1758)

---

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Oren (DU<sup>1</sup> a Cymru<sup>2</sup>) UKBAP, Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

**Data Gwent Fwyaf ar gael:** Gwael/Cymedrol (344 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Troellwr Mawr yn ymwelydd yn ystod yr haf i'r Deyrnas Unedig ac mae'n treulio ei aeaf mewn glaswelltir prysglyd i dde'r cyhydedd yn Affrica.<sup>15</sup> Mae hyn yn golygu fod y Troellwr Mawr yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio ar y cyfan.<sup>16</sup> Nhw yw ein hunig gynrychiolydd o ystod mawr o rywogaethau 'troellwr mawr' sydd ar gael ym mhob rhan o'r byd. Mae'n aderyn enigmatig, gyda'i gynefinoedd nosol, cân arallfydol a'i gamouflage yn ymddangos mewn llawer o straeon gwerin. Yn y Deyrnas Unedig mae'r Troellwr Mawr yn bennaf yn aderyn rhostir, bryniau gyda gorchudd rhedyn a choedwigoedd agored, gyda planhigfeydd wedi cwmpo ac ifanc yn fwy diweddar yn dod yn gynefin pwysig. Oherwydd ei gamouflage gwych a'i arferion nosol, anaml y caiff ei weld pan mae'n ymfudo. Fodd bynnag, mae'n datgelu ei bresenoldeb ar safleoedd preswyl gyda'i alwad sŵn troelli neilltuol. Mae'r troellwr mawr yn bryfysol, gan ddibynnu ar bryfed yn yr awyr, gyda gwyfynod a chwilod yn rhan fawr o'i diet.


**Rhagolygon:** Roedd y boblogaeth yn eang yn y Deyrnas Unedig yn y 19eg ganrif, gyda bridio ym mhob sir yn y Deyrnas Unedig ar wahân i ynysydd ac yn neilltuol o gyffredin yn ne Lloegr, Cymru a'r Gororau.<sup>6</sup> Roedd gostyngiad mawr erbyn y 1930au wrth i golled cynefin barhau a phlanhigfeydd yn aeddfedu.<sup>6</sup> Arweiniodd dinistr cynefin at ddirywiad mawr yn niferoedd y Troellwr Mawr yn dilyn yr Ail Ryfel Byd.<sup>17</sup> Roedd y golled yn neilltuol o amlwg mewn ardaloedd mwy gorllewinol, gyda'r Troellwr Mawr wedi diflannu o rai o siroedd Cymru erbyn y 1950au/60au.<sup>6</sup> Erbyn arolwg 1968–72, roedd y Troellwr Mawr wedi colli hyd yn oed mwy o gwmpas, gan fod wedi diflannu o lawer o'r Alban, Iwerddon, gogledd Lloegr a chanolbarth Cymru.<sup>6</sup> Cynhaliwyd arolygon penodol ar y Troellwr Mawr dair gwaith ers 1980, ac mae eu niferoedd wedi cynyddu'n helaeth ers yr arolwg yn 1981, pan amcangyfrifwyd mai dim ond 2,100 gwryw troelli oedd; amcangyfrifwyd fod y boblogaeth yn 3,400 yn 1992 ac yn 4,606 yn 2004.<sup>18</sup> Ni fedrir canfod data ar gyfer poblogaeth fridio mwy diweddar, ond mae'n debyg iddo gynyddu ymhellach ers 2004, gyda defnydd planhigfeydd conifferaidd a gwaith cadwraeth pwrpasol yn helpu poblogaethau i adfer ymhellach.

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod y Troellwr Mawr yn 'uncommon breeding summer visitor',<sup>10</sup> a byddai'n deg dweud mai fel hyn y bu ers amser maith, er fod nifer wedi amrywio a chadarnleoedd o fewn Gwent wedi newid dros gyfnod. Ni chafodd y Troellwr Mawr ei gofnodi'n swyddogol yng Ngwent tan 1926,<sup>19</sup> er yn fuan wedyn disgrifiodd Birds of Monmouthshire 1937 ef fel 'a fairly common visitor, breeding rather locally on fern-covered hillsides, commons and heaths, and in open woodlands or on sites of felled woods'.<sup>20</sup> Fodd bynnag, erbyn y Birds of Monmouthshire diwygiedig yn 1963, roedd y Troellwr Mawr yn 'a rather uncommon visitor, breeding very locally and thought possibly to be decreasing'.<sup>20</sup> Bu cynnydd mewn cofnodion o 1965 a nodwyd mai Coed Gwent oedd y prif safle, gydag wyth pâr yn 1970 (er i hyn ostwng yn ddilynol).<sup>20</sup> Mae'r Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer cyfnod 1981–1985 yn amcangyfrif poblogaeth o 30 pâr yng Ngwent, lle cofnodwyd 23 o wrywod canu yn ystod cyfrifiad cenedlaethol 1981.<sup>21</sup> Cynyddodd niferoedd ymhellach ar ôl hynny, er i'r cadarnle symud i ryw raddau eto, gyda arolwg 1992 yn dangos poblogaeth dda yng Nghoedwig Ebwy (13 gwryw), nifer lai o 11 yn Nyffryn


Gwy, a dim ond 4 gwryw yng Nghoed Gwent.<sup>20</sup> Bu newid pellach yn y dosbarthiad yng nghanol y 1990au pan ddechreuodd poblogaethau Coedwig Ebwy a Dyffryn Gwy ostwng, a daeth poblogaeth Coed Gwent y gadarnle unwaith eto.<sup>20</sup> Erbyn cyhoeddi Birds of Gwent yn 2007, disgrifiwyd y Troellwr Mawr fel ymwelydd anghyffredin yn ystod yr haf, nawr ar y lefel uchaf a gofnodwyd erioed.<sup>20</sup> Mae niferoedd wedi amrywio ers hynny, efallai oherwydd tan-adrodd, ond cofnodwyd y Troellwr Mawr yn dal mewn gwahanol safleoedd yn Nyffryn Gwy (Beacon Hill ac erail), Coed Gwent ac yng ngorllewin Gwent mewn lleoedd tebyg i Fynydd Machen, Abersychan a Chwm Gwyddon.<sup>19</sup> Mae dosbarthiad a llwyddiant y Troellwr Mawr yng Ngwent yn dibynnu'n helaeth iawn ar argaeledd cwmpo coed mewn planhigfeydd coedwigaeth/ailstocio ar gyfnodau digon agored, gyda phoblogaethau'n dirywio a symud pan ddaw ardaloedd addas yn fwy coedwigog. Yn wahanol i lawer o rywogaethau ymfudol eraill, a gaiff yn aml eu cofnodi yn agos at yr arfordir, ymaith o safleoedd bridio, anaml y cofnodir y Troellwr Mawr nosol a gyda camouflage da i ffwrdd o'i safleoedd bridio.

Mae'r Troellwr Mawr yn llawer mwy o rywogaeth rhostir llawr gwlad yn hytrach na thir uchel, ac fe'i canfyddir yn arbennig ar ardaloedd lle cliriwyd coedwigaeth. Mae'r prif ganolfannau o amgylch Broad Meend, Beacon Hill, Coed Gwent, Ruperra a Wern Ddu gyda chanolfan lai yng Nghoed y Llannerch. Dylid nodi'r crebachu yn yr holl brif ganolfannau (yn neilltuol yr un yng Nghaerffili) dros gyfnod.

*Dosbarthiad cofnodion  
y Troellwr Mawr ar  
draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm 43/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Troellwr  
Mawr yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae patrwm clir i'r cofnodion gyda chrynodeidiau yn ardaloedd coedwigaeth Coed Gwent, Dyffryn Gwy a'r Cymoedd gorllewinol, lle mae ardal o glirio coed/ail-blannu yn addas ar gyfer Troellwyr Mawr sy'n bridio.

**Tueddiadau poblogaeth:** Cafodd y boblogaeth amrywiol ond yn gyffredinol gadarnhaol (mewn cyfnodau diweddar) yng Ngwent ei ddogfennu'n flaenorol. Gyda'r boblogaeth yn gynyddol yn cynyddu ar draws y Deyrnas Unedig (a Chymru) - cafodd y statws cadwraeth ei ostwng o goch i oren ar gyfer y ddwy – a phoblogaeth Gwent yn ymddangos yn eithaf sefydlog, byddai'n ymddangos fod y Troellwr Mawr mewn sefyllfa eithaf iach yng Ngwent ar hyn o bryd. Gydag ardaloedd mawr o gonifferiaid wedi eu cwmpo mewn blynyddoedd diweddar oherwydd clefyd llarwydd, mae'n bosibl y daw safleoedd bridio posibl ar gyfer y Troellwr Mawr yn cynyddu o leiaf yn y tymor cymharol fyr, gan efallai arwain at gynydd yn y boblogaeth. Bydd gan reolaeth tymor hirach yr ardaloedd lle cwmpwyd coed, sut y cânt eu hailstocio ac os y bydd gwaith cwmpo rheolaidd yn agor ardaloedd newydd yn y dyfodol ran fawr wrth benderfynu niferoedd y Troellwr Mawr yn yr hirdymor. Bydd argaeledd ysglyfaeth (yn bennaf gwyfynod nosol a chwilod) hefyd yn ffactor ac mae'n hysbys fod niferoedd infertebratau, yn cynnwys gwyfynod,<sup>22</sup> wedi gostwng llawer a gall hyn fod yn ffactor sy'n eu cyfyngu.

**Gwarchodaeth:** Daw 60% o gofnodion o safleoedd heb eu gwarchod. Fodd bynnag, dylid nodi fod llawer o gofnodion yn digwydd ar ymyl safleoedd a warchodir, er enghraifft i ddwyrain Coed Gwent.

Mae cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Ruperra a Chors Cleddon, ac un gofnod o'r Blorens. Mae llawer o gofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC): Coed Gwent, Beacon Hill, Broad Meend a Chomin Rhydri, ynghyd â nifer fach ar SINC ucheldir tebyg i Mynydd Maen.

*Cofnodion Troellwr Mawr o safleoedd a warchodir*



## Grugiar Goch *Lagopus lagopus* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 2

**Statws cadwraeth:** Coch (Cymru<sup>2</sup>), Oren (DU<sup>1</sup>). Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaethau Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

**Data ar gael:** Cymedrol (429 cofnod)

**Cyd-destun:** Adar preswyl a sefydlog, nad ydynt yn teithio fawr yn ystod eu bywydau.<sup>23</sup> Mae cysylltiad agos iawn rhwng y Grugiar Goch â rhostir grug tir uchel.

Mae'r rhywogaeth neilltuol gydag adenydd tywyll,

*Scotica*, yn frodorol i Ynysoedd Prydain,<sup>24</sup> gan roi arwyddocâd ychwanegol ar gyfer cadwraeth i'r rhywogaeth yma. Mae'r Grugiar Goch yn llysiuol ac mae ganddo ddieta eithaf cyfyngedig; mae'n dibynnu ar flagur, hadau a blodau grug, ond gall ategu hyn gydag eitemau tebyg i lus.<sup>25</sup> Mae hyn yn cyfyngu eu dosbarthiad i ble mae cyflenwad parod o rug ar gael. Mae pryfed yn rhan bwysig o ddieta cywion.<sup>25</sup> Yn ymarferol, mae hyn yn golygu eu bod wedi eu cyfyngu i rostir grug tir uchel, fel bod eu dosbarthiad daearyddol â thueddiad cryf at y gogledd a'r gorllewin,<sup>23</sup> lle mae digonedd o'r cynefin hwn. Bu colled cyffredinol yn niferoedd y Grugiar Goch yn yr 20fed ganrif oherwydd diffyg rheolaeth goetir rhostir a cholli cynefin.



Pete Hadfield

**Rhagolygon:** Cyn y dechreuodd rheolaeth o ddifrif ar y rhostiroedd ar ddiwedd y 18fed ganrif, roedd llawer llai o'r Grugiar Goch.<sup>6</sup> Diwedd y 19eg ganrif a hyd at y Ryfel Byd Cyntaf oedd oes aur rheoli rhostir a saethu grugieir, ac roedd y Grugiar Goch yn bresennol ledled Iwerddon ac ar y rhan fwyaf o rostir grug ym Mhrydain er yn absennol o waundir llawr gwlad.<sup>6</sup> Bu dirywiad yn rheoli stadau hela yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a gyflymodd ymhellach yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gan ddod â dirywiad mewn cynefin ac felly ostyngiad mewn niferoedd.<sup>6</sup> Bu gostyngiad neilltuol o ddifrifol yn yr Alban a Chymru ar ôl canol y 1970au.<sup>26</sup> Achosodd plannu rhostiroedd grug ar gyfer coedwigaeth coniferaidd a dirywiad o ffermio defaid golled pellach ar gynefin y Grugiar Goch a gwelodd hyn, ynghyd ag ysglyfaethiaid yn absenoldeb rheoli ysglyfaethiaid, niferoedd y Grugiar Goch yn parhau i ostwng.<sup>26</sup> Mae'r niferoedd wedi gwella'n raddol i ryw raddau: bu cynnydd o 26% rhwng 1970 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel 'little change'), a gafodd ei yrru i raddau helaeth gan gynnydd cryf o 19% yn 2012-2017.<sup>27</sup> Mae Arolwg Adar Bridio mwyaf diweddar y BTO,<sup>28</sup> yn dangos arwyddion pellach o adferiad, gan gofnodi cynnydd o 23% yn 1995-2018 yn y Deyrnas Unedig, er y bu gostyngiad o 18% yn 2018-2019 gan efallai adlewyrchu amrywiadau yn y boblogaeth a achosir gan glefyd (gall Louping Ill a gaiff ei ledaenu gan drogod a Strongylosis a achosir gan fwydyn nematod achosi lefelau uchel o farwoldeb)<sup>26</sup> a'r tywydd. Dim ond nifer fach iawn o'r Grugiar Goch sydd yng Nghymru ar hyn o bryd.<sup>26</sup> Mae'r boblogaeth fridio gyffredol (2016) yn 256,000 pâr.<sup>9</sup>


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Poblogaeth Gwent ac yn fwyaf penodol yr un ar y Blorens yw'r boblogaeth fwyaf deheuol naturiol yn y Deyrnas Unedig.<sup>29</sup> Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Grugiar Goch yn 'uncommon breeding resident, apparent decline in recent years',<sup>10</sup> a bu hyn yn wir ers cryn amser nawr: yn 2018 cofnododd The Birds of Gwent fod y Grugiar Goch yn 'an uncommon and declining resident on heather uplands'.<sup>30</sup> Disgrifiodd Birds of Gwent 1977 nhw fel 'at present widespread and regularly seen on the high ground in the north-west, though usually only in small

numbers'. Fodd bynnag, mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi gostyngiadau mawr, gan adlewyrchu'r Deyrnas Unedig, gyda 1,000 o adar ar rostir Blaenafon yn niwedd y 19eg ganrif yn dirywio i 10 pâr fan bellaf yn 1960.<sup>31</sup> Mae'r Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981-1985 yn amcangyfrif poblogaeth o 650 pâr yng Ngwent, er y gall 350 pâr fod yn fwy realistig.<sup>21</sup> Cafodd poblogaeth 1981-19085 wedyn ei ddiwygio ar i waered i 67-74 pâr, sy'n debycach i'r amcangyfrif poblogaeth o 60 pâr yng nghyfrifiad 1998-2003.<sup>10</sup>


Mae dosbarthiad cofnodion yng Ngwent yn adlewyrchu'r rhostir uchel a ffafrir gan y Grugiar Goch. Mae tueddiad gogledd a gorllewinol pendant iawn i gofnodion yng Ngwent. Mae'r prif ganolfannau ar y Blorens ac yn y Mynydd Du, gyda pheth crebachu ar y cwmpas yn Nhorfaen.



*Dosbarthiad cofnodion y  
Grugiar Goch ar draws  
Gwent Fwyaf (uchafswm  
46 cofnod /km<sup>2</sup>)*




*Cofnodion y Grugiar  
Goch yn ôl degawd*





**Patrymau cynefinoedd:** Mae cysylltiad cryf iawn rhwng y Grugiar Goch yn gysylltiedig gydag ucheldir grugiog, felly maent wedi eu cyfyngu i'r safleoedd hyn yng ngogledd/gorllewin Gwent.


**Tueddiadau poblogaeth:** Mae cofnodion Cyfrifiad Gamebag ar gyfer ardal yr astudiaeth (diolch i Ymddiriedolaeth Cadwraeth Creaduriaid Hela a Bywyd Gwyllt) yn dangos gostyngiad yn y canran o safleoedd lle mae'r Grugiar Goch yn bresennol. Dylid nodi nad yw hyn yn dueddiad arwyddocaol yn ystadegol gan ei fod yn seiliedig ar nifer isel o adroddiadau saethu. Mae nifer y ffurflenni cyfrifiad yn amrywio rhwng tri ac wyth, gyda gostyngiad cyffredinol mewn niferoedd a adroddodd ers y 1970au a dechrau'r 1980au. Dylid hefyd fod tueddiad yn lleoliad saethu (gweler yr adran ffynonellau data i gael mwy o wybodaeth).



Mae'r ardal o fewn Safle Treftadaeth Byd Blaenafon yn gadarnle a chynhaliwyd arolygon ers 2007, gyda'r nod o fonitro poblogaethau, rhoi gwybodaeth ar gyfer cynlluniau rheoli a chynnydd mewn poblogaeth. Yn ystod arolygon yn 2014, cofnodwyd 110 aderyn – cynnydd o 63% ers 2008.<sup>32</sup> Roedd moratoriwm ar saethu yn 2011, a rhagwelir gyda gwelliannau i gynefinoedd fod gan y poblogaethau yn yr ardal botensial i gynyddu ymhellach. Fodd bynnag, mae pethau eraill anhysbys a allai effeithio ar y boblogaeth: gallai newid hinsawdd effeithio ar ansawdd cynefin, llwytho parasitiaid a goroesiad cywion, gyda gwanwynau/hafau gwlyb yn gyffredinol yn wael ar gyfer y Grugiar Goch.<sup>33</sup>

**Gwarchodaeth:** Daw 81% o gofnodion o safleoedd a warchodir, heb fawr o gofnodion o Ardal Cadwraeth Arbennig Ystlumod (SAC) Brynbuga, ond y mwyafrif helaeth (bron 60% o Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) y Bloreus a'r Mynydd Du, gydag ychydig ar Fynydd Llangynidr. Daw'r gweddill o Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) Ucheldir Torfaen, tebyg i Coety, Mynydd James a'r Farteg, a Garn yr Erw.

*Cofnodion y Grugiar Goch o safleoedd a warchodir*



## Mwyalchen y Mynydd *Turdus torquatus* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>1</sup> a Cymru<sup>2</sup>) Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhywogaeth Blaenoriaeth Adran 7 Cymru

**Data ar gael:** Gwael (201 cofnod)

**Cyd-destun:** Aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn ystod yr haf, mae Mwyalchen y Mynydd yn treulio'r gaeaf ym Mynyddoedd yr Atlas yng ngogledd-orllewin



Andy Karran

Affrica.<sup>34</sup> Mae hyn yn golygu fod Mwyalchen y Mynydd yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>16</sup> Paratowyd papur cyfan ar effeithiau posibl newid hinsawdd ar Fwyalchen y Mynydd.<sup>34</sup> Maent yn aelod o deulu'r fronfraith ac yn edrych yn fwyaf tebyg i'r Aderyn Du llawer mwy cyfarwydd; fodd bynnag mae bib gwyn y gwryw yn ei wneud yn rhwydd ei adnabod. Yn y Deyrnas Unedig, mae'n bennaf yn adryn yr ucheldir, gan fridio mewn cymoedd serth, creigiau a holltiau.<sup>38</sup> Felly, mae Mwyalchen y Mynydd (o leiaf fel aderyn bridio) wedi ei gyfyngu i'r cynefinoedd ucheldir hyn ac felly bu dosbarthiad gorllewinol a gogleddol yn ei ddsbarthiad. Mae'n dibynnu ar fwyta infertebratau yn ystod y tymor bridio, gan gymryd amrywiaeth eang o eitemau, gyda mwydion a phryfed teiliwr yn ymddangos yn neilltuol o bwysig.<sup>38</sup> Fodd bynnag, unwaith y bydd y tymor bridio drosodd, aeron yw'r prif ddieta, gan fwyta'r rhai sy'n doreithiog yn ein tir uchel fel lus, creiglus a cherddinen.<sup>38</sup> Pan fyddant yn ymfudo, gall Mwyalchen y Mynydd fynd i gynefinoedd ar dir is ac mae adar sydd newydd gyrraedd neu sy'n ymadael i'w cael ar hyd yr arfordir yn neilltuol.


**Rhagolygon:** Yn flaenorol (19eg ganrif) roedd poblogaeth y Deyrnas Unedig wedi'i ledaenu ar draws llawer o'r Deyrnas Unedig, gyda thueddiad gorllewinol a gogleddol.<sup>6</sup> Dechreuodd dirywiad yn y 20fed ganrif, gyda gostyngiadau mawr wedi'u cofnodi yn yr Alban yn 1900–1950.<sup>36</sup> Roedd gostyngiad pellach o 27% yn y cwmpas bridio yn y Deyrnas Unedig yn amlwg rhwng atlasau cenedlaethol 1968–72 a 1988–91, gyda cholledion yn neilltuol o amlwg yn yr Alban a Chymru. Cynhaliwyd arolwg cenedlaethol yn 1999 a ddangosodd grebachiad pellach mewn cwmpas a gostyngiad tebygol o 58% ym maint y boblogaeth ers 1988–91.<sup>37</sup> Gostyngodd nifer parau bridio Mwyalchen y Mynydd gan 44–100% yn ystod 1979–2009 ar draws 13 ardal astudiaeth ledled y Deyrnas Unedig.<sup>38</sup> Dengys yr amcangyfrifon diweddaraf o boblogaeth fod dirywiad efallai'n arafu neu wedi'i droi o amgylch, gyda chynnydd o 37% o 2008–2018,<sup>28</sup> er o niferoedd gwreiddiol llawer is. Mae'r boblogaeth fridio bresennol yn 7,300 pâr.<sup>9</sup>

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Fel rhywogaeth bridio, mae Mwyalchen y Mynydd wedi bron ddiflannu o fewn Gwent. Y safle bridio dibynadwy olaf oedd ar ôl oedd Chwareli Trefil, lle roedd 3-4 pâr hyd at 1997.<sup>39</sup> Cafodd nifer fach o adar eu cofnodi yn gymharol reolaidd yno ers hynny, ond byddai'n ymddangos eu bod wedi diflannu fel rhywogaeth bridio. Mae'r Gwent Bird Report (2018) diweddaraf yn dweud bod Mwyalchen y Mynydd yn 'passage migrant; former rare breeding summer visitor'.<sup>10</sup> Yn hanesyddol (1970au) nodwyd ei fod wedi ei ddsbarthu'n denau mewn ardaloedd ucheldir mwy gwylt y gogledd a'r gogledd orllewin ond hefyd yn bridio weithiau ar dir uchel i dde'r maes glo, ond


nodwyd bod y niferoedd wedi bod yn gostwng ers 1970.<sup>40</sup> Mae'r Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981–1985 yn amcangyfrif poblogaeth o 50 pâr yng Ngwent, gan sôn am y Mynydd Du, Trefil a'r bryniau rhwng y Fenni, Glynebwy a Phont-y-pŵl fel safleoedd bridio.<sup>21</sup> Yn dilyn hynny mae'n amlwg i'r boblogaeth barhau i ostwng yn gyflym, gan arwain at ei ddiflaniad fel aderyn bridio yng Ngwent. Mae Mwyalchen y Mynydd yn dal i gael eu cofnodi'n flynyddol, yn aml mewn safleoedd ucheldir gyda photensial am fridio. Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r adar bellach yn aros i fridio. Pan fyddant yn ymfudo, weithiau mae adar i'w gweld mewn safleoedd tir is, yn bennaf mewn safleoedd ar yr arfordir lle mae cofnodwyr.

Y prif ganolfannau yw safleoedd ucheldir yn Nhrefil, Crib Hatterall a Pwll Du, yn ogystal a safle arfordirol llawr gwlad Allanfa Llanbedr, lle mae llawer o ymdrech cofnodi adegau ymfudo. Mae mwy o gofnodion allan o'r ardal – mae gennym 201 cofnod ardal astudio a dim ond 110 yng Ngwent Fwyaf – ym Mynydd Llangatwg a Chraig y Cilau ynghyd ag ochr Henffordd o Grib Hatterall.

*Dosbarthiad cofnodion  
Mwyalchen y Mynydd ar  
draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm 27 cofnod  
/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Mwyalchen y  
Mynydd yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae patrwm clir i'r cofnodion, gyda safleoedd ucheldir yn cael eu ffafrio; bydd yr ardaloedd hynny gyda choed/perthi bach gydag aeron yn neilltuol o bwysig ar gyfer adar sy'n ymfudo yn yr hydref. Ar gyfer adar bridio, bydd y safleoedd a ffafrir ar gyfer adar bridio yn ddelfrydol yn gyfuniad o rug a rhedyn ynghyd â thywyrch byr ar gyfer chwilio am fwyd.

**Tueddiadau poblogaeth:** Cafodd y dirywiad mewn poblogaeth hyd at ddiflaniad yng Ngwent ei gofnodi'n flaenorol. Gyda gostyngiad yn y boblogaeth yn gyffredinol ar draws y Deyrnas Unedig, gall ailboblogi ymddangos yn annhebygol. Fodd bynnag, gyda Mwyalchen y Mynydd yn dal i gael eu cofnodi'n flynyddol ac yn eithaf aml mewn ardaloedd bridio posibl, mae'n bosibl y gallant fridio yn gyfnodol eto neu hyd yn oed sefydlu bridio rheolaidd. Os oes dymuniad penderfynol i ddychwelyd Mwyalchen y Mynydd at ein rhestr o adar bridio, yna gall fod angen cyswllt pwrpasol gyda thirfeddianwyr mewn rhai rhannau o'n hucheldir, a rheoli cynefin mewn modd addas i greu amodau bridio addas. Ynghyd â hyn, gall y sefyllfa o newid hinsawdd a chynnydd cyffredinol mewn tymheredd wthio poblogaethau bridio i ardaloedd ucheldir hyd yn oed yn uwch wrth i ucheldir 'is' Gwent ddod yn anaddas.

**Gwarchodaeth:** Daw 48% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) Gwlypdir Casnewydd, yna llawer o gofnodion o Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) y Mynydd Du, Blorens a Mynydd Llangynidr. Cofnodion Gwarchodfa Natur Leol (LNR) o Lynnoedd Garn, ac yna wedi gwasgaru ar draws yr Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ucheldir helaeth yn Nhorfaen a Chaerffili.

*Cofnodion Mwyalchen y Mynydd o safleoedd a warchodir*



## Cyfeiriadau

1. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108, 708–746.
2. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13:1, 3–31.
3. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/hen-harrier/>
4. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/advice/wildlife-and-the-law/wild-bird-crime/hen-harrier>
5. <https://www.bto.org/about-bto/national-offices/scotland/our-work/selected-highlights/hen-harrier>
6. Holloway, S. 1996. *The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900*. Poyser, London
7. <https://www.bto.org/about-bto/national-offices/scotland/our-work/selected-highlights/hen-harrier>
8. <https://www.bbc.co.uk/news/science-environment-40422732>
9. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/a pep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
10. Gwent Bird Report 2018
11. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 129.
12. Gwent Bird Report 2007.
13. Whitfield D and Fielding A. 2009. Hen Harrier Population Studies in Wales.
14. <http://ww2.rspb.org.uk/our-work/rspb-news/news/443191--uk-hen-harrier-population-suffers-decline-according-to-latest-figures>
15. <https://www.bto.org/our-science/topics/tracking/tracking-studies/nightjars>
16. Pearce-Higgins W a Crick HQP. 2019. One-third of English Breeding Bird Species Show Evidence of Population Responses to Climatic Variables over 50 years. *Bird Study* 66:2, 159–172, DOI: 10.1080/00063657.2019.1630360
17. <https://www.norfolkwildlifetrust.org.uk/wildlife-in-norfolk/species-explorer/birds/nightjar>
18. Langston RHW et al. 2007. Nightjar *Caprimulgus europaeus* and Woodlark *Lullula arborea*—recovering species in Britain?
19. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 230–232.
20. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 118.
21. Tyler S et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 96.
22. [http://www.mothscount.org/text/19/moths\\_in\\_decline.html](http://www.mothscount.org/text/19/moths_in_decline.html).
23. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/red-grouse/>
24. <https://app.bto.org/birdtrends/species.jsp?year=2018&s=redgr>
25. <https://www.northyorkmoors.org.uk/discover/moorland/moorland-plants-and-wildlife/red-grouse>
26. <https://www.gwct.org.uk/game/research/species/red-grouse/>
27. DEFRA. 2019. *Wild Bird Populations in the UK 1970–2018*
28. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>



29. <https://www.visitblaenavon.co.uk/en/Publications/WorldHeritageSite/ForgottenLandscapes/FL-Landscape-Character-Study.pdf>
30. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 97–99.
31. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent, Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 84.
32. Safle Treftadaeth Byd Blaenafon, Arolwg Bywyd Gwyllt ac Adolygiad Monitro, Tachwedd 2017.
33. <https://www.scottishfield.co.uk/outdoors/wildlifeandconservation/nurturing-the-famous-four-scotlands-grouse-species/>
34. <https://www.bto.org/understanding-birds/species-focus/ring-ouzel>
35. Colin M. Beale et. Al. (2006) Climate change may account for the decline in British ring ouzels *Turdus torquatus*. *Journal of Animal Ecology* 2006 75: 826–835.
36. Sim I, Rollie C, Arthur D, Benn S, Booker H, Fairbrother V, Green M, Hutchinson K, Ludwig S, Nicoll M, Poxton I, Rebecca G, Smith L, Stanbury A, Wilson P, Green B. 2010. The Decline of the Ring Ouzel in Britain. *British Birds* 103: 229–239.
37. Wotton SR, Langston RHW a Gregory RD. 2002. The Breeding Status of the Ring Ouzel *Turdus torquatus* in the UK in 1999. *Bird Study* 49(1): 26–34.
38. <http://ww2.rspb.org.uk/our-work/conservation/conservation-projects/details/259965-diagnosing-the-causes-of-ring-ouzel-declines>
39. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 276–277.
40. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 118.

## Adar trefol

---

### Aderyn y To *Passer domesticus* (Linnaeus, 1758)

---

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwylt a Gwarchodaeth (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>1</sup>), Oren (Cymru<sup>2</sup>) UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

**Data Gwent Fwyaf ar gael:** Cymedrol/Gwael ( y maent, efallai'n ddealladwy, yn cael eu tangofnodi i raddau helaeth iawn) (7,785 cofnod)

**Cyd-destun:** Aderyn preswyl a sefydlog, mae Aderyn y To yn gysylltiedig yn agos iawn gyda lleoedd mae pobl yn byw ynddynt, yn cynnwys

aneddiadau gwledig, maestrefi a threfol. Yr oedd ac mae'n dal i fod ar gael yn eang ledled y Deyrnas Unedig, er bod poblogaethau wedi gostwng mewn gwahanol ardaloedd. Mae gan Aderyn y To ddietau amrywiol sy'n cynnwys hadau ac infertebratau, ac mae'n barod iawn i fanteisio ar fwyd a gaiff ei daflu/roi gan bobl. Mae diet eithaf amrywiol a gallu Aderyn y To i addasu ac ymelwa ar bobl yn gyfrifol am ei lwyddiant; mae'n un o'r rhywogaethau sydd ar gael ehangaf yn y byd.<sup>3</sup> Maent yn fras gytrefol, gan ffurfio cytrefau bach yn y tymor bridio<sup>4</sup> ac yn aros i raddau helaeth yn y grwpiau hyn dros y gaeaf. Mae Adar y To yn rhywogaeth sy'n nythu mewn tyllau, gan ddefnyddio bylchau dan fargodau tai a blychau nythu. Fodd bynnag, maent yn ddigon hyblyg i wneud nythod mewn tyfiant trwchus os nad oes tyllau addas ar gael.<sup>4</sup> Er eu dosbarthiad eang a'u gallu i addasu, bu gostyngiad pryderus yn eu niferoedd mewn cyfnodau cymharol ddiweddar: gostyngiad o 71% rhwng 1970 a 2017,<sup>5</sup> er bod hyn wedi gwella yn fwy diweddar. Mae gwahanol ffactorau yn gyfrifol am y dirywiad, ac maent yn wahanol mewn poblogaethau trefol a maestrefol. Mae newidiadau mewn arferion amaethyddol, colli safleoedd nythu a llai o fwyd ar gael wedi effeithio ar boblogaethau gwledig. Mae'n anos esbonio gostyngiadau trefol a maestrefol, ond mae presenoldeb gofod gwyrdd trefol ar wedd gerddi/rhandiroedd mawr yn bwysig ar gyfer eu llwyddiant, ac felly hefyd gyfleoedd nythu, a gall colled infertebratau fod yn achos dirywiad.<sup>6</sup>

**Rhagolygon:** Bu cynnydd sylweddol ym mhoblogaeth Aderyn y To yn y Deyrnas Unedig yn y 19eg ganrif, yn yr un modd â'r boblogaeth ddynol.<sup>7</sup> Roedd cynifer o adar to fel eu bod yn cael eu cydnabod fel niwsans, a sefydlwyd 'Clybiau Aderyn y To' gyda'r nod o'u dileu o bob plwyf.<sup>6</sup> Er hyn, fe wnaeth niferoedd barhau i gynyddu drwy lawer o'r 20fed ganrif, tan y 1970au, pan ddaeth gostyngiadau yn amlwg.<sup>6</sup> Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiad brawychus yn eu niferoedd. Er eu bod yn dal i fod wedi dosbarthu'n dda yn gyffredinol, maent yn diflannu o ganol dinasoedd, yn absennol o fynyddoedd yr Alban ac wedi eu dosbarthu'n denau yn y tir uchel.<sup>8</sup> Mae'r poblogaethau mwyaf yn awr ar draws Canolbarth Lloegr, De Lloegr a Dwyrain Lloegr.<sup>9</sup> Amcangyfrifwyd fod poblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 5,300,000 pâr.<sup>10</sup> Bu gostyngiadau tymor hirach o 71% rhwng 1970 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel dirywiad gwan), yn fwy diweddar ychydig o newid a fu gyda dirywiad bach o 2% rhwng 2012-2017<sup>5</sup> Mae arolwg adar bridio diweddaraf y BTO<sup>11</sup> yn dangos arwyddion bach o adferiad ac achos dros optimistaeth, gyda gostyngiad o ddim ond 1% yn 1995-2018 yn y Deyrnas



Andy Karran

Unedig a chynnydd da o 92% yng Nghymru dros yr un cyfnod – er fod yn rhaid cofio fod y cynnydd mwy diweddar hwn yn dychwelyd o'r colledion sylweddol yn y 1980au. Felly er y bu gostyngiad mawr ym mhoblogaethau Aderyn y To, mae arwyddion o wella, yn arbennig yng Nghymru.


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod Aderyn y To yn 'abundant breeding resident'<sup>12</sup> ac er y gall eu niferoedd fod wedi amrywio tipyn, felly y bu am gryn amser yn awr. Mae Birds of Monmouthshire 1937 a 1964 yn eu ddisgrifio fel 'a common birding resident, especially in and around towns and villages'.<sup>13</sup> Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer 1981–1985 fod poblogaeth yng Ngwent o tua 15,000-30,000 pâr, gyda chysylltiad agos rhwng Aderyn y To â chartrefi pobl ac ar gael yn 92% o'r tetradau o fewn Gwent.<sup>12</sup> Erbyn amser cyhoeddi Birds of Gwent yn 2007, disgrifiwyd Aderyn y To fel 'preswlydd gweddol gyffredin' ac amcangyfrifwyd fod tua 23,000-33,000 pâr ohonynt.<sup>12</sup> Mae'r cyhoeddiad hwn yn cyfeirio at Birds of Wales 2002, a nododd ostyngiadau sylweddol yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru yn ystod 1970-1990 ond mae'n dweud efallai na fu hyn yn wir yng Ngwent.<sup>12</sup> Yn wir, nid yw adroddiadau Gwent Bird Report rhwng 1975 a 2018 yn dangos unrhyw golled fawr mewn niferoedd, er y cofnodwyd rhai gostyngiadau lleol iawn ac ail-boblogi (dylid nodi fod Aderyn y To yn gyffredinol yn rhywogaeth a gaiff ei dangofnodi i raddau helaeth iawn). Gellir dod i'r casgliad fod Aderyn y To yn dal ar gael yn eang (heblaw yn yr ucheldir) a bod nifer fawr o rywogaethau o fewn Gwent. Fodd bynnag, mae tybiaeth nad yw heidiau'r hydref-gaeaf mewn caeau â'r mor fawr ag yr arferent fod.

Mae'n gymhleth cyfeirio at gofnodion SEWBReC oherwydd bod Aderyn y To mor gyfarwydd fel mai prin iawn y caiff ei gofnodi. Mae dadansoddiad o gofnodion yn ddiddorol gan ei bod yn sicr nad ydynt yn wir gynrychiolaeth. Mae'r prif ganolfannau yn Allanf Llanbedr (canolfan adara felly mae ganddi fwy o gofnodion) ac ar ffiniau Swydd Gaerloyw a achosir drwy ganoli gofnodion tetrad a hectad.


Y gwirionedd nad oes gofnodion mewn 1,324 (69) o'r 1,916 sgwâr 1km a bod gan 1,7981 (93%) 5 neu lai o gofnodion mewn cyfnod o 50 mlynedd. Dim ond 125 (7%) sgwâr sydd â mwy na 5 gofnod. Nid oes ychwaith unrhyw gydberthynas fawr gydag ardaloedd trefol; efallai fod mwy o gofnodion yng Nghaerffili, ond ychydig iawn sydd ar gyfer Casnewydd, Cas-gwent, Cwmbrân ac yn y blaen. Dylid cymharu'r data hwn gyda'r mapiau tetrad ar gyfer Gwent Bird Atlases (1981-1985) a (1998-2003) sydd â chofnodion o 90%+ o'r tetradau.<sup>12</sup>

Yn yr un modd, mae'r map data yn edrych yn dda tan y sylweddolwch y gall y ffaith nad oes unrhyw gofnodion o Aderyn y To am ddegawd fod yn broblem. Eto, mae'n debyg o fod yn wir mae'r rheswm na chânt eu cofnodi yw oherwydd eu bod mor gyffredin. Dim ond yn dilyn adroddiadau diweddar yn y cyfryngau am ostyngiadau y dechreuwyd o ddifrif i gofnodi Aderyn y To: roedd 17 gofnod yn y 1970au, 47 yn y 1980au a 10 yn y 1990au, ond 1,124 yn y 2000au a 3,047 yn y 2010au.

Dosbarthiad      cofnodion  
Aderyn y To ar draws Gwent  
Fwyaf (uchafswm 1,099  
cofnod km<sup>2</sup>)



Cofnodion Aderyn y To yn ôl  
degawd




**Patrymau cynefin:** Efallai nad yw cofnodion SEWBReC yn dangos hyn yn glir, ond mae cydberthynas glir iawn rhwng Aderyn y To a phresenoldeb cartrefi pobl.

**Tueddiadau'r boblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, nodwyd gostyngiadau eithaf mawr ym mhoblogaethau Aderyn y To ar draws y Deyrnas Unedig yn ystod y 1970au, 80au a 90au, gyda'r gostyngiadau hyn yn arafu mewn cyfnodau mwy diweddar a hyd yn oed yn gwrthdroi mewn manau tebyg i Gymru. Ymddengys nad yw'r gostyngiad cenedlaethol wedi effeithio llawer yng Ngwent, a byddai'n ymddangos fod poblogaeth Aderyn y To yng Ngwent yn iach ar hyn o bryd.

**Gwarchodaeth:** Daw 56% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Lanbedr Gwynllŵg, o fewn Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) y Gwastadeddau a Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) Gwlypdir Casnewydd, gan fod adarwyr yn ymweld â'r ardaloedd hyn yn aml. Mewn gwirionedd, byddid yn disgwyl llawer mwy o gofnodion o ardaloedd nas gwarchodir (gerddi pobl) ond fel y nodwyd eisoes, ni chaiff cofnodion o'r fath eu cyflwyno fel arfer.

*Cofnodion Aderyn y To o safleoedd a warchodir*



## Hebog Tramor *Falco peregrinus* (Tunstall, 1771)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1

**Statws cadwraeth:** Gwyrdd ledled y Deyrnas Unedig

**Data Gwent Fwyaf ar gael:** Cymedrol/Da (1,419 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Hebog Tramor yn breswyl yn y Deyrnas Unedig ac mae'n enwog am fod y rhywogaeth aderyn cyflymaf yn y byd. Fel aderyn bridio, mae ganddo gadarnleoedd yn ucheldir y gogledd a'r gorllewin, yn ogystal ag ar hyd arfordiroedd creigiog.<sup>14</sup> Fodd bynnag, mae'r

Hebog Tramor yn gynyddol yn nodwedd o lawer o ddinasoedd a threfi ledled y Deyrnas Unedig.<sup>15</sup> Mae i'w ganfod yn fwy aml mewn ardaloedd arfordirol yn ystod y gaeaf. Mae'n aderyn ysglyfaethus, gyda diet yn bennaf o fod yn adar a gymerir pan fydd yn hedfan – mae colomennod gwyllt yn hoff ysglyfaeth ond byddant yn cymryd ystod eang o rywogaethau adar.<sup>16</sup> Mae cymryd adar wedi achosi gwrthdaro gyda chiperiaid a phobl sy'n cadw colomennod rasio/cludo. Fe wnaeth hyn, ynghyd â chywion yn cael eu cymryd gan hebogyddion ac effeithiau gwenwyn organoclorin at i'r Hebog Tramor, ostwng i lefelau isaf, gyda'r pwynt isaf un ar ddechrau'r 1960au. Yn fwy diweddar, mae'r effeithiau negyddol hyn wedi gostwng yn sylweddol, gan alluogi adferiad mewn poblogaethau Hebogiaid Tramor, er y gallant ddal gael eu herlid ac mae colli/diraddio cynefin yn broblem ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau adar.

**Rhagolygon:** Dechreuodd poblogaeth y Deyrnas Unedig ostwng o ran nifer yn ystod y 19eg ganrif fel canlyniad i gynnydd mewn cadwraeth helwriaeth a gwelliant yng nghywirdeb gynnu.<sup>7</sup> Efallai na fu'r gostyngiad yng Nghymru mor amlwg oherwydd nad oedd cymaint o giperiaid.<sup>7</sup> Fe wnaeth dyfodiad y Rhyfel Byd Cyntaf ostwng pwysau gan giperiaid ac roedd y niferoedd yn uchel a sefydlog tan ddyfodiad yr Ail Ryfel Byd.<sup>7</sup> Ni wnaeth hyn barhau, gan fod gorchymyn argyfwng o 1940, ac a barhaodd tan 1946) yn caniatáu dinistrio yr Hebog Tramor i ddiogelu colomennod cario negesun milwrol.<sup>7</sup> Dilynodd dirywiadau mwy difrifol, gyda gwenwyn plaladdwyr organoclorin yn haneru poblogaethau rhwng 1956–1963.<sup>7</sup> Dilynodd moratoriwm gwirfoddol yn 1961, a ddilynwyd gan waharddiadau yn y 1970au a'r 1980au,<sup>17</sup> a alluogodd niferoedd yr Hebog Tramor i gynyddu. Dechreuodd adferiad araf ond cryf yn 1967, gyda'r nifer a gofnodwyd ddiwedd y 1980au yn debyg o fod yn uwch nag ar unrhyw amser yn y 20fed ganrif.<sup>7</sup> Caiff hyn ei adlewyrchu yn y cynnydd o 204% rhwng 1970-2018 (er i hynny gael ei ddisgrifio braidd yn od fel cynnydd gwan) ac arwydd fod lefelau poblogaeth yn awr yn eithaf sefydlog, gyda chynnydd o 2% (fawr o newid) rhwng 2012 a 2017.<sup>5</sup> Poblogaeth fridio bresennol (2014) yw 1,750 pâr.<sup>10</sup>

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod yr Hebog Tramor yn 'resident and winter visitor',<sup>12</sup> a byddai'n deg dweud fod yr Hebog Tramor wedi gwneud yn dda yng Ngwent yn ddiweddar. Yn 2008 cofnododd Birds of Gwent fod yr Hebog Tramor yn 'scarce or uncommon resident: more numerous now than ever recorded previously in the county',<sup>18</sup> ac yn 1997 fel 'fairly regular visitor, both in winter and on passage'.<sup>20</sup> Mae hyn i gyd yn dangos fod y niferoedd




Andy Karran

wedi cynyddu dros y cyfnod hwn, yn neilltuol gan nad yw Birds of Gwent 1977 yn eu cofnodi fel rhywogaeth bridio (yn wir mae'n sôn mai'r unig ymgais bridio a gadarnhawyd yng Ngwent hyd hynny oedd yn 1927).<sup>20</sup> Fodd bynnag, mae ffynonellau eraill yn awgrymu nifer o barau yng Ngwent, gyda chyfartaledd o dri phâr ac o leiaf chwe safle yn cael eu defnyddio o leiaf yn achlysurol hanner cyntaf yr 20fed ganrif.<sup>18</sup> Fodd bynnag roedd yr Hebog Tramor wedi diflannu fel aderyn bridio yng Ngwent erbyn 1960. Fe wnaeth y sefyllfa hon barhau tan 1979, pan ddychwelodd pâr i Gwmioi, er y bu'r nifer a gofnodwyd yn cynyddu cyn hynny.<sup>18</sup> Erbyn adeg y Gwent Bird Atlas diweddaraf (1998–2003), roedd y boblogaeth o leiaf 15 pâr, gyda'r rhan fwyaf o boblogaeth yn y cymoedd gorllewinol a'r Mynydd Du, er bod mwy o gofnodion trefol a bridio ar beilonau yn ardal Casnewydd.<sup>18</sup> Mae'r boblogaeth yn amlwg yn gwneud dda, gyda chyflenwadau da o fwyd a mwy o warchodaeth,<sup>18</sup> ynghyd â'r gwaharddiad ar blaladdwyr, wedi eu rhoi yn rhesymau am hyn. Roedd ac mae erledigaeth yn dal i fod yn broblem fodd bynnag, gydag un safle yn cofnodi pump o wahanol oedolion marw mewn un tymor bridio (1997).<sup>18</sup>


Mae canolfannau cofnodi yn Allanfa Llanbedr a Gwlypdir Casnewydd. Mae hyn yn ddi-os oherwydd mwy o arsylwyr yn y canolfannau adara hyn, ond mae'r ardaloedd hyn hefyd yn debygol o gael eu defnyddio'n helaeth gan yr Hebog Tramor gan fod llawer o ysglyfaeth posibl ar gael. Mae canolfannau llai yng Nghrib Hatterall (y Mynydd Du) a Chwm Clydach, sy'n fwy tebygol o adlewyrchu safleoedd bridio yn yr ardaloedd mwy garw yma.



*Dosbarthiad cofnodion yr Hebog  
Tramor ar draws Gwent Fwyaf  
uchafswm >50)*



*Cofnodion yr Hebog  
Tramor yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae bridio'r Hebog Tramor yn dal i fod â thuedd tuag at orllewin a gogledd mwy garw Gwent, lle mae creigiau ar gyfer safleoedd nythu i'w cael, er eu bod ar gael yn ne'r sir ac mewn amgylcheddau mwy trefol, lle caiff strwythurau fel peilonau eu defnyddio ar gyfer safleoedd nythu. Y tu allan i'r tymor bridio, mae'r Hebog Tramor ar gael yn eang, yn neilltuol lle mae digonedd o ysglyfaeth, felly mae safleoedd arfordirol gyda niferoedd mawr o adar tebyg i Lanbedr Gwynllŵg a Gwlypdir Casnewydd yn safleoedd a ffafirir.

**Tueddiadau poblogaeth:** Mae cyfeiriad at arolwg diweddaraf y BTO o'r Hebog Tramor (2014) yn dangos bod y cynnydd yn y poblogaethau yn y Deyrnas Unedig rhwng 2002 a 2014 wedi ei yrru gan gynnydd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.<sup>19</sup> Roedd y niferoedd yng Nghymru a'r Alban wedi gostwng mewn gwirionedd oherwydd gostyngiad ym mhoblogaethau yr Hebog Tramor yn yr ucheldir, gydag erledigeth rheoli grugieir yn cael ei roi mewn ffactor pwysig posibl. Roedd y niferoedd mewn ardaloedd llawr gwlad yn cynyddu mewn gwirionedd, wedi'i hybu gan ddefnydd yr Hebog Tramor o golomennod gwyllt, trefol fel ffynhonnell ddigonol o fwyd a defnydd strwythurau gwneuthuredig fel safleoedd nythu.<sup>19</sup> Gall fod y bydd yr Hebog Tramor, dros gyfnod, yn cael eu gysylltu yn llai gydag ucheldir gwyllt ac yn fwy gyda strwythurau gwneuthuredig ar lawr gwlad.<sup>20</sup>

Yng Ngwent mewn blynyddoedd diweddar, bu'r boblogaeth Hebog Tramor yn manteisio ar ucheldir y gogledd/gorllewin yn ogystal â'r arfordir a thir isel agored yn gysylltiedig gyda Gwastadeddau Gwent. Mae bob amser yn rhywogaeth sy'n debygol o ddioddef peth erledigaeth, fodd bynnag mae poblogaeth Gwent yn uchel a sefydlog, a gobeithir y bydd hyn yn parhau.

**Gwarchodaeth:** Daw 70% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer fawr o gofnodion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) ar hyd Aber yr Hafren, ynghyd ag ychydig iawn yn SAC Ystlumod Brynbuga. Roedd cofnodion Gwarchodfa Natur Leol (NNR) o Wlypdir Casnewydd. Roedd y cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o bob rhan o'r Gwastadeddau, ynghyd â'r Blorens, y Mynydd Du a Chronfa Ddŵr Llandegfedd. Mae cofnodion o Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o safleoedd lluosog ar draws Caerffili a Thorfaen, ynghyd ag ychydig o Flaenau Gwent, yn gyffredinol wedi cysylltu gyda'r cymoedd gorllewinol tir uwch, yn arbennig i'r gogledd o Gaerffili, o amgylch Parc Cwm Darren, gogledd Torfaen ac o amgylch ardal Blaenafon.

*Cofnodion yr Hebog Tramor o safleoedd a warchodir*



## Cyfeiriadau

1. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
2. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13:1, 3–31.
3. <https://www.nhm.ac.uk/discover/house-sparrow-passer-domesticus.html>
4. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/house-sparrow/breeding/>
5. DEFRA. 2019. Wild bird populations in the UK 1970–2018, 40.
6. <https://www.bto.org/our-science/projects/gbw/gardens-wildlife/garden-birds/a-z-garden-birds/house-sparrow>
7. Holloway S. 1996. *The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900*. Poyser, Llundain
8. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/house-sparrow/>
9. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/tree-sparrow/>.
10. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/apep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
11. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>
12. Gwent Bird Report 2018.
13. Tyler S. et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 339–340.
14. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/peregrine/>
15. <https://urbanperegrines.co.uk/>
16. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/peregrine/habitat-and-food/>
17. <https://nerc.ukri.org/latest/publications/planetearth/sum15-birds/>
18. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 140–142.
19. <https://www.bto.org/our-science/projects/peregrine-survey/results>
20. <https://www.bto.org/sites/default/files/peregrine-survey-results-spring-2018-bto-news.pdf>

## Adar hirgoes


### Rhostog Cynffonddu *Limosa limosa* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chadwraeth (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>1</sup>), Oren (Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (1431 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Rhostog Cynffonddu yn bennaf yn aderyn sy'n ymfudo drwy'r Deyrnas Unedig ac yn ymwelydd gaeaf, gyda nifer fach yn bridio yn nwyrain Lloegr. Mae hyn yn golygu fod y Rhostog Cynffonddu yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu



Andy Karran

ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio ar y ddau.<sup>3</sup> Maent yn un o lu o rywogaethau adar hirgoes sy'n pasio drwy'r Deyrnas Unedig wrth ymfudo yn y gwanwyn a'r hydref, gyda dim ond ychydig yn aros i fridio. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol yn treulio'r gaeaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Rhostog Cynffonddu sy'n aros i fridio yn y Deyrnas Unedig ar ddim ond llond dwrn o safleoedd corsio yn nwyrain Lloegr, a chaiff y prinder hwn ei ddangos yn eu statws Gwarchoddedig Atodlen 1. Mae'r adar ymfudol fel arfer yn treulio'r gaeaf yng Ngorllewin Affrica tra bod y boblogaeth gaeafu sylweddol yn cynnwys adar a fridiodd ymhellach i'r gogledd, yng Ngwlad yr Iâ.<sup>4</sup> Maent yn un o ddau rhywogaeth o'r rhostog sy'n ymweld yn rheolaidd â'r Deyrnas Unedig, ond yr unig sy'n sy'n bridio yma; dim ond rhywogaeth ymfudol a gaeafu yw ei gefnder agos, y Rhostog Rhudd. Mae Rhostog Cynffonddu yn bennaf yn bwydo ar bryfed, mwydon a malwod, gan wneud defnydd da o'u pig hir iawn. Yn gyffredinol, bu cynnydd enfawr yn y Deyrnas Unedig (765%) mewn adar gaeafu rhwng 1970 a 2017.<sup>5</sup> Mae hyn yn debyg fod hyn oherwydd cynnydd yn y boblogaeth yng Ngwlad yr Iâ,<sup>6</sup> sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig. Mae'r boblogaeth bridio wedi amrywio ond wedi aros yn fras debyg mewn cyfnodau diweddar. Fodd bynnag, mae'r boblogaeth yn agored i golledion oherwydd llifogydd ac ysglyfaethwyr,<sup>7</sup> a mae ei faint bach hefyd yn ei wneud yn fregus.


**Rhagolygon:** Ymddengys na fu'r Rhostog Cynffonddu erioed yn gyffredin iawn fel aderyn bridio yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, yr oedd ar un cyfnod yn bridio'n niferus ar gorsydd East Anglia,<sup>8</sup> ond roedd wedi diflannu fel aderyn bridio rheolaidd yn y Deyrnas Unedig erbyn canol y 19eg ganrif, gyda draeniad y corstiroedd ar gyfer amaethyddiaeth i'w feio i raddau helaeth.<sup>8</sup> Ni wnaethant ddychwelyd fel rhywogaeth bridio yn y rhan honno o ddwyrain Lloegr tan y 1930au.<sup>8</sup> Mae East Anglia yn parhau i fod yn gadarnle iddynt yn y Deyrnas Unedig, gyda chofnodion bridio achlysurol yn yr Alban. Fe wnaeth poblogaeth fach ddatblygu ar Wastadeddau Gwlad yr Haf ond effeithiodd tablau dŵr is ar hynny.<sup>8</sup> Mae poblogaeth East Anglia yn parhau mewn bodolaeth ond mae'n fach ac yn fregus i lifogydd y gwanwyn. Amcangyfrifwyd fod poblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 2013–2017 yn 53 pâr.<sup>9</sup> Byddai'n ymddangos i'r boblogaeth hon gyrraedd ei brig ar 65 pâr ddechrau'r 1970au, a chafodd ei gostwng gan lifogydd i hanner y nifer hwnnw erbyn diwedd y 1980au.<sup>7</sup> Yn wahanol i'r boblogaeth fridio fach a bregus, bu cynnydd mawr yn y boblogaeth gaeafu: cynnydd o 765% rhwng 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel cynnydd cryf, gyda hyn yn dal i fod yn amlwg yn fwy diweddar gyda chynnydd pellach o 23% rhwng 2012-2017.<sup>5</sup> Roedd y poblogaeth gaeafu yn 41,000 yn 2017.<sup>9</sup>

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Rhostog Cynffonddu yn 'passage migrant, summer and winter visitor',<sup>10</sup> a byddai'n deg dweud y bu hyn yn wir ers cryn amser gyda nifer wedi cynyddu dros gyfnod. Cofnododd Birds of Gwent yn 2008 fod y Rhostog Cynffonddu yn 'regular passage migrant and winter visitor in increasing numbers', gan nodi 'some birds stay through the summer',<sup>11</sup> yn 1977 cafodd ei ddisgrifio 'regular spring and autumn passage migrant in small numbers, with occasional birds remaining during summer and winter'.<sup>12</sup> Gellir gweld y cynnydd sylweddol yn nifer yr adar ymfudol teithiol a gaeafu o'r ffaith mai dim ond deg cofnod flaenorol a restrwyd yn Birds of Monmouthshire 1963,<sup>11</sup> tra nawr y gellir gweld heidiau o gannoedd o adar. Mae'n ddi-os fod cysylltiad agos rhwng y cynnydd hwn â'r cynnydd enfawr yn y boblogaeth fridio yng Ngwlad yr Iâ, sydd yn teithio heibio a hefyd yn gaeafu yma yng Ngwent. Mae effaith creu Morlynnoedd Goldcliff yn denu adar ychwanegol a hefyd gynyddu eu niferoedd hefyd yn bwysig iawn. Mae'r adroddiad yn The Birds of Gwent 2008 yn rhoi syniad gwell o'r cynnydd dramatig mewn niferoedd. Nid yw'r Rhostog Cynffonddu erioed wedi bridio yng Ngwent. Fodd bynnag, gyda bridio llwyddiannus wedi digwydd ar Wastadeddau Gwlad yr Haf a chynefin a allai fod yn bosibl ar ben Goldcliff o Wlypdir Casnewydd, mae bridio yng Ngwent yn bosiblwydd.


Mae bron yr holl gofnodion ar Wastadeddau Gwent. Y ganolfan cofnodi yw Gwlypdir Casnewydd, gyda 854 cofnod o fewn sgwâr 1km. Mae llawer o'r cofnodion yn rhai diweddar.



*Dosbarthiad cofnodion y  
Rhostog Cynffonddu ar draws  
Gwent Fwyaf (uchafswm  $\geq 100$   
cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Rhostog  
Cynffonddu yn ôl  
degawd*




**Patrymau cynefin:** Yn bendant iawn yn aderyn yr arfordir yng Ngwent.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu cynnydd mawr mewn poblogaethau ymfudo a gaeafu o'r Rhostog Cynffonddu o fewn y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda chynnydd enfawr yn nidroedd yr adar sy'n mynd heibio wrth ymfudo ac yn gaeafu. Cafodd hyn ei hybu gan y cynnydd enfawr yn y boblogaeth fridio yng Ngwlad yr Iâ, ac mae creu Morlynnoedd Goldcliffe wedi ychwanegu at hynny yn lleol gan ddenu'r Rhostog a chynnyddu'r niferoedd. Byddai'n ymddangos fod y boblogaeth Rhostog Cynffonddu sy'n ymfudo heibio ac yn aros dros y gaeaf yn ddiogel iawn yng Ngwent ar hyn o bryd.

Caiff manylion y niferoedd sy'n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrifiadau'r Arolwg Adar Gwlypdir (WeBS) eu dangos yn y siart islaw, sy'n dangos y cynnydd yn y boblogaeth yn glir iawn.

Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau blynyddol eu rhoi fel isafrif yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif.

*Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer Rhostog Cynffonddu ar Aber yr Hafren<sup>13</sup>*




Fodd bynnag, mae posibilrwydd go iawn o ychwanegu'r Rhostog Cynffonddu at restr bridio Gwent (a Chymru). Mae safle Gwlypdir Casnewydd eisoes wedi ychwanegu nifer o rywogaethau at ffawna adarol bridio Gwent/Cymru, gyda 'r Cambig yn un enghraifft nodedig. Byddai'n ddefnyddiol deall sut y caiff cynefinoedd eu rheoli yn East Anglia, mewn lleoedd fel Nene Marshes a Welney, ac ardaloedd yn nes gartref ar Wastadeddau Gwlad yr Haf, os dymunir annog y Rhostog Cynffonddu i fridio yng Ngwent. Fodd bynnag, byddai angen bod yn ofalus iawn i sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i reolaeth cynefin a allai annog y Rhostog i nythu yn cael effaith niweidiol ar lwyddiant rhai o'r rhywogaethau eraill o rydwyr sydd eisoes yn nythu yno.



**Gwarchodaeth:** Daw 98% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Warchodfa Natur Leol (NNR) Gwlypdir Casnewydd (69) ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent..

*Cofnodion y Rhostog Cynffonddu o safleoedd a warchodir*



## Pibydd y Dorlan *Actitis hypoleucos* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Oren (DU<sup>1</sup>), Gwyrdd (Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (1354 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae Pibydd y Dorlan yn ymwelydd haf ac yn ymfudwr teithiol yn y Deyrnas Unedig, gyda nifer fach yn aros gyda ni am y gaeaf. Mae'r gaeafu hwn gan yr adar yn ffenomen mwy diweddar ac mae'r niferoedd yn fach. Mae hyn yn golygu fod



Pibydd y Dorlan yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynhonnell bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>3</sup> Maent yn un o lu o rywogaethau rhydwyr sy'n mynd drwy'r Deyrnas Unedig wrth ymfudo yn y gwanwyn a'r hydref, gyda nifer yn aros i fridio, er mewn niferoedd llai nag a welir yn y prif safleoedd bridio ymhellach i'r gogledd. Mae gan Bibydd y Dorlan sy'n aros i fridio yn y Deyrnas Unedig ddsbarthiad gogleddol a gorllewinol fel arfer, gan fridio ar hyd afonydd cyflym ac wrth lynnoedd a chronfeydd dŵr yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a gogledd Lloegr.<sup>14</sup> Mae'n rhwydd ei adnabod drwy ei arfer o fynd i fyny ac i lawr a'i hediad cyflym, adain stiff yn isel dros y dŵr.<sup>15</sup> Mae Pibyddion y Dorlan fel arfer yn bwydo ar bryfed ond byddant hefyd yn bwyta mwydon a physgod cregyn.<sup>14</sup> Bu gostyngiad cyffredinol yn y Deyrnas Unedig o 48% rhwng 1970 a 2017.<sup>5</sup> Er fod ychydig o adar yn gaeafu yn y Deyrnas Unedig, mae'r rhan fwyaf yn ymfudo pellter maith i Affrica, a chredir mai eu safleoedd gaeafu yw'r prif reswm dros y gostyngiadau hyn.<sup>16</sup>


**Rhagolygon:** Caiff Pibydd y Dorlan yn awr ei ystyried yn fwy o aderyn nentydd ucheldir yn y Deyrnas Unedig, ond nid fel hyn oedd hi bob amser; roeddent hefyd yn gyffredin mewn ardaloedd llawr gwlad yn y 19eg ganrif.<sup>8</sup> Dechreuodd y dirywiad hwn mewn ardaloedd llawr gwlad ar ddiwedd y 19eg ganrif ac roedd yn fwyaf amlwg (yn sicr yn Ne Cymru) ar ddiwedd y 1940au a'r 1950au.<sup>8</sup> Gall llygredd afonydd llawr gwlad fod wedi bod yn ffactor am y newid cwmpas hwn.<sup>8</sup> Arweiniodd y crebachiad hwn i ardaloedd tir uchel yn bennaf at y dosbarthiad creiddiol i'r gogledd a'r gorllewin a welir yn y Deyrnas Unedig. Amcangyfrifir fod poblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 13,000.<sup>9</sup> Mae hyn yn llai nag oedd yn hanesyddol, gyda'r dirywiad wedi ei achosi gan golli llawer o'r boblogaeth llawr gwlad a gostyngiadau mwy diweddar fel sy'n dilyn: gostyngiad o 48% rhwng 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad gwan), gyda hyn yn dal i fod yn fwy amlwg yn fwy diweddar gyda gostyngiad pellach o 5% rhwng 2012-2017.<sup>9</sup> Mae Arolwg Bridio Adar y BTO<sup>17</sup> yn dangos y gostyngiadau hyn ymhellach, gan ddangos gostyngiad o 29% rhwng 1995 a 2018 yn y Deyrnas Unedig. Bu rhai arwyddion o adferiad yn ddiweddar, gyda chynnydd o 9%,<sup>18</sup> er fod hynny mewn dim ond un flwyddyn (2018-2019). Dim ond amser a ddengys os yw hyn yn ddechrau adferiad.

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae Pibydd y Dorlan i'w cael o fewn Gwent fel aderyn bridio ar nifer o gyrsiau dŵr, gyda'r Afon Wysg a'r Afon Mynwy y safleoedd gorau<sup>18</sup> a nifer o gyrff merddwr hefyd yn cael eu defnyddio. Caiff darnau o afonydd gyda basleoedd gro eu ffafrio'n neilltuol. Gellir eu cael yn fwy eang pan fyddant yn ymfudo, ond maent yn dal i fod yn gysylltiedig gyda dŵr, gyda llawer o ymfudwyr teithiol ar yr arfordir a'r aderyn gaeafu achlysurol yno hefyd. Mae'r Gwent Bird Report (2018) diweddaraf yn dweud fod Pibydd y Dorlan yn 'uncommon passage migrant and breeder; uncommon


winter visitor'<sup>10</sup> Fodd bynnag, cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod Pibydd y Dorlan yn 'uncommon passage migrant and scarce winter visitor. an uncommon breeder'.<sup>18</sup> Mae hyn yn awgrymu y bu gostyngiad yn lefelau'r boblogaeth fel a welwyd yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer cyfnod 1981–1985 boblogaeth o lai na 100 pâr yng Ngwent,<sup>20</sup> gyda'r ail atlas ar gyfer 1998–2003 yn amcangyfrif cyfanswm is o 25-40 pâr.<sup>18</sup> Mae hyn unwaith eto yn dangos dirywiad yn ystod y 1980au a'r 1990au. Ar y cyfan, byddai'n deg dweud fod y boblogaeth fridio wedi gostwng ond ei bod yn cael ei chynnal ar lefel newydd, is. Ar y llaw arall, mae'n fwy aml fel adar gaeafu – er mewn niferoedd bach iawn – mae'n debyg oherwydd gaeafau cyffredinol fwynach.

Mae cofnodion yn dangos dosbarthiad yn gyffredinol ar draws arfordir y Gwastadeddau ond hefyd ar hyd yr Afon Wysg, Afon Gwy a'r Afon Mynwy yn ogystal â chronfa ddŵr Llandegfedd a Llyn Rhaslas. Y prif ganolfannau cofnodi yw Goldcliff/Gwlypdir Casnewydd (334 cofnod) a Llanbedr Gwynllŵg (122 cofnod).

*Dosbarthiad cofnodion Pibydd  
y Dorlan ar draws Gwent  
Fwyaf (uchafswm  
≥100 cofnod/km<sup>2</sup>)*




*Cofnodion Pibydd y  
Dorlan yn ôl degawd*



**Patrymau cynefin:** Yn bendant iawn yn aderyn yn gysylltiedig gyda dŵr, gydag adar bridio yn hoff o afonydd gyda gro agored ac adar teithiol yn fwy eangfrydig yn eu dewis o gyrff dŵr, gyda llawer o gofnodion o'r arfordir hefyd.


**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiadau ym mhoblogaethau Pibydd y Dorlan ar draws eu cwmpas yn y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda chwymp mewn niferoedd bridio. Ymddengys fod cyfradd y colledion hyn wedi arafu gyda Pibydd y Dorlan yng Nghymru ar y rhestr Werdd, felly o'r lleiaf o gonsyrn cadwriaethol, er ei fod yn dal i fod yn Oren yn y Deyrnas Unedig. Byddai'n ymddangos y caiff colledion poblogaeth eu gyrru gan bennaf gan faterion yn ymwneud â safleoedd gaeafu ac wrth ymfudo. Mae hyn yn adlewyrchu problem fyd-eang newid hinsawdd, sydd hefyd yn ei gwneud yn anodd trin y gostyngiad ar lefel leol. Fodd bynnag, gall cynefinoedd yma yng Ngwent gael eu cadw a'u gwella i gynyddu'r adnoddau a all fod ar gael ar gyfer Pibydd y Dorlan sy'n bridio. Afonydd glân heb lygredd gyda gro agored yw eu hoff gynefin, felly os gellir cadw'r cynefinoedd hyn a'u gadael heb darfu arnynt yn ystod y tymor bridio yna dylai dyfodol Pibydd y Dorlan yng Ngwent fod yn rhesymol gadarn. Dylid hefyd gofio fod Pibydd y Dorlan yn gaeafu'n gynyddol yng Ngwent, gydag Aber yr Hafren y prif safle. Caiff manylion cyfrifiadau y niferoedd sy'n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrifiadau WeBS eu dangos yn y siart dilynol, sy'n dangos niferoedd amrywiol, eithaf isel ond efallai gyda chynnydd bychan dros gyfnod.

*Cyfrifiadau Brig y Gaeaf WeBS ar gyfer Pibydd y Dorlan ar Aber yr Hafren<sup>13</sup>*



**Gwarchodaeth:** Daw 72% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda niferoedd uchel o gofnodion o Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwlypdir Casnewydd a Gwastadeddau Gwent, yn ogystal â SSSI Cronfa Ddŵr Llandegfedd. Daw cofnodion Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) o'r Hafren (er bod cofnodion hefyd ar SAC yr Afon Wysg a'r Afon Gwynad ydynt wedi eu cofrestru o fewn y safle a warchodir oherwydd ei fod yn ddynodiad mor gul). Mae cofnodion Gwarchodfa Natur Leol (LNR) o Barc Bryn Bach, Llynnoedd Garn a Pharc St Julian, a chofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o Lyn Rhaslas a'r Afon Wysg yng Nghaerllion.

*Cofnodion Pibydd y Dorlan o safleoedd a warchodir*



## Pibydd y Mawn *Calidris alpina* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Oren (DU<sup>1</sup>), Coch (Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (2,792 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae Pibydd y Mawn yn un o'r adar hirgoes mwyaf cyfarwydd a chyffredin yn y Deyrnas Unedig. Maent yn llawer mwy cyffredin fel adar gaeafu, ond hefyd yn teithio heibio pan fyddant yn ymfudo ac mae niferoedd llai yn aros i fridio. Mae tri gwahanol fath o Bibydd y Mawn yn ymweld



Andy Karran

â'r Deyrnas Unedig. Dim ond un ohonynt sy'n rhywogaeth prin ac mae hefyd yn ymfudwr teithiol; dim ond pan fydd yn ymfudo y mae'r ail fath yn pasio heibio, gan nythu ymhellach i'r gogledd a gaeafu yn llawer pellach i'r de yng Ngorllewin Affrica.<sup>21</sup> Mae trydydd math yn nythu ymhellach i'r gogledd ond yn gaeafu yn y Deyrnas Unedig a'r math hwn yw'r mwyaf niferus o bell yn y Deyrnas Unedig.<sup>21</sup> Mae hyn yn golygu fod Pibydd y Mawn yn fregus i newidiadau yng nghyfeirioedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>3</sup> Maent yn un o lu o rywogaethau adar hirgoes sy'n pasio drwy'r Deyrnas Unedig pan fyddant yn ymfudo yn y gwanwyn a'r hydref. dim ond nifer cymharol fach sy'n aros i fridio, ond mae nifer sylweddol yn treulio'r gaeaf yn y Deyrnas Unedig. Mae Pibydd y Mawn sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig wedi eu cyfyngu i ardaloedd tir uchel Lloegr, yr Alban a Chymru a thir is ar Ynysoedd Heledd, tebyg i Ynysoedd Heledd, felly mae dosbarthiad gogleddol a gorllewinol neilltuol.<sup>22</sup> Mae'r adar ymfudol fel arfer yn treulio'r gaeaf yng Ngorllewin Affrica, tra bod poblogaeth sylweddol y gaeaf yn cynnwys adar a fridiodd yng Ngorllewin Siberia.<sup>23</sup> Mae Pibydd y Mawn yn bennaf yn bwyta pryfed, malwod a mwydod,<sup>22</sup> gan wneud defnydd da o'u pigau hir. Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, bu gostyngiad o 47% mewn adar gaeafu rhwng 1970 a 2017.<sup>5</sup> Gall y gostyngiad mewn niferoedd fod oherwydd nifer o ffactorau, gyda lledaeniad *Spartina anglica* (cordwellt) o fewn ardaloedd bwydo'r aber â rhan.<sup>24</sup> Mae gaeafau mwynach hefyd yn golygu fod mwy o adar yn gaeafu ymhellach i'r dwyrain mewn ardaloedd fel Môr Wadden, ac felly heb fod yn cyrraedd y Deyrnas Unedig.<sup>25</sup> Mae'r boblogaeth fridio wedi gostwng i ryw raddau gyda ysglyfaethu gan ddraenogiaid ar gadarnleoedd ar ynysoedd a choedwigaeth yn yr ucheldir yn ddau achos a awgrymwyd.

**Rhagolygon:** Mae'n ymddangos fod Pibydd y Mawn bob amser wedi bod yn llawer mwy cyfarwydd fel adar gaeafu nag fel adar bridio yn y Deyrnas Unedig. Roedd unwaith yn bridio ar safleoedd mwy llawr gwlad, ond cafodd llawer o'r rhain eu colli i ddraeniad/addas i dir amaethyddol.<sup>8</sup> Fe wnaeth y poblogaethau bridio ar y tir uchel yn gyffredinol well, er y collwyd rhai safleoedd i goedwigaeth.<sup>8</sup> Efallai fod yr Alban yn parhau'n gadarnle ar gyfer y boblogaeth fridio, ond mae poblogaethau sylweddol yn y Pennines yng ngogledd Lloegr a phoblogaethau llai ar yr ucheldir yng Nghymru; mae'r poblogaethau bridio mwyaf deheuol yn y byd ar Dartmoor.<sup>26</sup> Amcangyfrifir fod poblogaeth bridio y Deyrnas Unedig yn 2005-2007 yn 8,600–10,500 pâr.<sup>9</sup> Yn wahanol i'r boblogaeth fridio gymharol fach ac eithaf lleol, mae'r boblogaeth gaeafu yn fawr (350,000 yn 2016–2017) ond bu gostyngiadau sylweddol: gostyngiad o 47% yn 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad gwan), gyda hyn ymddengys i fod wedi sefydlogi'n ddiweddar heb unrhyw newid rhwng 2012–2017.<sup>5</sup> Mae'r




boblogaeth gaeafu wedi ei dosbarthu'n eang o amgylch arfordir y Deyrnas Unedig, ond mae canran sylweddol wedi crynhoi o fewn nifer o systemau aber a ffafir.


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod Pibydd y Mawn yn 'common winter visitor/fairly common on passage on coast/very rare breeder'.<sup>10</sup> Bu hyn yn wir am amser maith, ond mae'r nifer gaeafu wedi gostwng i ryw raddau dros gyfnod. Cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod Pibydd y Mawn yn 'winter visitor to the coast in large numbers, with some passage birds. Formerly an occasional breeder in very small numbers'.<sup>28</sup> Nodwyd fod Aber yr Hafren a Gwent yn neilltuol yn bwysig iawn i Bibydd y Mawn: mae Aber yr Hafren o Bwysigrwydd Rhyngwladol ( y pumed pwysicaf yn y Deyrnas Unedig) ac mae'r nifer fwyaf o Bibyddion y Mawn yn Aber yr Hafren yn ardal arfordir Llanbedr Gwynllŵg-Sant y Brid.<sup>27</sup> Yn y mewndir yng Ngwent, mae Pibydd y Mawn yn cyrraedd yn flynyddol ond dim ond nifer fach ohonynt, gyda Chronfa Ddŵr Llandegfedd y safle gorau.<sup>27</sup> Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Pibydd y Mawn yn rhan gyffredin a phwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren dros y gaeaf, er fod y nifer wedi gostwng. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw ac yn fwyaf tebygol am resymau tebyg. Y rheswm pwysicaf yw fod adar yn gaeafu ymhellach i'r dwyrain fel ymateb i aeafau cyffredinol fwynach. Ni fu Pibydd y Mawn erioed mewn unrhyw ffordd yn gyffredin ac efallai erioed yn rheolaidd fel rhywogaeth fridio yng Ngwent; gall y gofnod hanesyddol achlysurol fod hyd yn oed dros y ffin ym Mhowys. Canolbwynt gweithgaredd bridio blaenorol oedd y tir uchel yng ngogledd y sir, yn ardal y Fenni a Blaenau'r Cymoedd.<sup>27</sup> Mae'n bosibl y gall Pibydd y Mawn fridio eto yn yr ardaloedd cyffredinol yma ond nid oes dim byd i awgrymu fod hyn yn debyg o fod yn ddim mwy na digwyddiad prin ac afreolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion ar hyd arfordir Aber yr Hafren; mae cofnodion achlysurol yn y mewndir, gyda Chronfa Ddŵr Llandegfedd yn ffocws a rhai yn y tir uchel.

*Dosbarthiad cofnodion  
Pibydd y Mawn ar draws  
Gwent Fwyaf (uchafswm  
 $\geq 100$  cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Pibydd y  
Mawn yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae Pibydd y Mawn yn bendant iawn yn aderyn arfordir lleidiog Aber yr Hafren, gyda niferoedd bach yn y mewndir mewn cyrff dŵr ac yn achlysurol iawn wedi’u cofnodi yn y tir uchel ar gynefin bridio posibl mewn rhostir.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiad amlwg ym mhoblogaeth gaeafu Pibydd y Mawn o fewn y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda chwmp yn nifer yr adar sy’n gaeafu. Caiff y gostyngiadau hyn eu gyrru gan aeafau cyffredinol fwynach yn galluogi niferoedd mwy i aeafu ymhellach i’r dwyrain. Byddai’n ymddangos ar hyn o bryd fod y boblogaeth Pibydd y Mawn sy’n gaeafu yng Ngwent yn ddiogel ac yn dal yn arwyddocaol iawn fel rhan o safle rhyngwladol bwysig Aber yr Hafren. Er hyn, mae astudiaethau parhaus o dueddiadau yn dal yn bwysig iawn wrth fonitro’r poblogaethau, er mai ychydig a fedrir ei wneud yn nhermau cadwraeth lleol i ddylanwadu ar y gostyngiadau a achosir gan adar yn gaeafu ymhellach i’r dwyrain. Fodd bynnag, byddai angen craffu’n ofalus ar effeithiau posibl argloddiau, morlynnedd a phŵer llanw yr Hafren ar boblogaethau gaeafu Pibydd y Mawn .


Rhodir manylion y niferoedd sy’n gaeafu ar Aber yr Hafren drwy gyfrifiadau WeBS yn y siart dilynol, sy’n dangos yn amlwg iawn y gostyngiad graddol yn y poblogaethau hyd at droad y ganrif. Mae’r gostyngiad yn y boblogaeth wedi aros yn ei unfan ers hynny. Mae hyn yn cynrychioli’r boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren) yn hytrach na Gwent Fwyaf i gyd. Dylid nodi fod Pibydd y Mawn yn un o’r ychydig adar sydd â chyfrifiad parhaus ers 1970 – set data rhagorol.

*Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer Pibydd y Mawn ar Aber yr Hafren<sup>13</sup>*



Fel y nodwyd yn flaenorol, mae’n annhebygol y bydd Pibydd y Mawn yn ddim mwy nag adar bridio prin iawn yng Ngwent, yn neilltuol gan ein bod yn ymarferol ar ben deheuol ei gwmpas bridio. Os yw’r tir uchel yng ngogledd Gwent yn parhau i gael ei warchod, yna bydd yr adnodd hwn yn parhau i fod ar gael a gellir ei ddefnyddio yn achlysurol.

**Gwarchodaeth:** Daw 97% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Aber yr Hafren, Gwlypdir Casnewydd a Gwastadeddau Gwent a rhai o SSSI Llandegfedd.



*Cofnodion Pibydd y Mawn o safleoedd a warchodir*

## Cwtiad Torchog Bach *Charadrius dubius* (Scopoli, 1786)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Gwyrdd (DU<sup>1</sup> a Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (775 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Cwtiad Torchog Bach yn ymwelydd haf i'r Deyrnas Unedig ac yn ymwelydd teithiol yma. Mae hyn yn golygu ei fod yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio



Andy Karran

arnynt i gyd.<sup>3</sup> Er bod llawer o'n rhywogaethau adar hirgoes yn fwyaf niferus yn y Deyrnas Unedig yn ystod y gaeaf, dim ond yn ystod y gwanwyn/haf y mae'r Cwtiad Torchog Bach yn ymweld ac yn gadael ddiwedd yr haf/hydref i dreulio'r gaeaf yn Affrica.<sup>29</sup> Mae'r Cwtiad Torchog Bach yn ychwanegiad cymharol ddiweddar i ffawna adarol bridio y Deyrnas Unedig, a chofnodwyd y bridio cyntaf mor ddiweddar â 1938.<sup>30</sup> Maent yn bridio ar lannau graeanog yn agos at ddŵr, gellir eu gweld ar hyd ochrau graeanog afonydd ond maent yn neilltuol o hoff o bydewau gro a chronfeydd dŵr a adeiladwyd.<sup>31</sup> Mae eu dosbarthiad yn fwy deheuol o fewn y Deyrnas Unedig, gyda'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr.<sup>30</sup> Mae'r Cwtiad Torchog Bach yn bwydo fel arfer ar bryfed ac infertebratau dyfriol.<sup>30</sup> Mae'r boblogaeth yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu ers eu cytrefu cyntaf ac wedi parhau'n eithaf cyson mewn blynyddoedd diweddar. Priodolwyd y llwyddiant hwn i gynnydd mewn cynefin nythu addas, gyda phyllau gro, cronfeydd dŵr a chwareli wedi eu creu ac, mewn rhai achosion, eu gadael gan roi lleoliadau delfrydol.<sup>32</sup>


**Rhagolygon:** Ystyriwyd bod y Cwtiad Torchog Bach yn ymwelydd prin iawn i'r Deyrnas Unedig yn ystod y 19eg ganrif.<sup>8</sup> Ni chafwyd y gofnod gyntaf o fridio yn y DU tan 1938.<sup>8</sup> Roedd bridio wedyn yn achlysurol am ychydig flynyddoedd. Fodd bynnag, cynyddodd y boblogaeth fridio gan 15% bob blwyddyn rhwng 1948 a 1962.<sup>8</sup> Priodolwyd y cytrefu a'r cynnydd hwn i ehangu adeiladu yn y Deyrnas Unedig yn ystod yr 20fed ganrif, a arweiniodd at gynnydd cyflym yn nifer y pyllau gro dan ddŵr ac amgylcheddadau gwneuthuredig eraill, tebyg i domennydd diwydiannol, ffermydd carthffosiaeth, cronfeydd dŵr a chwareli, gyda'r Cwtiad Torchog Bach wedi manteisio arnynt i gyd.<sup>8</sup> Erbyn 1972, amcangyfrifwyd fod 400 pâr yn y Deyrnas Unedig; erbyn 1991 roedd 825-1,070 pâr.<sup>8</sup> Mae'r amcangyfrif diweddaraf yn 2007 o boblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 1,250 pâr.<sup>9</sup> Dengys cyfeiriadau at dueddiadau BTO y bu cynnydd mawr rhwng 1940-1969, cynnydd cymedrol rhwng 1996-1995 a dim newid cyffredinol rhwng 1996-2020.<sup>32</sup>

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Cwtiad Torchog Bach yn 'uncommon passage migrant and scarce breeder'.<sup>10</sup> Yn 1977 cofnododd The Birds of Gwent ei fod yn 'uncommon passage migrant' gyda dim ond 16 cofnod blaenorol (13 ohonynt ers 1970) a rhagwelodd na fyddai'n hir cyn iddynt fridio yng Ngwent.<sup>33</sup> Cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod y Cwtiad Torchog Bach yn 'uncommon passage migrant and scarce summer visitor',<sup>34</sup> dengys hyn yn glir fod nifer y Cwtiad Torchog Bach wedi cynyddu a'i fod wedi sefydlu fel aderyn bridio yng Ngwent. Dengys y Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer 1981-1985 fod poblogaeth o 3 pâr yng Ngwent (gyda'r bridio cyntaf yn 1984);<sup>35</sup> mae'r ail atlas, ar gyfer 1998 – 2003, yn amcangyfrif


cyfanswm is o 8-12 pâr.<sup>33</sup> Mae hyn eto yn dangos y cynnydd yn y Cwtiad Torchog Bach yng Ngwent o'r 1970au ymlaen a'u sefydlu fel rhywogaeth bridio o'r 1980au ymlaen. Ymddengys fod peth amryfusedd am ble oedd nythod y parau cyntaf yng Ngwent, gyda sôn am lannau cronfa ddŵr wedi sychu<sup>35</sup> a glannau gro ar yr Afon Wysg<sup>34</sup>. Yr hyn sy'n glir yw, er bod safleoedd fel hyn yn dal i gael eu defnyddio, mai'r morlynnoedd yn Goldcliff (Gwlypdir Casnewydd) yw prif ganolbwynt gweithgaredd bridio yng Ngwent ar hyn o bryd. Caiff adar ymfudol eu cofnodi ar yr arfordir, yn bennaf Forlynnoedd Goldcliff, ond mae'n anodd gwahaniaethu ymfudwyr teithiol o'r boblogaeth fridio; byddai'n ymddangos mai cronfa ddŵr fewndirol Llandegfedd fyddai'r safle mwyaf dibynadwy ar gyfer ymfudwyr.

Y prif ganolfannau cofnodi yw Goldcliff (440 cofnod) a Llyn Rhaslas. Mae mannau llai yn Llandegfedd, ac ar hyd yr Afon Wysg. Mae hefyd ganolfannau ar ffiniau ardal yr astudiaeth yn Chwarel Ystrad a chronfa ddŵr Llysfaen (heb eu dangos).

*Dosbarthiad cofnodion y  
Cwtiad Torchog Bach  
(uchafswm  $\geq 100$  cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Cwtiad  
Torchog Bach yn ôl  
degawd*






**Patrymau cynefin:** Mae'r Cwtiad Torchog Bach yn bendant iawn yn aderyn sy'n gysylltiedig gyda glannau gro cyrff dŵr, felly mae rhai adrannau o'r Afon Wysg, cronfeydd dŵr ac yn arbennig y morlynnoedd yn Goldcliff yn safleoedd a ffafrir.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, dim ond yn gymharol ddiweddar mae'r Cwtiad Torchog Bach wedi cytrefu ac wedyn sefydlu poblogaethau ar draws rhannau mawr o'r Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol; adroddwyd y bridio cyntaf yn 1984 a nodwyd bridio bob blwyddyn ers hynny, gyda'r niferoedd yn cynyddu yn arbennig ers sefydlu Gwlypdir Casnewydd yn 1999. I raddau helaeth mae'r cynnydd hwn oherwydd y cynnydd mewn cynefinoedd bridio addas sydd ar gael. Mae cyfrifiadau WeBS yn y graff dilynol yn dangos yn glir y cynnydd ar ôl 1999, ac er bod niferoedd wedi amrywio o flwyddyn i flwyddyn, mae'r boblogaeth hon yn awr yn amlwg wedi sefydlu'n dda. Gyda'u gofynion bridio penodol iawn, mae niferoedd y Cwtiad Torchog Bach yn debyg o barhau'n gymharol isel yng Ngwent, fodd bynnag byddai ei ddyfodol hirdymor yn ymddangos yn gadarn, yn arbennig gyda'r lefelau gwarchodaeth a rheolaeth a roddir i'w cadarnle ym Morlynnoedd Goldcliff. I ffwrdd o Goldcliff, efallai y gellid hybu ymgais a llwyddiant bridio drwy geisio cadw ymyrraeth mewn safleoedd yn isel yn ystod y tymor bridio.


Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau blynyddol eu rhoi fel isafswm yn hytrach na chyfrif/amcangyfrif. Fe wnaeth y Cwtiad Torchog Bach ymddangos yng nghyfrifiadau WeBS mewn tri safle arall – Cronfa Ddŵr Llandegfedd, Llynnoedd Warrage a Phwll Peiriant – ond dim ond yn achlysurol ac fel arall un aderyn yn unig. Felly, mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren) yn hytrach nag yng Ngwent Fwyaf i gyd.

*Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer y Cwtiad Torchog Bach ar Aber yr Hafren<sup>13</sup>*



**Gwarchodaeth:** Daw 94% o'r cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o safleoedd amlwg Gwlypdir Casnewydd, Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Gwastadeddau Gwent a SSSI Llandegfedd. Roedd hefyd niferoedd mawr o Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) Pwll Rhaslas.

*Cofnodion y Cwtiad Torchog Bach o safleoedd a warchodir*



## Y Ganwraidd Goesgoch *Tringa totanus* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Oren (DU<sup>1</sup>) Coch (Cymru<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** Da (3,693 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Ganwraidd Goesgoch yn un o adar hirgoes mwyaf cyfarwydd a chyffredin y Deyrnas Unedig. Maent yn fwyaf cyffredin o ddigon fel adar gaeafu, ond maent hefyd yn pasio trwodd pan fyddant yn ymfudo, ac mae niferoedd rhesymol yn aros i fridio. Mae hyn yn golygu fod y



Andy Karran

Ganwraidd Goesgoch yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>3</sup> Mae'r Ganwraidd Goesgoch yn bridio mewn lleoedd llaith fel morfeydd heli, dolydd gorlifdir ac o amgylch llynnoedd.<sup>36</sup> Er eu bod wedi dosbarthu'n gymharol eang o amgylch y Deyrnas Unedig fel aderyn bridio, mae tueddiad gogleddol gyda'r niferoedd mwyaf mewn rhannau o'r Alban a gogledd orllewin Lloegr.<sup>36</sup> Caiff yr adar gaeafu eu hybu gan lawer o adar o ymhellach i'r gogledd, gyda nifer fawr yn cyrraedd o boblogaeth fridio Gwlad yr Iâ.<sup>37</sup> Mae diet y Ganwraidd Goesgoch yn newid gyda'r tymhorau a chynefin; maent yn bwyta infertebratau, yn arbennig fwydon a larfa pryfed teiliwr pan fyddant yn y mewndir a chramenogion, molysgiaid a mwydon morol mewn aberoedd,<sup>38</sup> gan wneud defnydd da o'u pigau hir. Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig bu gostyngiad o 60% mewn niferoedd bridio rhwng 1970 a 2017.<sup>5</sup> Ar y llaw arall, ni fu fawr o newid yn y boblogaeth gaeafu, gyda dim ond dirywiad bach iawn o 3% rhwng 1970 a 2017.<sup>5</sup> Mae'r gostyngiad mewn niferoedd bridio oherwydd nifer o ffactorau, gyda draeniad tir amaethyddol a gorburi ar forfeydd heli o arwyddocâd neilltuol.<sup>37</sup>

**Rhagolygon:** Bu gostyngiad yn y Ganwraidd Goesgoch yn hanner cyntaf y 19eg ganrif oherwydd mwy o drin a draeniad ar dir amaethyddol.<sup>8</sup> Fodd bynnag, newidiodd pethau a chynyddodd poblogaethau bridio yn ail hanner y 19eg ganrif ac i mewn i'r 20fed ganrif.<sup>8</sup> Byddai dirywiad pellach ar ôl 1940 fodd bynnag, a briodolwyd i fwy o golli cynefin. Amcangyfrifwyd fod poblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 22,000 pâr.<sup>9</sup> Mae hyn yn llai nag oedd yn hanesyddol gyda dirywiad yn digwydd oherwydd colli a dirywiad cynefinoedd gwlypdir drwy ddraeniad a gorburi. Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, a bu gostyngiad yn fwy diweddar: cwmp o 60% rhwng 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad gwan), gyda hyn yn llai difrifol yn fwy diweddar, gyda dirywiad arall o 4% rhwng 2012 a 2017.<sup>5</sup> Mae Arolwg Adar Bridio y BTO<sup>17</sup> yn darlunio'r dirywiad hwn ymhellach, gan ddangos gostyngiad o 42% rhwng 1995 a 2018 yn y Deyrnas Unedig. Yn fwyaf diweddar, bu rhai arwyddion o adferiad, gyda chynnydd o 14%<sup>17</sup> yn 2018–2019. Dim ond amser a ddengys os bydd hyn yn dechrau adferiad.


Mae'r boblogaeth gaeafu yn fwy (100,000)<sup>9</sup> ac wedi ei dosbarthu'n weddol wastad o amgylch arfordir y Deyrnas Unedig, gyda llawer o'r Ganwraidd Goesgoch sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig yn breswyl. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol yn cyrraedd, llawer ohonynt o boblogaeth Gwlad yr Iâ<sup>37</sup>, ac mae canran sylweddol ohonynt wedi crynhoi o fewn nifer cymharol fach o safleoedd a ffafir mewn aberoedd. Bu'r boblogaeth gaeafu yn fwy sefydlog na'r boblogaeth fridio, gyda gostyngiadau bach iawn yn unig: gostyngiad o 1% rhwng 1978 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel fawr o newid), gyda hyn yn dal i

fod yn wir mewn blynyddoedd mwy diweddar, gyda chynnydd bach o 3% wedi ei nodi yn 2012–2017.<sup>5</sup> Gallai'r patrwm hwn fod yn fwy cymhleth, serch hynny, gan bod data'r BTO yn awgrymu cynnydd o'r 1970au ond dirywiad o 2001 sydd wedi arafu neu wrthdroi yn y blynyddoedd mwyaf diweddar.<sup>37</sup>


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod y Ganwraidd Goesgoch yn 'common winter visitor and passage migrant, uncommon breeder'.<sup>10</sup> Byddai'n deg dweud y bu hyn yn wir ers cryn amser, er fod ei niferoedd efallai wedi gostwng dros gyfnod: cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod y Ganwraidd Goesgoch yn "breeds in small numbers, mainly on the coast. Also a passage migrant and winter visitor in moderate numbers";<sup>39</sup> yn 1977 fe'i galwodd yn 'breeding resident in moderate numbers; passage migrant and winter visitor in larger numbers'.<sup>40</sup> Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer 1981–1985 fod poblogaeth o 40-50 pâr yng Gwent,<sup>41</sup> gyda'r ail atlas, ar gyfer 1998-2003, yn amcangyfrif cyfanswm is o 15-30 pâr.<sup>39</sup> Mae hyn yn awgrymu dirywiad mewn poblogaeth. Mae bridio yng Ngwent wedi ei gyfyngu bron yn llwyr i'r arfordir, gyda phoblogaethau mewndirol blaenorol ger yr Afon Wysg a'r Olway yn bennaf wedi eu colli oherwydd dwysau amaethyddol.<sup>39</sup> Mae poblogaethau at y tir uchel bob amser wedi ymddangos yn brin yng Ngwent, er fod parau wedi bridio yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn y gorffennol.<sup>39</sup> Ar adegau eraill o'r flwyddyn, nodwyd fod Aber yr Hafren yn bwysig iawn i'r Ganwraidd Goesgoch; mae o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer y Ganwraidd Goesgoch sy'n gaeafu ac o bwysigrwydd cenedlaethol pan fyddant yn ymfudo (yn yr hydref).<sup>42</sup> Yn y mewndir yng Ngwent, mae'r Ganwraidd Goesgoch yn flynyddol ond dim ond mewn niferoedd bach.<sup>39</sup> Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Ganwraidd Groesgoch yn rhan bwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren dros y gaeaf; mae niferoedd yn ymddangos yn weddol sefydlog, ac mae hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol.

Y prif ganolfannau cofnodi yw Llanbedr Gwynllŵg (1,272 cofnod) a Goldcliff. Mae hefyd ganolfannau yn Nant Nedern, Pil Collister, Pil Cil-y-coed, the Moorings a Chei Mâwr Rhymni. Ymddengys fod y ganolfan yn Swydd Gaerloyw yn anghywir oherwydd canoli nifer isel o gofnodion.

*Dosbarthiadau cofnodion y  
Ganwraidd Goesgoch ar  
draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm  $\geq 100$  cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Ganwraidd  
Goesgoch yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae'r Ganwraidd Goesgoch yn bendant iawn yn aderyn arfordir Aber yr Hafren, gyda niferoedd sylweddol yno yn ystod y gaeaf a phoblogaethau bridio bach mewn ychydig o ardaloedd ar y Gwastadeddau sy'n union gerllaw.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae poblogaeth aeafu y Deyrnas Unedig yn fras sefydlog er yn amrywio i ryw raddau. Mae hyn hefyd yn wir o fewn Gwent, ac mae ein poblogaethau ymfudol yn ystod y gaeaf yn gadarn. Er hyn, mae'n bwysig monitro'r poblogaethau drwy astudiaethau parhaus o dueddiadau yn bwysig, fel y medrir cymryd camau gweithredu posibl. Byddai angen craffu yn agos ar effeithiau posibl argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren ar boblogaethau y Ganwraidd Goesgoch sy'n gaeafu, ynaglŷn ag adar hirgoes ac adar dŵr eraill, yn ofalus.<sup>43</sup>


Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau eu rhoi fel isafrif yn hytrach na chyfrifiad/amcangyfrif. Felly mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth yn y safleoedd mwyaf niferus a gofnodwyd (Aber yr Hafren a Nant Nedern) yn hytrach na Gwent Fwyaf i gyd.

*Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer y Ganwraidd Goesgoch ar Aber yr Hafren<sup>13</sup>*



Mae gan Nant Nedern ddata parhaus ers 2012/13 yn ogystal â rhai cyfrifiadau gwasgaredig yn y 1990au. Er nad yw'n set data digon hir mewn gwirionedd i benderfynu tueddiad, mae'n dangos arwyddocâd y safle ar gyfer y Ganwraidd Goesgoch yn ogystal â'r amrywiad rhwng tymhorau.


### Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer y Ganwraidd Goesgoch yn Nant Nedern<sup>13</sup>



Ymddengys fod niferoedd bridio y Ganwraidd Groesgoch wedi sefydlogi o fewn Gwent, gyda Morlynnoedd Goldcliff yn awr y canolbwynt. Pe byddai niferoedd yn codi o fewn Gwent, byddai newid angen rheolaeth o fewn safleoedd a allai fod yn addas. Byddai angen gostyngiadau mewn pori, adfer caeau â'r ac ailwlychu cynefinoedd mewn safleoedd blaenorol yn y mewndir yn agos at yr Wysg a'r Olway. Mae hefyd botensial ar gyfer mwy o barau ar Wastatiroedd Gwent, ond byddai angen newid cadarn mewn rheolaidd ar gyfer hyn, gyda llai o bori.

**Gwarchodaeth:** Daw 97% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o Wlypdir Casnewydd ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol arbennig (SSSI) Nant Nedern. Daw cofnodion Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) o Barc St Julian a Llynnoedd Garn.

### Cofnodion y Ganwraidd Groesgoch o safleoedd a warchodir





## Cwtiad Torchog *Charadrius hiaticula* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chadwraeth (1981 fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>1</sup> a Cymru<sup>2</sup>), wedi symud yn ddiweddar o Oren i Goch ar y ddwy restr.

**Data ar gael:** Da (1,268 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Cwtiad Torchog yn un o'r adar hirgoes mwy cyffredin a chyfarwydd yn y Deyrnas Unedig. Mae'n fwy cyffredin fel aderyn gaeafu, ond mae hefyd yn pasio trwodd ar ymfudiad, ac mae nifer lai yn aros i fridio gyda rhai adar yn

breswyl drwy'r flwyddyn.<sup>44</sup> Mae hyn yn golygu fod y Cwtiad Torchog yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>3</sup> Mae'r Cwtiad Torchog sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig wedi eu dosbarthu'n eang o amgylch yr arfordir, gyda chofnodion pellach mewn safleoedd mewndirol tebyg i byllau gro a hen safleoedd diwydiannol.<sup>44,5</sup> Mae'r adar ymfudol yn bridio mewn ardaloedd fel Ynys Las,<sup>44</sup> gan aeafu yn llawer pellach i'r de, cyn belled ag Affrica. Mae'r boblogaeth aeafu sylweddol yn cynnwys adar sy'n bridio ar dir mawr Ewrop.<sup>44</sup> Mae'r boblogaeth hon o arwyddocâd cadwraeth neilltuoel ar gyfer y Deyrnas Unedig, gan ei fod yn ffurfio canran sylweddol o rywogaeth neilltuoel *hiaticula*. Mae'r Cwtiad Torchog yn bwydo'n bennaf ar infertebratau ym misoedd yr haf a mwydon morol, cremannod a molysgiaid yn y gaeaf.<sup>38</sup> Yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig bu gostyngiad o 36% mewn adar gaeafu rhwng 1970 a 2017.<sup>5</sup> Gall y gostyngiad mewn niferoedd fod oherwydd nifer o ffactorau; y ffactor pwysicaf yw fod newid hinsawdd yn arwain at dymheredd uwch yn y gaeaf sy'n golygu mai ychydig o adar gaiff eu pwthio mor bell â hyn i'r gorllewin – cafodd hyn ei feio am ostyngiadau mewn ystod cyfan o adar hirgoes gaeafu gyda'r Cwtiad Torchog yn un ohonynt.<sup>43</sup> Mae'r boblogaeth fridio hefyd wedi gostwng gyda ysglyfaethu gan ddraenogod mewn cadarnleoedd ar ynysoedd<sup>37</sup> ac ymyrraeth ddynol<sup>45,37</sup> yn ddau o'r achosion a awgrymwyd.

**Rhagolygon:** Ar ddiwedd y 19eg ganrif, roedd y Cwtogiad Torchog yn magu ar arfordir fwy neu lai bob sir ym Mhrydain; yn ddi-ddorol, roedd arfordir Sir Fynwy yn eithriad amlwg.<sup>8</sup> Nodwyd y bu dirywiad eang rhwng y ddau Ryfel Byd, gyda mwy o darfu oherwydd cynnydd mewn defnydd hamdden a datblygu'r arfordir gyda, er enghraifft, feysydd carafanau ac amddiffynfeydd môr.<sup>8</sup> Amcangyfrifir fod poblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 2007 yn 5,450 pâr.<sup>9</sup> Nododd arolygon y BTO y bu cynnydd mewn poblogaethau bridio rhwng 1974 a 1984, a yrrwyd gan gynnydd mewn safleoedd mewndirol.<sup>37</sup> Ar ôl hyn, fodd bynnag, bu gostyngiad o 37% yn y boblogaeth fridio rhwng 1984 a 2007, gyda ysglyfaethu gan ddraenogod ar gadarnleoedd yn Ynysoedd Heledd a mwy o darfu cyffredinol. Roedd y colledion mwyaf mewn safleoedd mewndirol, er y bu cynnydd mewn safleoedd ar ddolydd gwlyb.<sup>37</sup> Yn wahanol i'r boblogaeth fridio gymharol fach, mae'r boblogaeth gaeafu yn llawer mwy (42,500 yn 2016) ond bu cwmp amlwg ynddi: gostyngiad o 36% rhwng 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel newid bach, ond a fyddai'n ymddangos yn weddol sylweddol), ac ymddengys i hyn sefydlogi'n ddiweddar gyda gostyngiad o 3% yn 2012–2017.<sup>5</sup> Cafodd y boblogaeth aeafu ei dosbarthu'n eang o amgylch arfordir y Deyrnas Unedig, gyda llawer o Gwtiad Torchog bridio y Deyrnas Unedig yn breswyl. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol yn ymweld ac mae canran sylweddol o'r rhain wedi




Andy Karran

crynhoi o fewn nifer cymharol fach o safleoedd a ffafrir.


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn nodi fod y Cwtiad Torchog yn 'fairly common passage migrant; scarce breeder; uncommon in winter'.<sup>10</sup> Bu hyn yn wir ers cryn amser, gyda'r nifer gaeafu yn gostwng i ryw raddau dros gyfnod. Cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod y Cwtiad Torchog yn 'mainly a passage migrant but some birds stay through the year. Has bred sporadically, becoming regular in recent years';<sup>46</sup> yn 1977, fe'i galwodd yn 'predominantly a passage migrant with a small wintering population and an occasional breeding pair'.<sup>33</sup> Nid yw'r boblogaeth fridio fach yn fawr o syndod, gan fod arfordir Gwent yn brin o'r traethau tywod/gro sydd yn hoff gynefin bridio iddynt.<sup>46</sup> Ar adegau eraill fodd bynnag, dywedwyd fod Aber yr Hafren yn bwysig iawn ar gyfer y Cwtiad Torchog wrth aeafu a hefyd wrth ymfudo (yn cynnwys ymfudo yn yr hydref).<sup>42</sup> Yn y mewndir yng Ngwent, mae'r Cwtiad Torchog yn flynyddol ond dim ond mewn niferoedd bach, gyda Chronfa Ddŵr Llandegfedd y safle gorau.<sup>46</sup> Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cwtiad Torchog yn rhan bwysig o ffawna adarol Aber yr Hafren dros y gaeaf, er fod niferoedd wedi gostwng. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol ac mae'n debyg o fod am resymau tebyg, gyda'r mwyaf arwyddocaol ohonynt bod adar yn gaeafu ymhellach i'r dwyrain fel ymateb i aeafau cyffredinol fwynach.<sup>46</sup> Ni fu'r Cwtiad Torchog yn gyffredin mewn unrhyw fodd a hyd yn oed yn ddiweddar nid oedd erioed yn rheolaidd fel rhywogaeth bridio yng Ngwent. Yn wir, fel y nodwyd yn flaenorol, ar ddiwedd y 19eg ganrif, nodwyd bod arfordir Sir Fynwy yr unig ddarn o'r arfordir ym Mhrydain yn lle nad oedd y Cwtiad Torchog yn bridio.<sup>3</sup> Hyd at ffurfio Gwlypdir Casnewydd yn 1999, dim ond saith cofnod bridio a fu ar gyfer Gwent,<sup>46</sup> cânt yn awr eu cofnodi'n flynyddol mewn niferoedd bach, gyda Morlynnoedd Goldcliff yn ganolbwynt. Mae'n debyg y bydd y Cwtiad Torchog yn parhau i fridio yng Ngwlypdir Casnewydd, ond gyda llawer o weddill arfordir Gwent yn gyffredinol anaddas, bydd niferoedd yn parhau'n isel.

Y prif ganolbwynt yw Goldcliff (540 cofnod). Mae hefyd nifer sylweddol yn Llanbedr Gwynllŵg, Llyn Rhaslas a Chei Mawr Rhymni. Mae'r canolbwynt yn Swydd Gaerloyw yn debyg o fod yn un anghywir oherwydd canoli cofnodion gyda niferoedd isel.

*Dosbarthiad cofnodion y  
Cwtiad Torchog ar draws  
Gwent Fwyaf (uchafswm  
≥100 cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Cwtiad  
Torchog yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae'r Cwtiad Torchog yn bendant iawn yn aderyn arfordir Aber yr Hafren, gyda nifer fach yn y mewndir mewn cyrff dŵr tebyg i Gronfa Ddŵr Llandegfedd.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiadau amlwg ym mhoblogaethau gaeafu y Cwtiad Torchog o fewn y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda gostyngiadau amlwg yn yr adar sy'n gaeafu. Caiff y gostyngiadau hyn eu gyrru'n bennaf gan aeafau cyffredinol fwynach yn galluogi nifer fwy i aeafu ymhellach i'r dwyrain. Byddai'n ymddangos fod y boblogaeth Cwtiad Torchog sy'n gaeafu yng Ngwent yn ddiogel ar hyn o bryd ac yn dal i fod o arwyddocâd cenedlaethol fel rhan o boblogaeth gyffredinol Aber yr Hafren. Er hyn, mae astudiaethau cyfredol o dueddiadau yn dal yn bwysig, er mai ychydig fedrid ei wneud yn nhermau cadwraeth leol i ddylanwadu ar y gostyngiadau a achosir gan adar yn gaeafu ymhellach i'r dwyrain. Byddai angen craffu'n ofalus ar effeithiau posibl argloddiau, morlynnoedd a phŵer llanw yr Hafren ar boblogaeth gaeafu'r Cwtiad Torchog ac adar hirgoes ac adar dŵr eraill.<sup>43</sup>

Dylid nodi y caiff rhai cyfrifiadau blynyddol eu rhoi fel isafrif yn hytrach nag fel cyfrif/amcangyfrif. Felly, mae hyn yn cynrychioli'r boblogaeth yn y safle mwyaf niferus a gofnodwyd yn hytrach nag yng Ngwent Fwyaf i gyd. Yn yr achos hwn, mae'r cyfrif yn cyfeirio'n unig at Aber yr Hafren. Gellir gweld gostyngiad clir yn y niferoedd drwy gydol diwedd y 1970au i'r 1980au.


*Cyfrifiadau Brig Gaeaf WeBS ar gyfer y Cwtiad Torchog ar Aber yr Hafren<sup>13</sup>*



Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n annhebyg y bydd y Cwtiad Torchog byth yn ddim mwy nag aderyn bridio anghyffredin yng Ngwent, gan fod llawer o'r arfordir yn anaddas. Dylai rheolaeth barhaus y morlynnoedd yn Goldcliff eu cadw fel rhywogaeth fridio reolaidd.

**Gwarchodaeth:** Daw 95% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer fawr o gofnodion o safleoedd a warchodir ar yr arfordir, yn arbennig Wlypdir Casnewydd a Gwastadeddau Gwent. Mae hefyd lawer o gofnodion o Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) Llandegfedd a rhai cofnodion Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o Lyn Rhaslas.

*Cofnodion Cwtiad Torchog o safleoedd a warchodir*



## Cyfeiriadau

1. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
2. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13(1): 3–31.
3. Pearce-Higgins JW a Crick HQP. 2019. One-Third of English Breeding Bird Species Show Evidence of Population Responses to Climatic Variables over 50 years. *Bird Study* 66(2): 159–172, DOI: 10.1080/00063657.2019.1630360
4. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/black-tailed-godwit/>
5. DEFRA. 2019. Wild Bird Populations in the UK 1970–2018, 40.
6. <https://archive.uea.ac.uk/~b026515/icelandic.html>.
7. <https://projectgodwit.org.uk/black-tailed-godwits>
8. Holloway S. 1996. *The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900*. Poyser, Llundain
9. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/apep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
10. Gwent Bird Report 2018.
11. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 175.
12. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 92.
13. Data Arolwg Adar Gwlypdiroedd (WeBS) o Waterbirds in the UK 2018/19 © hawlfraint a hawl cronfa ddata 2020. Mae WeBS yn bartneriaeth a gaiff ei chyd-ariannu gan y BTO, RSPB a JNCC, mewn cysylltiad â WWT, gyda gwaith maes gan wirfoddolwyr.
14. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/common-sandpiper/>
15. <https://app.bto.org/birdfacts/results/bob5560.htm>
16. <https://www.birdguides.com/news/common-sandpiper-wintering-grounds-established/>
17. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>
18. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 188–190.
19. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 93.
20. Tyler S et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 59.
21. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/natures-home-magazine/birds-and-wildlife-articles/migration/migratory-bird-stories/dunlin-migration>
22. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/dunlin/>
23. <https://app.bto.org/birdfacts/results/bob5120.htm>
24. Goss-Custard JD, a Moser ME. 1988. Rates of Change in the Numbers of Dunlin, *Calidris Alpina*, Wintering in British Estuaries in Relation to the Spread of *Spartina Anglica*. *Journal of Applied Ecology* 25 (1): 95–109: [www.jstor.org/stable/2403612](http://www.jstor.org/stable/2403612). (Cyrchwyd 24/11/2021).
25. <http://www.cheshireandwirralbirdatlas.org/species/dunlin-wintering.htm>
26. [https://www.dartmoor.gov.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0021/78222/Dunlin-Delivery-Plan.pdf](https://www.dartmoor.gov.uk/_data/assets/pdf_file/0021/78222/Dunlin-Delivery-Plan.pdf)
27. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 166.
28. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 96–97.

29. <https://www.birdwords.co.uk/bird-factsheets/little-ringed-plover-charadrius-dubius/>
30. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/little-ringed-plover/>
31. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/wading-birds/little-ringed-plover>
32. Robinson, R.A. (2005) BirdFacts: profiles of birds occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (cyrchwyd ar 7 Rhagfyr 2020).
33. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 88.
34. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 152–153.
35. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 50.
36. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/redshank/>
37. Massimino D, Woodward ID, Hammond MJ, Harris SJ, Leech DI, Noble DG, Walker RH, Barimore C, Dadam D, Eglinton SM, Marchant JH, Sullivan MJP, Baillie SR a Robinson RA. 2017. Bird Trends 2017: Trends in Numbers, Breeding Success and Survival for UK Breeding Research Report 704. BTO, Thetford: [www.bto.org/birdtrends](http://www.bto.org/birdtrends)
38. Robinson RA. 2005. Bird Facts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (accessed 04/12/2020).
39. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 182–184.
40. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 93–94.
41. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 58.
42. Cyfeiriad SPA Aber yr Hafren: <http://publications.naturalengland.org.uk/publication/5601088380076032>
43. Musgrove AJ, Rehfisch MM, Clark NA (BTO). 2010. Birds of the Severn Estuary and Bristol Channel: Their Current Status and Key Environmental Issues. Marine Pollution Bulletin 61: 115–123.
44. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/ringed-plover/>
45. Liley D a Sutherland WJ. 2007. Predicting the Population Consequences of Human Disturbance for Ringed Plovers *Charadrius hiaticula*: A Game Theory Approach. Ibis 149 (S1): 82–94.
46. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 153–154.



## Adar coetir

### Pinc y Mynydd *Fringilla montifringilla* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd) Atodlen 1

**Statws cadwraeth:** Oren (roedd yn Wyrdd) (Cymru<sup>1</sup>) Gwyrdd (DU<sup>2</sup>)

**Data ar gael:** 791 (Da)

**Cyd-destun:** Mae Pinc y Mynydd i'w cael yn eang o fewn y Deyrnas Unedig fel rhywogaeth gaeafu, ond maent yn anghyfarwydd i lawer o bobl gan nad ydynt yn mynd i erddi hanner mor aml â'u cefnder agos y Ji-binc. Maent yn llawer mwy cyffredin fel adar



Andy Karran


gaeafu, hefyd mae nifer dda yn pasio trwodd wrth ymfudo, a dim ond yn anaml iawn y maent yn bridio. Mae hyn yn golygu fod Pinc y Mynydd yn fregus i newidiadau yng nghyfeirioedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>3</sup> Maent yn un o lawer o rywogaethau pincod y caiff eu niferoedd eu hybu yn y gaeaf yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, maent yn wahanol i'r rhan fwyaf gan mai ychydig iawn, os unrhyw rai, sy'n aros i fridio. Mae'r boblogaeth aeafu fawr yn cyrraedd o ymhellach i'r gogledd, yn Fennoscandia.<sup>4</sup> Mae Pinc y Mynydd yn bwyta hadau ac aeron, ac yn neilltuoel o hoff o fast Ffawydd; yn ystod y tymor bridio, mae eu diet yn newid i infertebratau.<sup>5</sup> Mae nifer Pinc y Mynydd sy'n gaeafu yn y Deyrnas Unedig yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yng nghyswllt cnwd mast Ffawydd ar y cyfandir a pha mor ddifrifol yw'r gaeaf.<sup>6</sup> Mae poblogaethau bridio bob amser wedi bod yn isel iawn, heb ddim wedi'u cadarnhau mewn llawer o flynyddoedd a bron yr holl gofnodion o'r Alban.<sup>7</sup> Adroddwyd mai 0-1 pâr oedd poblogaeth fridio bresennol y Deyrnas Unedig yn y cyfnod 2013–2017.<sup>8</sup>

**Rhagolygon:** Bu Pinc y Mynydd bob amser yn aderyn bridio prin iawn yn y Deyrnas Unedig. Ni chadarnhawyd y gofnod gyntaf tan 1920, a dim ond mewn niferoedd bach iawn y cawsant eu bridio yn afreolaidd ers hynny.<sup>9</sup> Yn wahanol i'r boblogaeth fridio fach iawn, afreolaidd a lleol, mae'r boblogaeth aeafu yn sylweddol fwy (45,000–1,800,000 yn 1981–84).<sup>10</sup> Mae'r niferoedd a nodir dros gwmpas mawr gan fod amrywiaeth enfawr yn y niferoedd o un flwyddyn i'r llall am y rhesymau a amlinellir uchod. Efallai oherwydd yr amrywiadau enfawr o flwyddyn i flwyddyn, mae'n anodd canfod unrhyw ddata tueddiad poblogaeth gaeafu ar gyfer y Deyrnas Unedig, ond nodwyd y bu gostyngiad cymedrol yn y boblogaeth gaeafu yn Ewrop rhwng 1980 a 2013.<sup>11</sup> Roedd Pinc y Mynydd yn y rhestr Oren wreiddiol Adar o Bryder Cadwraeth yn y Deyrnas Unedig, ond buont ar y rhestr Werdd mewn tair rhestr ers hynny, sy'n dangos nad oes unrhyw bryderon cyfredol am boblogaeth y Deyrnas Unedig.<sup>8</sup> Dylid nodi eu bod wedi symud o Wyrdd i Oren ar y rhestr ddiweddar o Adar o Bryder Cadwraeth yng Nghymru<sup>1</sup> oherwydd eu pwysigrwydd Ewropeaidd, fel a gydnabyddir ar y Rhestr Goch o Adar Ewropeaidd, er bod hynny fel rhywogaeth o leiaf o bryder. Mae The State of Birds in Wales yn 2018 yn nodi arwyddocâd arbennig poblogaeth Pinc y Mynydd Cymru yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig, gyda 33% o boblogaeth aeafu y Deyrnas Unedig yng Nghymru.<sup>12</sup>


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod Pinc y Mynydd yn 'fairly common winter visitor and passage migrant'.<sup>13</sup> Bu hyn yn wir ers cryn amser, gyda The Birds of Gwent yn nodi fod Pinc y Mynydd yn 'fairly common but local winter visitor and passage migrant'<sup>14</sup> yn 2008 ac yn 'regular winter visitor, usually in small numbers. Once it was considered rare, appearing only in hard weather' in 1977.<sup>15</sup> Fodd bynnag, cyn y 1970au, byddai'n ymddangos fod Pinc y Mynydd yn aderyn mwy prin a mwy afreolaidd. Gall Pinc y Mynydd ymddangos ledled Gwent, gyda chofnodion ymfudo yn yr arfordir a nifer fach yn ymweld â gerddi. Fodd bynnag, caiff yr heidiau mwyaf eu cysylltu fel arfer gyda choetiroedd, yn arbennig lle mae ffawydd ar gael.

Y prif ganolfannau ar gyfer cofnodion yw Llanbedr Gwynllŵg (man poblogaidd iawn ar gyfer adar ymfudol/adara), Fforest Ganol (yn y parth clustog, ger Caerdydd) Llanddingad, Gwlypdir Casnewydd, Coed Gwent. Mae hefyd ganolfannau anghywir ar hyd terfyn Swydd Gaerloyw, ond mae'n debyg y gwelwyd nifer fawr o adar o Fforest y Ddena a Tidenham Chase.

*Dosbarthiad cofnodion Pinc y  
Mynydd ar draws Gwent  
Fwyaf (uchafswm 86  
cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Pinc y Mynydd yn ôl  
degawd*




**Patrymau cynefin:** Y safleoedd gorau yng Ngwent yw coetiroedd, yn neilltuol goed ffawydd. Gellir hefyd ganfod Pinc y Mynydd mewn caeau sofr ac, yn arbennig yn y gaeaf, mewn gerddi.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae nifer Pinc y Mynydd sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig bob blwyddyn yn amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, a gaiff ei yrru'n bennaf gan faint y cnwd mast ffawydd yn ne Llychlyn (os oes hyn yn fawr yna mae angen i lawer llai o adar ymfudo i'r Deyrnas Unedig). Yn ôl The Birds of Gwent 2008, 'this fluctuation occurs in microcosm within Gwent with maximum annual flock sizes ranging from three individuals to five hundred'.<sup>14</sup>

Gall fod yn anodd amcangyfrif tueddiadau poblogaeth Pinc y Mynydd yn fanwl gywir yng Ngwent oherwydd amrywiadau naturiol fawr yn y boblogaeth. Ymddengys yn hollol bosibl y gall niferoedd fod wedi gostwng i raddau, gan adlewyrchu gostyngiadau cymedrol yn y poblogaethau bridio Ewropeaidd.<sup>11</sup> Awgrymodd The Birds of Gwent 2008 hefyd 'with a milder climate due to global warming occurring in Northern Europe, good Beechmast crops may be produced more regularly in Scandinavia, causing British numbers to decrease as birds are able to find food further north'. Ychydig y gall ymdrechion cadwraeth yng Ngwent ei wneud i ddylanwadu'n uniongyrchol ar hyn ond gellir gwneud gwaith i sicrhau y caiff ein coetiroedd, yn arbennig ein coed ffawydd, eu cadw mewn cyflwr da yn yr hirdymor. Byddai cadw caeau sofr chwynog ar tir amaethyddol lle'n bosibl hefyd o fudd i, ynghyd â llu o adar tir amaethyddol eraill sy'n bwyta hadau, gyda dirywiad mewn llawer ohonynt.

**Gwarchodaeth:** Daw 48% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer fawr o gofnodion o'r dilynol. Daw cofnodion SAC o gofnodion anghywir yn yr Hafren, ynghyd ag ychydig ar hyd mur y môr. Mae cofnodion Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) o Wlypdir Casnewydd, cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Wastatiroedd Gwent, Cwm Tawel, Nant Nedern a Dolydd Brockwells. Mae cofnodion Gwarchodfa Natur Leol (LNR) o Barc St Julian, The Moorings a Chwm Tawel. Caiff cofnodion SINC eu gwasgaru ar draws safleoedd niferus, yn cynnwys Coed Gwent, Rhiw Begwn, Comin Rhydri, Treowen, ucheldir Torfaen tebyg i Blaenserchan a The British.

*Cofnodion Pinc y Mynydd o safleoedd a warchodir*



## Gylfinbraff *Coccothraustes coccothraustes* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chadwraeth (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>2</sup>) Oren (Cymru<sup>1</sup>)  
Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

**Data ar gael:** Gwael (362 cofnod)

**Cyd-destun:** Y Gylfinbraff yw pinc mwyaf y Deyrnas Unedig, ond mae'n aderyn swil, anodd ei weld ac felly mae'n rhwydd peidio sylwi arno.<sup>16</sup> Mae'n bennaf yn aderyn preswyl a sefydlog, er y nodwyd

peth ymfudo eithaf cyfyngedig.<sup>17</sup> Roedd y llif o adar a gyrhaeddodd yng gaeaf 2017/18 yn ddigynsail ac yn hollol eithriadol.<sup>18</sup> Mae gan y Gylfinbraff big eithriadol o gryf, y mae'n ei defnyddio i agor gwahanol hadau, yn cynnwys cerrig ceirios. Mae ei ddsbarthiad wedi ei gysylltu gydag ardaloedd lle mae nifer dda o'i hoff goed, tebyg i Goed Ceirios a'r Oestrwydden. Mae ei ddiety yn amrywio yn ystod y flwyddyn, gydag infertebratau yn bwysig iawn yn y tymor bridio.<sup>19</sup> Yn y Deyrnas Unedig, mae gan fwyafrif y boblogaeth yn awr ddsbarthiad mwy gorllewinol, gyda phedwar prif cadarnle yn Fforest y Ddena/Dyffryn Gwy, y New Forest, Gogledd Cymru a Cumbria.<sup>20</sup> Gall colli Llwyfen Lloegr yn nwyrain Prydain (yn y 1970au) fod wedi cyfrannu at ostyngiadau yn y dwyrain. Mae ddsbarthiad mwy gorllewinol y Llwyfan Lydanddail yn sicrhau bod bwyd ar gael ar ddiwedd y gaeaf (pan fo ffynonellau eraill o hadau wedi dod i ben). Mae'r cwmpas yn nifer a chwmpas y Gylfinbraff yn achos pryder, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod pam y digwyddodd hyn, gydag ysglyfaethu ac argaeledd bwyd ar ddiwedd y gaeaf yn cael ei ymchwilio.<sup>21</sup>

**Rhagolygon:** Mae gan y Gylfinbraff hanes diddorol yn y Deyrnas Unedig. Nid oedd yn hysbys iddo fridio yn y Deyrnas Unedig tan ddechrau'r 19eg ganrif, ac er ei fod yn rhywogaeth rhwydd peidio sylwi arno, bydda'n ymddangos fod ei absenoldeb yn un gwirioneddol.<sup>9</sup> Dechreuodd nythu yn wreiddiol yn ne-ddwyrain Lloegr o 1835, ac ehangodd ei niferoedd yn gyflym i'r 20fed ganrif nes iddo gytrefu yn y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr a chyrraedd yr Alban.<sup>9</sup> Credir fod y cynnydd mewn cyflenwadau bwyd drwy blannu perllannau helaeth, y cynnydd mewn gerddi maestrefol a'r warchodaeth gyfreithiol a roddwyd yn y 1880au i gyd vc wedi cynorthwyo'r ehangiad hwn.<sup>9</sup>

Fodd bynnag, mewn blynyddoedd diweddar mae'r boblogaeth wedi gostwng yn gyflym (mewn nifer a chwmpas), fel ei fod yn awr yn rhy brin i gael ei gynnwys mewn cynlluniau monitro blynyddol cenedlaethol.<sup>22</sup> Cyhoeddwyd atlasau o adar bridio yn 1976, 1993 a 2013 yn dangos gostyngiad o 76% yn y nifer o sgwariau 10km a ddefnyddiwyd rhwng 1976 a 2013, gyda'r rhan fwyaf o hyn yn digwydd rhwng 1993 a 2013.<sup>22</sup> Fel yr amlinellir uchod, mae'r Gylfinbraff bellach wedi ei gyfyngu i nifer fach o leoliadau daeryddol, gan fod yn bresennol mewn dim ond 4% o'r sgwariau 10km.<sup>22</sup> Mae'r boblogaeth fridio bresennol (2011) yn 500-1,000 pâr.<sup>10</sup> Mae'r Birds in Wales newydd (sy'n cael ei baratoi yn awgrymu nad oedd y gostyngiad o tua 40% yn y boblogaeth fridio ym Mhrydain rhwng canol y 1980au a diwedd y 1990au yn amlwg yng Nghymru, ond bod y nifer uwch a gofnodir yng Nghymru yn awr oherwydd monitro agos yn hytrach na chynnydd yn y boblogaeth.




Andy Karran

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod y Gyfinbraff yn 'uncommon breeding resident and very rare passage migrant'.<sup>13</sup> Bu hyn yn wir yng Ngwent ers cryn amser, gan ei fod yn un o'r ychydig leoedd yn y Deyrnas Unedig sydd wedi cadw ei boblogaeth Gyfinbraff (fel rhan o gadarnle Fforest y Ddena/Dyffryn Gwy). Cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod y Gyfinbraff yn 'an uncommon and local resident' a dywedodd fod y Gyfinbraff yn 'a very local breeding resident in small numbers' a'i fod yn 'one of the least known and possibly under-recorded of Welsh birds. Most Welsh breeding records come from Wales'.<sup>23</sup> Yn 1977, nododd Birds of Gwent fod y Gyfinbraff yn 'very local breeding resident in small numbers'.<sup>24</sup> Byddai hyn yn awgrymu fod y niferoedd wedi parhau'n gymharol debyg dros y cyfnod hwn ac yn wir yn dros gyfnod hirach, gyda Birds of Monmouthshire yn 1937 a hefyd 1963 yn dweud ei fod yn 'somewhat local resident breeding species found in the central and southern portions of the county'.<sup>23</sup> Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer cyfnod 1981-1985 fod poblogaeth o 50-100 pâr yng Nghymru,<sup>25</sup> gyda'r ail atlas, ar gyfer 1998-2003, yn amcangyfrif 30-pâr ond yn tanlinellu ei fod yn debyg o fod yn nes at ben isaf hyn, sydd efallai'n dangos rhyw ostyngiad mewn niferoedd.<sup>23</sup> Fodd bynnag, mae astudiaethau modrwyo mwy diweddar yn Fforest y Ddena/Dyffryn Gwy yn awgrymu fod yr amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Swydd Gaerloyw a hefyd ar gyfer Gwent (yn seiliedig ar ddefnydd tetrad) yn rhy isel gan y cafodd mwy na 100 o adar mewn oed eu dal yn y tymor bridio yn flynyddol ers 2010. Mae dadansoddiad o gyfraddau ail-ddal a goroesi yn awgrymu fod poblogaeth o 650 pâr yn Fforest y Ddena/Dyffryn Gwy,<sup>28</sup> gyda tua 250-300 ohonynt yng Ngwent.


Y brif ganolfan gofnodi yw Fforest Ganol (sydd ychydig tu allan i Gwent Fwyaf). Mae canolfannau llai ym Mhenallt, Coed Slade/Minnetts a Gwern Ddu. Nid yw'r Gyfinbraff yn rhywogaeth cyffredin, ond maent yn ddi-os yn cael eu hanghofio oherwydd eu harferion dirgelaidd. Mae'r boblogaeth yn ymestyn i Swydd Gaerloyw/Fforest y Ddena.



*Dosbarthiad cofnodion y  
Gylfinbraff ar draws Gwent  
Fwyaf (uchafswm 155)*



*Cofnodion y Gylfinbraff  
yn ôl degawd*






**Patrymau cynefin:** Mae'r Gylfinbraff yn bendant iawn yn adar coed llydanddail lled-naturiol neu gymysg, ond mewn blynyddoedd diweddar buont yn ymweld yn amlach â gorsafoedd bwydo mewn gerddi ar ddiwedd y gaeaf/dechrau'r gwanwyn.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, mae poblogaeth y Gylfinbraff yn y Deyrnas Unedig wedi gostwng a chrebachu mewn cwrmpas mewn cyfnodau diweddar. Yma yng Ngwent rydym yn rhan o un o'r pedair cadarnle olaf sydd ar ôl o fewn poblogaeth Fforest y Ddena/Dyffryn Gwy. Mae adar wedi eu modrwyo ac astudiaethau olrhain radio yn dangos fod adar yn symudol iawn ddiwedd y gaeaf/dechrau'r gwanwyn, gan symud drwy'r ardal ac ymhellach. Mae llawer o ymchwil yn mynd rhagddo i ganfod y rhesymau dros y dirywiad yn y boblogaeth. Amheuyd fod ysglyfaethu nythod yn ffactor sylweddol, ond dengys ymchwil nad oedd hyn mor sylweddol ag yr amheuyd.<sup>26</sup> Canfuwyd, fodd bynnag, er bod y Gylfinbraff yn gyffredinol yn nythu o fewn ardaloedd parhaus o goetir llydanddail, bod y safleoedd nythu eu hunain yn aml yn agos at agoriadau yn y canopi. Mae hefyd yn bosibl y gall prinder bwyd ar adegau eraill y flwyddyn fod yn ffactor.<sup>21</sup> Mae Birds of Gwent yn nodi fod Gwent yn sir goediog, gydag amrywiaeth dda o goed hadau/ffrwythau addas, felly os yw un rhywogaeth yn methu hadu, bydd bob amser ffynhonnell arall o fwyd, gan sicrhau presenoldeb parhaus i'r rhywogaeth.<sup>23</sup> Yn y dyfodol bydd angen i reolaeth coetir roi ystyriaeth i ganfyddiadau'r ymchwil parhaus hwn i helpu atal a gwrthdroi'r colledion. Mae dadansoddiad ysgarthol wedi canfod amrywiaeth eang o ddeunydd tyfiant yng Ngwent, a gallai rheolwyr coedwig wella argaeledd bwyd drwy gynnwys rhannau bach o goed tebyg i'r Oestrwydden, Ceirios Gwyllt, Celyn, Masarnen Fach, Leim, Cerdinen, Ywen ac yn arbennig y Llwyfen Llydanddail) mewn unrhyw ail-stocio/plannu.

**Gwarchodaeth:** Dim ond 17% o gofnodion ddaw o safleoedd a warchodir. Roedd cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Goed Dyffryn Coombe, Rhiw Gilwern ac ymylon Gwastadeddau Gwent. Roedd cofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o Coed Cefn Pwll-du, Kemeys Inferior (Coed Gwent) a choedwigoedd gwasgareddig ar hyd Dyffryn Gwy.

*Cofnodion Gylfinbraff o safleoedd a warchodir*



## Titw'r Wern *Poecile palustris* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>2</sup> a Cymru<sup>1</sup>), Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

**Data ar gael:** Cymedrol (750 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae Titw'r Wern yn aderyn preswyl a sefydlog. Er ei enw, mae'n fwy o aderyn coed llydanddail, coedlannau, parciau a gerddi.<sup>28</sup> Mae'n edrych yn debyg iawn i'w gefnder agos Titw'r Helyg,



*Pete Hadfield*

ac ni chafodd ei gydnabod fel rhywogaeth ar wahân tan tua 1897.<sup>9</sup> Yn wahanol i Ditw'r Helyg, nid yw Titw'r Wern yn tyllu ei nyth ei hun, ond yn defnyddio tyllau sydd eisoes mewn coed.<sup>29</sup> Mae ar gael yng Nghymru a Lloegr, gyda'r boblogaeth yn ymestyn i dde'r Alban, fodd bynnag mae'r poblogaethau gorau yn Ne Cymru a de a dwyrain Lloegr.<sup>28</sup> Bu gostyngiad sylweddol yn ei ddsbarthiad a'i niferoedd o fewn y cwmpas hwn.<sup>30</sup> Yn yr un modd â llawer o adar cân eraill y Deyrnas Unedig a'r holl rywogaethau eraill o'r titw, mae'r rhan fwyaf o ddiets Titw'r Wern yn infertebratau, yn arbennig yn ystod y tymor bridio, er eu bod yn bwyta mwy o hadau yn ystod y gaeaf.<sup>29</sup> Fel yr amlinellir uchod, bu gostyngiad sylweddol yn niferoedd Titw'r Wern mewn cyfnodau cymharol ddiweddar: gostyngiad o 77% rhwng 1970 a 2017.<sup>31</sup> Fodd bynnag yn wahanol i Ditw'r Helyg, ni ystyrir fod ysglyfaethiaid neu gystadlu am safleoedd nythu yn ffactorau sylweddol yn nirywiad Titw'r Wern.<sup>32</sup> Fodd bynnag, nodwyd fod ganddynt ofynion cynefin penodol iawn, gan fod angen coetir llydanddail heb eu trin gyda sylfaen dda.<sup>33</sup> Maent hefyd angen tiriogaeth eithriadol o fawr ar gyfer aderyn mor fach ac mae ganddynt wasgariad a symudiad gwael iawn rhwng coetiroedd daearyddol ar wahân, fel bod angen ardaloedd mawr o goetir cyfagos mewn cyflwr addas.<sup>32</sup> Gallai hyn gyfyngu poblogaethau.


**Rhagolygon:** Caiff hanes Titw'r Wern yn y Deyrnas Unedig ei guddio gan y ffaith na chafodd ei gydnabod fel rhywogaeth ar wahân tan 1897, ac am gyfnod ar ôl hynny byddai'r cofnodion yn dal i fod yn ddryslyd. Yn y 19eg ganrif roedd Titw'r Wern/Helyg yn nythu ledled y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr, er yn gyfyngedig mewn llawer o siroedd.<sup>29</sup> Arhosodd y poblogaethau yn yn fras debyg drwy lawer o'r 20fed ganrif, ond bu gostyngiad mawr ers o leiaf ddiwedd y 1960au.<sup>9</sup> Bu gostyngiadau tymor hirach o 77% yn 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad cryf) a bu'r hyn a alwyd yn ostyngiad cryf parhaus yn fwy diweddar, gyda gostyngiad o 22% rhwng 2012–2017.<sup>31</sup> Mae Arolwg Adar Bridio mwy diweddar y BTO yn dangos bod y dirywiad wedi parhau, gyda gostyngiad o 24% rhwng 2008 a 2018 yn y Deyrnas Unedig. Bu cynnydd o 4%, er mai dim ond mewn un tymor, yn 2018-19.<sup>33</sup> Mae'r boblogaeth fridio bresennol (2016) yn 28,500 pâr.<sup>10</sup>

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn cofnodi fod Titw'r Wern yn 'fairly common, but declining resident'<sup>13</sup> mae'r dirywiad hwn yn debyg i'r gostyngiad poblogaeth a welwyd ar draws y Deyrnas Unedig ond efallai na fuont yn digwydd am gyfnod mor hir. Ymddengys fod Titw'r Wern wedi ei ddsbarthu'n dda ar draws Gwent, er fod tueddiadau amlwg ymaith o ucheldir ac at ardaloedd o orchudd sylweddol o goed llydanddail, e.e. Dyffryn Gwy. Dywedodd The Birds of Gwent fod Titw'r Wern yn 'scarce resident' yn 2008<sup>34</sup> ac yn 'breeding resident, widely but thinly distributed' yn 1977.<sup>35</sup> Byddai hyn yn awgrymu fod y niferoedd yn gostwng ar hyn o bryd ond


na fuont o reidrwydd yn gostwng dros yr holl gyfnod. Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981 – 1985 fod poblogaeth o 500 pâr yng Ngwent, gyda hyn efallai yn nifer is nag oedd mewn gwirionedd;<sup>36</sup> mae'r ail atlas, ar gyfer 1998-2003, yn amcangyfrif 510-1,200 pâr (dylid trin y ffigur hwn yn ofalus, oherwydd maint bach y sampl).<sup>34</sup> Efallai ei bod yn anodd canfod o'r ffigurau hyn sut mae poblogaethau wedi newid, er bod gostyngiad amlwg yn nifer y tetradau a ddefnyddiwyd a chofnodion modrwyo rhwng 1974-2003 yn dangos gostyngiad cyffredinol mewn niferoedd.<sup>34</sup> Mae'n amlwg o gyfeiriad at rifynnau diweddar y Gwent Bird Report fod niferoedd yn gostwng ar hyn o bryd, er nad yw Titw'r Wern mor cyflwr mor argyfyngus yng Ngwent ag yw Titw'r Helyg.

Y prif ganolfannau yw Penallt (efallai oherwydd llawer o gofnodion gan un cifbidddd), Coed Great Barnet, Llandegfedd a Choed Lodge (Caerllion), ynghyd â Fforest Ganol a lleoliad anhysbys yn Swydd Gaerloyw, y ddau ohonynt ychydig y tu allan i Gwent Fwyaf.

*Dosbarthiad cofnodion Titw'r  
Wern ar draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm 38 cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Titw'r Wern yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae Titw'r Wern yn cael ei gysylltu'n agos gydag ardaloedd helaeth o goed llydanddail aeddfed.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiad ym mhoblogaethau Titw'r Wern ar draws y Deyrnas Unedig. Bu gostyngiad yng Ngwent hefyd, er y byddai'n ymddangos fod poblogaeth resymol yn dal i fod yng Ngwent. Ni ddylai hyn fod yn achos dros fod yn hunanfodlon; gan fod angen sicrhau nad yw lefelau'r boblogaeth yn gostwng mor isel â rhai Titw'r Helyg. Dylai cadw a gwella'r ardaloedd coetir helaeth y mae'r rhywogaeth hwn eu hangen fod yn flaenoriaeth, a dylai hyn hefyd roi ystyriaeth i'r ffaith fod yn well gan Ditu'r Wern goetir nad ydynt yn cael eu rheoli, ac y gall hyn fod yn groes i gynlluniau cadwraeth ar gyfer rhywogaethau eraill

**Gwarchodaeth:** Daw 66% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda chofnodion Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) o SAC Ystlumod Brynbuga, cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o Wastadeddau Gwent a Llandegfedd. Daw cofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o wahanol goetiroedd ledled de Caerffili a Dyffryn Gwy.

*Cofnodion Titw'r Wern o safleoedd a warchodir*



## Gwybedog Brith *Ficedula hypoleuca* (Pallas, 1764)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chadwraeth (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>2</sup> a Cymru<sup>1</sup>), Rhestr Adran 7 Cymru

**Data ar gael:** Gwael (344 cofnod)

**Cyd-destun:** Aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn yr haf, mae'r Gwybedog Brith yn treulio'r gaeaf yng ngorllewin Affrica.<sup>37</sup> Mae hyn yn golygu fod y Gwybedog Brith yn fregus i newidiadau mewn cynefinoedd haf, gaeaf a charreg gamu ymfudol a

newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>3</sup> Maent yn un o lu o golfanod bach sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig ac yn ymfudo dros bellter maith i safleoedd gaeafu pell. Maent yn bryfysol, gan ddal y rhan fwyaf o'u hysglyfaeth pan maent yn hedfan gyda hediadau gwibiog o glwydi. Mae'n aderyn coed collddail ucheldir rhannau o orllewin a gogledd Prydain.<sup>38</sup> Yn gyffredinol, yn y Deyrnas Unedig bu gostyngiad mawr o 42% rhwng 1970 a 2017.<sup>31</sup> Dywedwyd fod y rhesymau am y gostyngiad hwn yn anhysbys, ond mae tystiolaeth dda fod o leiaf rhan o'r rheswm tu allan i'r tymor bridio a chredir eu bod wedi cysylltu gyda newid amodau safleoedd gaeafu ac ymfudo.<sup>38</sup> Yn ychwanegol, mae'n debyg y cafodd y gostyngiad hysbys iawn mewn infertebratau yn y Deyrnas Unedig ac yn wir ymhellach i ffwrdd effaith ar gynhyrchiant bridio, a bydd hafau gwlypach yn sicr yn effeithio ar unrhyw rywogaeth sy'n dibynnu i raddau helaeth ar bryfed yn yr awyr. Mae hefyd astudiaethau sy'n awgrymu fod gwanwyn cynyddol gynnar yn golygu fod y Gwybedog Brith yn awr yn bridio ar amser nad yw'n cyfateb gyda'r amser pan mae'r rhan fwyaf o'u hysglyfaeth ar gael, gyda llai o gynhyrchiant fel canlyniad.<sup>39</sup>

**Rhagolygon:** Byddai'n ymddangos fod y Gwybedog Brith yn brin yn y Deyrnas Unedig yn hanner cyntaf y 19eg ganrif.<sup>9</sup> Roedd cynnydd mewn niferoedd yn amlwg tuag at ddiwedd y 19fed ganrif ac fe wnaethant ehangu'n raddol ac ennill eu plwyf yng Nghymru, gorllewin Lloegr, gogledd Lloegr a rhannau o'r Alban drwy hanner cyntaf yr 20fed ganrif. Fodd bynnag bu dirywiad yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Bu gostyngiad o 42% rhwng 1970 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad gwan, cafodd hyn ei wrthdroi i ryw raddau yn fwy diweddar gyda gostyngiad gwan o 10% rhwng 2012–2017.<sup>31</sup> Mae Arolwg Adar Bridio<sup>33</sup> y BTO yn dangos y gostyngiadau hyn ymhellach ac adferiad rhannol posibl gyda gostyngiad sylweddol o 43% yn 1995–2018 yn y Deyrnas Unedig i gyd. Yn fwyaf diweddar, bu rhai arwyddion o adferiad, gyda chynnydd o 18%, er fod hyn dros un flwyddyn yn unig (2018-2019), felly dim ond amser a ddengys os yw hyn yn dechrau adferiad.<sup>33</sup> Amcangyfrifwyd fod poblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 22,00–25,000 pâr yn 2016.<sup>10</sup>

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Fel aderyn bridio, mae'r Gwybedog Brith ar gael fel arfer yng nghoed collddail tir uwch gogledd orllewin Gwent ac i raddau llai yn Nyffryn Gwy yn y dwyrain.<sup>40</sup> Gellir eu gweld yn fwy eang pan fyddant yn ymfudo, gyda rhai cofnodion o ardaloedd mwy arfordirol. Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod y Gwybedog Brith yn 'fairly common passage migrant and summer visitor'.<sup>13</sup> Cofnododd The Birds of Gwent fod y Gwybedog Brith yn 'fairly common passage migrant and summer visitor' yn 2008<sup>40</sup> ac yn 'summer visitor, fairly frequent locally' yn 1977, gan nodi ei fod 'a lot scarcer prior to 1960s, the provision of nest boxes being the cause of




Andy Karran

noticeable increases'.<sup>41</sup> Dengys hyn efallai nad yw'r gostyngiad o fewn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol mor amlwg yng Ngwent, er y bu peth gostyngiad (gweler islaw). Mae hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd blychau nythu. Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981 – 1985 fod poblogaeth o 500 pâr yng Ngwent,<sup>42</sup> gyda'r ail atlas, sy'n cwmpasu 1998-2003, yn amcangyfrif nifer is o 400-450 pâr.<sup>40</sup> Mae hyn yn dangos rhywfaint o ostyngiad, yn bennaf yn y boblogaeth sy'n bresennol yn nwyrain y sir.<sup>40</sup> Caiff llwyddiant amrywiol gwahanol gynlluniau blychau nythu ei ddangos yn glir yn ail Atlas Gwent.<sup>40</sup>


Y brif ganolfan gofnodi yw Coed Lasgar; mae canolfannau llai (>10 cofnod) ym Mharc Cwm Darran, Penallt, Strawberry Cottage Woods a safle anhysbys tu allan i'r rhanbarth (yn Swydd Henffordd).



*Dosbarthiad cofnodion y  
Gwybedog Brith ar draws  
Gwent /Fwyaf (uchafswm 75  
cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Gwybedog Brith  
yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Wedi cysylltu'n gryf gyda choetiroedd collddail ucheldir, yn arbennig lle mae pori defaid yn rheoli'r is-dyfiant. Hefyd ar hyd coetiroedd wrth ymyl afonydd mewn ardaloedd tir uwch (e.e. Honddu) a choetiroedd collddail yn Nyffryn Gwy.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiad sylweddol ym mhoblogaeth y Gwybedog Brith ar draws y Deyrnas Unedig. Effeithiwyd ar Went hefyd ond efallai i raddau llai na llawer o ardaloedd eraill. Mae cyfradd y colledion hyn wedi arafu'n gyffredinol ac mae'r Gwybedog Brith yn dal i fod mewn cynefinoedd addas o fewn eu cwmpas, gyda Chymru yn gadarnle. Os yw achos y colledion hyn yn ymwneud i raddau helaeth â phroblemau ar safleoedd gaeafu, yna mae hyn yn broblem fyd-eang newid hinsawdd ac yn fwy anodd ei drin drwy gynlluniau cadwraeth lleol. Fodd bynnag, gellir dal gadw a gwella cynefinoedd yng Ngwent mewn cyflwr fyddai'n cynyddu i'r eithaf yr adnoddau posibl a allai fod ar gael ar gyfer bridio.<sup>43</sup> Bydd pwysigrwydd cadw blychau nythu a chreu cynlluniau blychau nythu newydd ar gyfer y Gwybedog Brith yn parhau'n ffactor pwysig iawn.

**Gwarchodaeth:** Daw 51% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer fawr o gofnodion o'r lleoedd dilynol:

Cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ar draws Gwastadeddau Gwent, y Blorens, y Mynydd Du, Llandegfedd a chors Nelson. Cronfeydd Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ar draws canol Torfaen, safleoedd yn ne Caerffili fel Nant Fawr ac ychydig ar draws ogledd Caerffili a Blaenau Gwent.

*Cofnodion Gwybedog Brith o safleoedd a warchodir*



## Gwybedog Mannog *Muscicapa striata* (Pallas, 1764)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>2</sup> a Cymru<sup>1</sup>), Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

**Data ar gael:** Gwael (434 cofnod)

**Cyd-destun:** Aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn ystod yr haf, mae'r Gwybedog Mannog yn treulio ei aeaf yn Affrica is-Sahara.<sup>44</sup> Mae hyn yn golygu fod y Gwybedog Mannog yn agored i

newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg-gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd – gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>3</sup> Maent yn un o lu o golfanod bach sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig ac yn ymfudo dros bellter maith i safleoedd gaeafu pellennig. Maent yn bryfysol, gan ddal y rhan fwyaf o'u hysglyfaeth yn yr awyr gyda hediadau o holl glwydi. Maent yn dal i fod ar gael yn eang ar draws y Deyrnas Unedig, gan ffafrio llennyrch coediog, perllannau, mynwentydd, parciau a gerddi.<sup>45</sup> Ysyaeth, ni fedrir bellach eu hystyried fel bod yn neilltuol o gyffredin, gan fod poblogaethau wedi gostwng yn syfrdanol mewn cyfnodau diweddar. Yn gyffredinol, yn y Deyrnas Unedig bu gostyngiad enfawr o 87% rhwng 1970 a 2017.<sup>31</sup> Mae ymchwil wedi canfod fod y gostyngiad yn eang ar draws y Deyrnas Unedig a heb fod yn gysylltiedig gyda goroesiad nyth ond at oroesiad cywion ym mlwyddyn gyntaf eu bywyd ar ôl gadael y nyth.<sup>46</sup> Fodd bynnag, mae astudiaethau eraill wedi awgrymu fod ysglyfaethu ar y nyth wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn cynhyrchiant.<sup>47</sup> Mae'n debygol y cafodd y gostyngiad hysbys iawn mewn infertebratau yn y Deyrnas Unedig ac yn wir ymhellach i ffwrdd effaith ar gynhyrchiant bridio, ac mae'n sicr y bydd hafau gwlypach yn effeithio ar unrhyw rywogaethau sy'n dibynnu'n helaeth ar bryfed hedfan. Fodd bynnag, ymddengys y caiff yr effaith mwyaf ei achosi gan ffactorau y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ar ymfudo ac yn y safleoedd gaeafu.<sup>48</sup>



Andy Karran


**Rhagolygon:** Ar ddiwedd y 19eg ganrif, roedd y Gwybedog Mannog wedi'i ddsbarthu bron yn gyffredinol ar draws Prydain ac ystyriwyd ei fod yn un o'r ymfudwyr mwyaf cyffredin yn ystod yr haf.<sup>9</sup> Nodwyd fod y boblogaeth wedi aros fwy neu lai'r un fath hyd at ddiwedd y 1960au/dechrau'r 1970au.<sup>9</sup> Fodd bynnag, bu gostyngiad mawr o hynny ymlaen. Amcangyfrifwyd fod poblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 41,600 pâr yn 2016.<sup>10</sup> Mae hyn yn dal i fod yn nifer resymol o adar, er yn llawer llai, fel y dangoswyd gan ostyngiadau diweddar: gostyngiad o 87% yn 1970-2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad cryf), gyda hyn yn lleihau yn fwy diweddar gyda chynnydd bach o 5%, a nodwyd fel fawr o newid, rhwng 2012 a 2017.<sup>31</sup> Mae Arolwg Adar Bridio y BTO<sup>33</sup> yn dangos y gostyngiadau hyn ymhellach gyda gostyngiad sylweddol o 51% rhwng 1995 a 2018 yn y Deyrnas Unedig i gyd. Yn fwyaf diweddar bu rhai arwyddion o adferiad, gyda chynnydd o 15%, er bod hyn dros dim ond un flwyddyn 2018-2019 o lefelau llawer is, felly dim ond amser a ddengys os yw hyn yn ddechrau adferiad.<sup>33</sup>

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Fel aderyn bridio, mae'r Gwybedog Mannog ar gael yn eang ledled Gwent mewn cynefinoedd addas, fodd bynnag maent yn absennol o ucheldir llwm ac yn fwy prin yn gyffredinol ar y Gwastadeddau. er eu bod yn eang, maent yn awr gwaetha'r modd ymhell o fod yn gyffredin, gyda dosbarthiad yn ddarnig ac ar lefel isel lle maent i'w cael. Gellir eu gweld yn eang pan


fyddant yn ymfudo, gyda nifer sylweddol o gofnodion o ardaloedd mwy arfordirol. Mae'r Gwent Bird Report (2018) diweddaraf yn dweud fod y Gwybedog Mannog yn 'uncommon breeding summer visitor'.<sup>13</sup> Cofnododd The Birds of Gwent yn 2008 fod y Gwybedog Mannog yn 'a passage migrant and fairly common summer visitor, now declining' ac fel 'summer visitor that is fairly common and breeds widely in 1997',<sup>41</sup> Dengys hyn yn glir fod y gostyngiad a welwyd mewn llawer o'r Deyrnas Unedig hefyd wedi effeithio ar y poblogaethau yng Ngwent. Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981-1985 fod poblogaeth o 1,250 pâr yng Ngwent, a ystyriai i fod yn ffigur is na'r gwir nifer;<sup>50</sup> amcangyfrifodd yr ail atlas, ar gyfer 1998-2003, nifer lawer is o 490-830 pâr.<sup>31</sup> Mae hyn eto yn dangos dirywiad yn glir, yn wir caiff ei ddisgrifio fel 'significant decline in both range and population density'.<sup>31</sup>

Y brif ganolfan yw Allnfa Llanbedr (prif ganolfan cofnodi), gyda rhai llai ar hyd ffin Swydd Henffordd.

*Dosbarthiad cofnodion y  
Gwybedog Mannog ar  
draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm 34  
cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion y Gwybedog  
Mannog yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Ardaloedd coediog agored tebyg i lennyrch, perllannau, mynwentydd, parciau a gerddi mawr.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiadau sylweddol ym mhoblogaethau'r Gwybedog Mannog ar draws y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda cholledion mawr yn y boblogaeth. Mae cyflymder y colledion hyn wedi arafu yn gyffredinol, ac mae'r Gwybedog Mannog yn dal i fod yn rhywogaeth eang ar draws y Deyrnas Unedig ac yng Ngwent. Fodd bynnag, maent yn dal i fod o gonsyrn sylweddol, ac mae diflaniad lleol a dosbarthiadau lleol yn bosibl iawn. Os mai prif achos y colledion hyn yw safleoedd gaeafu ac ymfudo, mae hon yn fwy o broblem fyd-eang newid hinsawdd ac yn anodd ei thrin drwy gynlluniau cadwraeth mwy lleol. Fodd bynnag, gellir cadw a gwella cynefinoedd yng Ngwent yn y fath gyflwr fel eu bod yn cynyddu i'r eithaf yr adnoddau posibl sydd ar gael ar gyfer bridio Gwybedog Mannog, gan sicrhau cyfraddau cynhyrchiant uchel, fydd yn helpu lefelau'r boblogaeth.<sup>43</sup>

**Gwarchodaeth:** Daw 36% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o: Cofnodion Safleoedd Cadwraeth Arbennig (SAC) o Aber yr Hafren oherwydd canoli; cofnodion Gwarchodfeydd Natur Lleol (NNR) o Wlypdiroedd Casnewydd; cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) wedi'u gwasgaru ar draws Gwastadeddau Gwent a Llandegfedd, ynghyd ag ychydig o'r Bloreus a'r Mynydd Du. Mae cofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) ar draws canol Torfaen, de Caerffili, gydag ychydig ar draws gogledd Caerffili a Blaenau Gwent.

*Cofnodion y Gwybedog Mannog o safleoedd a warchodir*





## Titw'r Helyg *Poecile montanus* (Conrad von Baldenstein, 1827)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>2</sup> a Cymru<sup>1</sup>), Rhywogaeth Blaenoriaeth UKBAP, Rhestr Adran 7 Cymru

**Data ar gael:** Gwael (190 cofnod)

**Cyd-destun:** Yn aderyn preswyl a sefydlog, mae dosbarthiad Titw'r Helyg wedi ei gyfyngu gan ei angen ar gyfer coed sy'n pydru ar gyfer tyllu safleoedd nythu.<sup>51</sup> Mae hyn oherwydd, yn wahanol



*Pete Hadfield*

i'n rhywogaethau eraill o'r titw sy'n defnyddio tyllau sy'n bodoli eisoes, mae Titw'r Helyg yn tyllu i wneud ei nyth ei hun; oherwydd ei big bach, dim ond mewn pren wedi pydru y gall wneud hynny.<sup>52</sup> Maent yn edrych yn debyg iawn i'w cefnder agos, Titw'r Wern, mewn gwirionedd yr oedd yn 1897 cyn iddynt gael eu cydnabod fel rhywogaethau gwahanol.<sup>9</sup> Mae Titw'r Helyg yn y Deyrnas Unedig yn isrywogaeth endemig neilltuol,<sup>52</sup> sy'n eu gwneud yn neilltuol o bwysig ar gyfer cadwraeth. Maent i'w cael yng Nghymru a Lloegr, gyda'r boblogaeth yn ymestyn i dde'r Alban.<sup>53</sup> Bu gostyngiad mawr yn ei ddosbarthiad a'i niferoedd o fewn y cwmpas hwn, ac ef yw'r rhywogaeth adar sy'n dirywio gyflymaf yn y Deyrnas Unedig ar ôl y Turtur.<sup>54</sup> Yn yr un modd â llawer o adar cân y Deyrnas Unedig a phob rhywogaeth arall o'r titw, prif ddieta Titw'r Helyg yw infertebratau, yn arbennig yn ystod y tymor bridio, er eu bod yn bwyta mwy o hadau dros y gaeaf.<sup>55</sup> Fel yr amlinellir uchod, maent wedi dioddef gostyngiad difrifol a phryderus yn eu niferoedd mewn cyfnodau cymharol ddiweddar: gostyngiad o 94% rhwng 1970 a 2017.<sup>31</sup> Ystyrir bod gwahanol ffactorau am y gostyngiad hwn, gyda chystadleuaeth am safleoedd nythu gan rywogaethau eraill o ditw, ysglyfaethu (yn arbennig gan y Cnocell Fraith Fwyaf) a cholli cynefin (mae prysgrwydd llaith yn gynefin hanfodol).<sup>56</sup> Mae sôn hefyd y gallai ceirw yn pori a newid hinsawdd yn sychu coetiroedd gwlyb hefyd fod yn rheswm.<sup>57</sup>

**Rhagolygon:** Caiff hanes Titw'r Helyg yn y Deyrnas Unedig ei gymylu gan y ffaith na chafodd ei gydnabod fel rhywogaeth gwahanol i Ditw'r Wern tan 1897; am gyfnod wedyn, byddai'r cofnodion yn dal i ddrysu rhyngddynt. Yn y 19eg ganrif roedd Titw'r Wern/Helyg yn nythu yn y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr, er mewn ardaloedd cyfyngedig mewn llawer o siroedd.<sup>9</sup> Roedd y poblogaethau'n parhau'n fras debyg drwy lawer o'r 20fed ganrif, ond bu gostyngiad ers o leiaf ddiwedd y 1960au.<sup>9</sup> Roedd gostyngiadau tymor hirach o 94% rhwng 1970 – 2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad cryf) ac mae'r gostyngiad hwnnw wedi parhau yn fwy diweddar, gyda dirywiad o 17% rhwng 2012–2017.<sup>31</sup> Efallai fod Arolwg Adar Bridio mwy diweddar y BTO yn dangos fod peth arafu yn y dirywiad (er o niferoedd oedd eisoes wedi gweld gostyngiad enfawr), gyda gostyngiad o ddim ond 3% yn 2008–2018 yn y Deyrnas Unedig a chynnydd o 20% yn nhymor 2018–19.<sup>12</sup> Y boblogaeth fridio bresennol yw 2,750 pâr.<sup>10</sup>


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2017) yn dweud fod Titw'r Helyg yn 'very scarce breeding resident'.<sup>13</sup> Mae hyn yn benllanw dirywiad parhaus, yn unol gyda'r gostyngiad a welwyd yn y boblogaeth ar draws y Deyrnas Unedig. Yn 2008 cofnododd The Birds of Gwent fod Titw'r Helyg yn 'scarce and declining resident'<sup>58</sup> ac yn 1997 fel 'breeding resident widely but thinly distributed'.<sup>35</sup> Byddai hyn yn awgrymu fod y niferoedd wedi gostwng dros y cyfnod hwn.




Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981-1895 fod poblogaeth o 300-450 pâr yng Ngwent,<sup>59</sup> gyda'r ail atlas ar gyfer 1998-2003 yn amcangyfrif 70-125 pâr.<sup>10</sup> Mae'r boblogaeth erbyn hyn yn llawer is na hyn ysywaeth. Yn wir, byddai'n ymddangos mai prin oeddent yma o gwbl: yn 2016 dywedodd y Gwent Bird Report nad oedd ysywaeth unrhyw gofnodion i ffordd o Goed Gwent eleni, gydag un pâr wedi bridio yno<sup>60</sup> ac yn 2018 mai dim ond dwy gofnod a gafwyd o'r rhywogaeth hwn sy'n gostwng yn gyflym. Yn siomedig, ni dderbyniwyd unrhyw gofnodion o Goed Gwent yn 2018.<sup>13</sup>

Y prif ganolfannau cofnodi yw Cors Nelson/Wern Nelson, Coed Wernddu a Choed Gwent. Hefyd Fforest Ganol, sydd ychydig y tu allan i Gwent Fwyaf.

*Dosbarthiad cofnodion Titw'r Helyg ar draws Gwent Fwyaf (uchafswm 15 15 cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Titw'r Helyg yn ôl degawd*




**Patrymau cynefin:** Mae Titw'r Helyg yn bendant yn iawn yn aderyn coed prysglyd gwlyb.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd yn flaenorol, bu gostyngiad ym mhoblogaeth Titw'r Helyg ar draws y Deyrnas Unedig. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda'r rhywogaeth heb fod ymhell o ddiflannu'n lleol. Mae'n bosibl y gall Titw'r Helyg barhau drwy drwch blewyn mewn ychydig o safleoedd lleol. Fodd bynnag, os ydym eisiau gwneud yn siŵr na chollir Titw'r Helyg, bydd angen ymdrech cadwraeth gadarn. Byddai'n flaenoriaeth i gadw a gwella'r safleoedd prin sydd ganddynt ar ôl a rhoi safleoedd ychwanegol yn cynnwys cynefin addas yn agos ar gyfer y poblogaethau i gytrefu. Mae'n anos trin materion megis ysglyfaethu a chystadleuaeth. Dylid ymgynghori ar yr ymchwil ddiweddaraf i lywio rheolaeth.

**Gwarchodaeth:** Daw 42% o gofnodion o safleoedd a warchodir. Roedd cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Gors Nelson, ac ychydig o gofnodion gwasgaredig ar draws Gwastadeddau Gwent. Roedd cofnodion Ardaloedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC) o Wern Nelson, Coed Wernddu a Choed Gwent.

*Cofnodion Titw'r Helyg o safleoedd a warchodir*



## Telor yr Helyg *Phylloscopus trochilus* (Linnaeus, 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Oren (DU<sup>2</sup>) Coch (Cymru<sup>1</sup>)

**Data ar gael:** Da (2911 cofnod)

**Cyd-destun:** Yn aderyn ymfudol sy'n ymweld â'r Deyrnas Unedig yn yr haf, mae Telor yr Helyg yn treulio'r gaeaf yn Affrica is-Sahara.<sup>61</sup> Mae hyn yn golygu bod Telor yr Helyg yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd –

gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>3</sup> Maent yn un o lu o deloriaid sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ymfudo i safleoedd gaeafu pellennig. Maent yn bryfysol gan fwyaf, ond byddant yn bwyta ffrwythau ac aeron yn yr hydref.<sup>62</sup> Maent ar gael yn eang ar draws y Deyrnas Unedig, lle bynnag y mae coetir/prysgwydd addas gyda gorchudd daear ar gyfer nythu.<sup>63</sup> Fodd bynnag, bu newid sylweddol mewn poblogaethau mewn cyfnodau diweddar, gyda phoblogaethau yng ngogledd yr Alban yn gyffredinol yn gwneud yn dda tra bu gostyngiad mawr yn y rhai yn Lloegr, yn arbennig yn y de a'r dwyrain.<sup>64</sup> Bu gostyngiad cyffredinol o 45% yn y Deyrnas Unedig rhwng 1970 a 2017.<sup>31</sup> Awgrymwyd nifer o ffactorau posibl am y gostyngiad, yn cynnwys problemau ar safleoedd gaeafu a manau aros ymfudo (gydag adar yr Alban a Chymru efallai'n defnyddio gwahanol ardaloedd, gan felly esbonio'r gwahaniaethau).<sup>64</sup> Caiff hyn ei ymestyn ymhellach drwy gyfeirio at oroesiad gwael oedolion mewn ardaloedd gaeafu i dde'r Sahara.<sup>63</sup> Caiff sychu cyffredinol ar gefn gwlad, gan wneud cynefinoedd yn llai addas, a cheirw yn pori gan symud safleoedd nythu hefyd ei awgrymu.<sup>64</sup>



Andy Karran


**Rhagolygon:** Byddai'n ymddangos y bu Telor yr Helyg yn rhywogaeth cyffredin ac wedi ei ddsbarthu'n dda o fewn y Deyrnas Unedig heb fawr o amrywiadau mewn poblogaeth ers amser maith.<sup>9</sup> Mae'n ddiddorol nodi fod awgrymiadau iddo fod yn absennol o Gymru ar ganol y 19eg ganrif.<sup>9</sup> Ymddengys yn annhebyg fod hyn yn wir. Nodwyd hefyd fod Telor yr Helyg yn ail hanner yr 20fed ganrif wedi manteisio ar blanhigfeydd ifanc i gytrefu ardaloedd o ucheldir lle bu'n absennol yn flaenorol.<sup>9</sup> Ni fu'r sefydlogrwydd poblogaeth hwn mor amlwg mewn cyfnodau mwy diweddar, fodd bynnag (o leiaf i ffwrdd o'r Alban). Amcangyfrifwyd fod poblogaeth fridio y Deyrnas Unedig yn 2016 yn 2,300,000 pâr.<sup>10</sup> Mae hyn yn dal i fod yn nifer sylweddol o adar, ond mae serch hynny yn llawer is, fel a ddangosir gan y gostyngiadau diweddar: gostyngiad o 45% rhwng 1970 a 2017 (a ddisgrifiwyd fel gostyngiad gwan a gostyngiad gwan pellach o 13% rhwng 1970 a 2017<sup>31</sup> Mae Arolwg Adar Bridio y BTO<sup>33</sup> yn dangos y gostyngiadau hyn ymhellach, gyda gostyngiad enfawr o 82% rhwng 1995 a 2018 yn y Deyrnas Unedig i gyd, a gostyngiad pryderus ond llai o 16% yng Nghymru dros yr un cyfnod. Bu rhai arwyddion o adferiad yn fwy diweddar, gyda chynnydd o 66% (y Deyrnas Unedig) a chynnydd o 29% (Cymru)<sup>33</sup> er bod hyn dros un flwyddyn (2018-2019), felly dim ond amser a ddengys os yw hyn yn ddechrau adferiad.

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae Telor yr Helyg ar gael yn y rhan fwyaf o Went mewn cynefinoedd addas (coetir agored a phrysgwydd), er fod dwyseddau bridio yn is ar y gwastadeddau arfordirol. Gellir


gweld mwy o niferoedd ar ymfudiad ar y gwastadeddau arfordirol. Mae'r Gwent Bird Report diweddaraf (2018) yn dweud fod Telor yr Helyg yn 'common breeding summer visitor and passage migrant'.<sup>15</sup> Gallai hyn ar ben ei hun roi darlun calonogol ar gyfer Telor yr Helyg yng Ngwent, yn arbennig gan i The Birds of Gwent ei gofnodi yn 1977 fel 'common breeding summer visitor', gan ei alw 'the most numerous and widely distributed of the warblers'.<sup>65</sup> Fodd bynnag yn 2008 cofnododd The Birds of Gwent fod Telor yr Helyg yn 'a common summer visitor and passage migrant; much declined in recent years',<sup>63</sup> gan ddangos yn glir fod y gostyngiadau a welwyd dros rannau helaeth o dde'r Deyrnas Unedig hefyd wedi effeithio ar boblogaethau Gwent. Amcangyfrifodd The Gwent Atlas of Breeding Birds ar gyfer y cyfnod 1981–1985 fod poblogaeth o 55,500 pâr yng Ngwent;<sup>66</sup> mae'r ail atlas ar gyfer 1998-2003 yn amcangyfrif rhif llawer is o 5,600-21,000 pâr.<sup>63</sup> Mae hyn unwaith eto yn dangos yn glir y bu gostyngiad; yn wir caiff ei ddisgrifio fel gostyngiad trychinebus yn y boblogaet.<sup>63</sup>

Y prif ganolfannau ar gyfer cofnodion yw Allanfa Llanbedr (canolfan gofnodi), Gwlypdir Casnewydd a Goldcliff, ynghyd â Llandegfedd, Llynnoedd Garn, Coed Lasgarn, The British, Parc Taf Bargoed, Llyn Hendre, Cors Magwyr, Llyn Pen y Fan, Treowen a Choetir Dyffryn Gwy yn Swydd Henffordd (tu allan i Gwent Fwyaf).

*Dosbarthiad cofnodion Telor  
yr Helyg ar draws Gwent  
Fwyaf (uchafswm >100)*



*Cofnodion Telor yr Helyg yn  
ôl degawd*






**Patrymau cynefin:** Mae Telor yr Helyg yn fwy o aderyn coetir agored (gan osgoi ardaloedd gyda gorchudd caeedig) a phrysgwydd ar gyfer bridio. Gallant hefyd gael eu canfod mewn cynefinoedd tebyg ar ymfudiad, er fod gan niferoedd mawr fwy o dueddiad arfordirol yn y cyfnod hwn.

**Tueddiadau poblogaeth:** Fel y nodwyd, bu gostyngiadau sylweddol ym mhoblogaethau Telor yr Helyg ar draws rhannau fawr o'r Deyrnas Unedig, gyda dim ond yr Alban yn eu hosgoi. Ni fu Gwent yn ddim gwahanol, gyda cholledion mawr mewn poblogaethau, yn arbennig yn y 1990au. Mae cyfradd y colledion hyn wedi arafu'n gyffredinol, ac mae Telor yr Helyg yn dal yn rhywogaeth cyffredin ar draws y Deyrnas Unedig ac o fewn Gwent. Fodd bynnag, maent yn dal o gonsyrn, yn arbennig yng Nghymru, lle maent nawr ar y rhestr Goch. Os yw achos y colledion hyn yn cael ei yrru i raddau helaeth gan broblemau ar safleoedd gaeafu i dde'r Sahara, yna mae hyn yn fwy o broblem fyd-eang newid hinsawdd ac yn anos eu trin drwy gynlluniau cadwraeth lleol. Fodd bynnag, gall cynefinoedd yng Ngwent ddal i gael eu cadw a'u gwella mewn cyflwr a fyddai'n cynyddu yr adnoddau a fyddai ar gael ar gyfer bridio Telor yr Helyg, gan sicrhau fod cyfraddau cynhyrchiant yn uchel, a dangoswyd fod hyn yn ffactor pwysig mewn lefelau poblogaeth.<sup>43</sup> Mae ceirw yn pori mewn coetiroedd a cholli twf ifanc mewn planhigfeydd a gafodd eu clirio ac sy'n datblygu yn effeithiau posibl ar boblogaethau lleol, a gellid trin hyn mewn mesurau cadwraeth yn y dyfodol.

**Gwarchodaeth:** Daw 60% o gofnodion o safleoedd a warchodir, gyda nifer uchel o gofnodion o'r dilynol.

Cofnodion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC) o Aber yr Hafren, SAC Ystlumod Brynbuga, ac Aberbargoed. Cofnodion Gwarchodfa Natur Genedlaethol (NNR) o Wlypdir Casnewydd. Cofnodion Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o Wastadeddau Gwent, y Blorens, Llandegfedd a Chwm Tawel. Gwarchodfeydd Natur Lleol (SNR) o Cwm Tawel, Parc Bryn Bach ac wedi gwasgaru ar draws eraill ym Mlaenau Gwent a Throfan. Mae cofnodion SINC yn rhy niferus i'w nodi – llawer ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

*Cofnodion Telor yr Helyg o safleoedd a warchodir*





## Y Gog *Cuculus canorus* (Linnaeus 1758)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981 fel y'i diwygiwyd)

**Statws cadwraeth:** Coch (DU<sup>2</sup> a Cymru<sup>1</sup>) Rhywogaeth Blaenoriaeth BAP y Deyrnas Unedig, Rhywogaeth Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

**Data ar gael:** Da (1,317 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Gog yn barasit ymfudol, sy'n treulio cyfnod byr yn y Deyrnas Unedig ar ddechrau'r haf i fridio a gweddill y flwyddyn yng nghoedwig law y Congo yn Affrica.<sup>67</sup> Mae hyn yn golygu fod y gog yn fregus i newidiadau yng nghynefinoedd yr haf, gaeaf a charreg gamu ymfudo, a newidiadau mewn ffynonellau bwyd, gyda newid hinsawdd yn effeithio arnynt i gyd.<sup>3</sup> Cafodd y Gog ei ychwanegu at restr Rhywogaethau Blaenoriaeth BAP yn 2007 a Rhestr Goch Adar o Gonsyrn Cadwraeth yn 2009. Rhwng dechrau'r 1980au a chanol y 2000au, bu gostyngiad o 65% yn niferoedd y Gog yn y Deyrnas Unedig.<sup>68</sup> Nid yw'r union reswm am y gostyngiad hwn yn hysbys, ond awgrymwyd fod gostyngiadau yn ei adar cynnal neu newidiadau a achoswyd gan yr hinsawdd yn amseriad bridio ei adar cynnal fod wedi gostwng y nifer y nythod sydd ar gael i'r gwcw eu meddiannu. Y prif gynhaliwr yng Ngwent yw Llwyd y Gwrych, Corhedydd y Waen a'r Siglen Fraith.<sup>14</sup> Bu Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain yn olrhain y Gog gyda lloeren ers 2001 i geisio deall mwy am ei gostyngiad.<sup>67</sup>




Andy Karran

**Rhagolygon:** Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd poblogaeth a chwmpas y Deyrnas Unedig yn parhau i ostwng, a fyddai'n cael ei adlewyrchu ym mhoblogaeth a chwmpas Gwent Fwyaf. Mae angen mwy o ymchwil i ddeall ecoleg ac effeithiau newid hinsawdd ar y gwcw yng Nghymru a Gwent Fwyaf.


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae'r Gog i'w chael ar draws Gwent Fwyaf, gyda dosbarthiad yn fras yn cyfateb i ardaloedd ucheldir ac ardaloedd lled-naturiol iseldir. Gall ddefnyddio ystod eang o gynefinoedd yn cynnwys glaswelltir, ymyl coetiroedd a gwely cyrs. Mae cyfran uwch o gofnodion yng Ngwastadeddau Gwent, y Cymoedd Dwyreiniol ac ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o Sir Fynwy, gyda chanolfannau cofnodi yng Ngwlypdir Casnewydd a Llanbedr Gwynllŵg.

Bu peth colled hanesyddol, yn arbennig yn ne a dwyrain ardal yr astudiaeth. Mae hyn yn cyfateb gyda chanfyddiadau Birds of Gwent<sup>14</sup>, lle credir y bu mwy o golledion amlwg o ardaloedd tir amaethyddol.

*Dosbarthiad cofnodion y Gog  
ar draws Gwent Fwyaf  
(uchafswm 72 cofnod /km<sup>2</sup>)*




*Cofnodion y Gog yn ôl degawd*



**Tueddiadau poblogaeth:** Gostyngodd poblogaeth y Gog yn y Deyrnas Unedig gan 38% rhwng 1995 a 2018.<sup>33</sup> Er ei bod yn rhwydd canfod presenoldeb y gwcw, oherwydd ei chân uchel, mae tystiolaeth o fridio yn llawer mwy anos, felly mae ancangyfrifon o'r boblogaeth lleol yn anos eu cyfrif. Yng Ngwent, gostyngodd y canran o detradau a ddefnyddiwyd o 87% yn y 1980au i 67% adeg yr atlas diweddaraf (1998–2003). Amcangyfrifwyd fod poblogaeth Gwent yn 240-360 pâr yn 1998–2003.<sup>14</sup>

**Safleoedd a Warchodir:** Daw dau-draen (67%) cofnodion o safleoedd a warchodir, gyda thraean (33%) yn dod o safleoedd nas gwarchodir. Gall hyn fod oherwydd bod gwaith cofnodi wedi ei ganolbwyntio mewn safleoedd a warchodir, neu ansawdd uwch cynefin ac amrywiaeth gysylltiedig sy'n aml ar gael o fewn safleoedd a warchodir o gymharu â'r tirlun yn ehangach.

*Cofnodion y Gog o safleoedd a warchodir*



## Cyfeiriadau

1. Johnstone I a Bladwell S. 2016. Birds of Conservation Concern in Wales 3: The Population Status of Birds in Wales. *Birds in Wales* 13(1): 3–31.
2. Eaton MA, Aebischer NJ, Brown AF, Hearn RD, Lock L, Musgrove AJ, Noble DG, Stroud DA a Gregory RD. 2015. Birds of Conservation Concern 4: The Population Status of Birds in the United Kingdom, Channel Islands and Isle of Man. *British Birds* 108: 708–746.
3. Pearce-Higgins JW a Crick HQP. 2019. One-third of English Breeding Bird Species Show Evidence of Population Responses to Climatic Variables Over 50 Years. *Bird Study* 66(2): 159–172. DOI: 10.1080/00063657.2019.1630360
4. <https://www.bto.org/our-science/projects/gbw/gardens-wildlife/garden-birds/a-z-garden-birds/brambling>
5. Robinson RA. 2005. BirdFacts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (accessed on 02/03/2021).
6. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/finches-and-buntings/brambling>
7. <https://rbbp.org.uk/explore-reports/>
8. Robinson RA. 2005. BirdFacts: Profiles of Birds Occurring in Britain & Ireland. BTO, Thetford: <http://www.bto.org/birdfacts> (accessed on 01/03/ 2021).
9. Holloway S. 1996. *The Historical Atlas of Breeding Birds in Britain and Ireland: 1875–1900*. Poyser, London
10. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/apep4-population-estimates-birds-great-britain-uk-2020.pdf>
11. BirdLife International. 2021. Species Factsheet: *Fringilla montifringilla*: <http://www.birdlife.org> (downloaded 02/03/2021).
12. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/state-of-birds-wales-2018.pdf>
13. Gwent Bird Report 2018.
14. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 343.
15. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 133.
16. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/hawfinch/>
17. <https://www.birdguides.com/articles/species-profiles/focus-on-hawfinch/>
18. <https://www.telegraph.co.uk/science/2017/12/01/hawfinch-invasion-rare-birds-flock-britain-thousands-crop-failures/>
19. <https://www.birdwatching.co.uk/birdspecies/2018/3/8/hawfinch>
20. <https://www.gwct.org.uk/wildlife/species-of-the-month/2018/hawfinch/>
21. <https://community.rspb.org.uk/ourwork/b/biodiversity/posts/investigating-hawfinch-declines-project-update>
22. Kirby WB, Bellamy PE, Stanbury AJ, Bladon AJ, Grice PV a Gillings S. 2015. Breeding Season Habitat Associations and Population Declines of British Hawfinches *Coccothraustes coccothraustes*. *Bird Study* 62(3): 348–357. DOI: 10.1080/00063657.2015.1046368
23. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 358–360.
24. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 130.
25. Tyler S. et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 139.

26. Kirby WB et al. 2018. Nest Survival, Causes of Failure and Productivity of British Hawfinches *Coccothraustes coccothraustes*. *Bird Study* 65: 3.
27. Lewis J. 2018. The Hawfinch Population in the Forest of Dean/Wye Valley. *British Birds* 111: 168–169.
28. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/marsh-tit/>
29. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/tits-crests-and-warblers/marsh-tit>
30. <https://app.bto.org/birdtrends/species.jsp?year=2018&s=marti>
31. DEFRA. 2019. Wild Bird Populations in the UK 1970–2018, 40.
32. <https://www.birdguides.com/articles/ornithology/marsh-tit-mysteries>
33. <https://www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf>
34. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 315–316.
35. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 115.
36. Tyler S et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 115.
37. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/pied-flycatcher/>
38. <https://app.bto.org/birdtrends/species.jsp?year=2018&s=piefl>
39. <https://www.bou.org.uk/woodland-birds-response-to-climatic-change/>
40. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 309–311.
41. Ferns P et al. 1977. *Birds of Gwent*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 125.
42. Tyler S et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 113.
43. Morrison CA, Robinson RA, Clark JA, Risely K a Gill JA. 2013. Recent Population Declines in Afro-Palaearctic Migratory Birds: The Influence of Breeding and Non-breeding Seasons. *Diversity and Distributions* 19: 1051–1058.
44. <https://www.gwct.org.uk/wildlife/research/birds/songbirds/spotted-flycatcher/>
45. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/spotted-flycatcher/>
46. Freeman S and Crick H. 2003. The Decline of the Spotted Flycatcher *Muscicapa striata* in the UK: An Integrated Population Model. *Ibis* 145: 400–412.
47. <https://www.gwct.org.uk/wildlife/research/birds/songbirds/spotted-flycatcher/>
48. [http://www.wbrc.org.uk/WORCRECD/issue\\_29/JohnClarke\\_a.html](http://www.wbrc.org.uk/WORCRECD/issue_29/JohnClarke_a.html)
49. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 308–309.
50. Tyler S et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 112.
51. <https://www.bto.org/understanding-birds/species-focus/willow-tit>
52. <https://naturebftb.co.uk/2017/11/07/what-is-the-willow-tit/>
53. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/willow-tit/>
54. <https://www.birdguides.com/news/can-you-help-to-monitor-britains-declining-willow-tits/>
55. <https://www.wildlifetrusts.org/wildlife-explorer/birds/tits-crests-and-warblers/willow-tit>
56. Lewis AJG et al. 2009. The Decline of the Willow Tit in Britain. *British Birds* 102: 386–393.
57. Siriwardena GM. 2004. Possible Roles of Habitat, Competition and Avian Nest Predation in the Decline of the Willow Tit *Parus montanus* in Britain. *Bird Study* 51(3): 193–202. DOI: 10.1080/00063650409461354
58. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. *The Birds of Gwent*, 314–315.
59. Tyler S et al. 1987. *The Gwent Atlas of Breeding Birds*. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 116.

60. Gwent Bird Report 2016
61. <https://www.bto.org/understanding-birds/species-focus/willow-warbler>
62. <https://www.rspb.org.uk/birds-and-wildlife/wildlife-guides/bird-a-z/willow-warbler/>
63. Venables WA, Baker AD, Clarke RM, Jones C, Lewis JMS, Tyler SJ, Walker IR a Williams RA. 2008. The Birds of Gwent, 303–305.
64. <https://www.bto.org/understanding-birds/species-focus/willow-warbler>
65. Ferns P et al. 1977. Birds of Gwent. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 123.
66. Tyler S et al. 1987. The Gwent Atlas of Breeding Birds. Cymdeithas Ornitholegol Gwent, 110.
67. <https://www.bto.org/our-science/projects/cuckoo-tracking-project/what-have-we-learnt>
68. Douglas DJT et al. 2010. How Important are Climate-Induced Changes in Host Availability for Population Processes in an Obligate Brood Parasite, the European Cuckoo? *Oikos*, Early View doi: 10.1111/j.1600-0706.2010.18388.x